



QAA
Cymru

Adolygiad Addysg Uwch: Cymru o Grŵp Llandrillo Menai

Mawrth 2016

Cynnwys

Yr adolygiad yma	1
Canfyddiadau allweddol	2
Beirniadaethau ASA am Grŵp Llandrillo Menai	2
Nodweddion o arfer da	2
Argymhellion	2
Ynghylch Grŵp Llandrillo Menai	2
Esboniad o'r canfyddiadau am Grŵp Llandrillo Menai.....	5
1 Y Feirniadaeth am: Y modd y cynhelir safonau academiaidd y dyfarniadau a gynigir ar ran cyrff dyfarnu graddau a/neu sefydliadau dyfarnu eraill	6
2 Y Feirniadaeth am: Ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr	24
3 Y Feirniadaeth am: Ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu	58
4 Y Feirniadaeth am: Y gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr	61
5 Sylwadau am Ryngwladoli	66
Rhestr termau.....	67

Yr adolygiad yma

Mae hwn yn adroddiad Adolygiad Addysg Uwch: Cymru a weithredwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (ASA) yng Ngrŵp Llandrillo Menai. Cafwyd yr adolygiad rhwng 15 a 18 Mawrth 2016 ac fe'i weithredwyd gan dîm o dri adolygwr, fel a ganlyn:

- Yr Athro Jethro Newton
- Dr Nicola Jackson
- Miss Emily Connor (adolygwr sy'n fyfyrwr).

Prif bwrpas yr adolygiad oedd ymchwilio'r addysg uwch a ddarperir gan Grŵp Llandrillo Menai a barnu a yw ei safonau a'i hansawdd academiaidd yn cyflawni disgwyliadau'r DU ai peidio. Y disgwyliadau hyn yw'r datganiadau yng [Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU](#) (y Cod Ansawdd)¹ sy'n nodi beth mae holl ddarparwyr addysg uwch y DU yn ei ddisgwyl ganddynt eu hunain ac felly gan ei gilydd, a'r hyn y gall y cyhoedd ei ddisgwyl ganddynt.

Yn yr Adolygiad Addysg Uwch: Cymru, mae tîm adolygu ASA:

- yn gwneud beirniadaethau am
 - y modd y cynhelir safonau academiaidd
 - ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr
 - yr wybodaeth a ddarperir am ddarpariaeth addysg uwch
 - y gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr
- yn gwneud argymhellion
- yn nodi nodweddion o arfer da
- yn cadarnhau'r camau gweithredu y mae'r darparwr yn eu cymryd neu'n bwriadu eu cymryd.

Gallwch weld crynodeb o'r canfyddiadau yn yr adran yn cychwyn ar dudalen 2. Rhoddwyd [esboniadau o'r canfyddiadau](#) mewn paragraffau wedi'u rhifo yn yr adran yn cychwyn ar dudalen 6.

Mae gwefan ASA yn rhoi rhagor o wybodaeth [am ASA](#) a'i chenhadaeth.² Mae adran benodol yn esbonio'r dull ar gyfer gwneud [Adolygiad Addysg Uwch: Cymru](#)³ ac mae ganddi ddolenni at y llawlyfr adolygiad a dogfennau defnyddiol eraill. I gael esboniad o'r termau gwelwch y [Rhestr Termau](#) ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

¹ Cyhoeddir Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU (yn y Saesneg yn unig ar hyn o bryd) ar: www.qaa.ac.uk/assuring-standards-and-quality/the-quality-code.

² Gwefan ASA: www.qaa.ac.uk/cy/aboutus/pages/wales.

³ Y gwe-dudalennau am Adolygiad Addysg Uwch: Cymru: www.qaa.ac.uk/cy/reviewsandreports/pages/higher-education-review-wales.aspx.

Canfyddiadau allweddol

Beirniadaethau ASA am Grŵp Llandrillo Menai

Ffurfiodd tîm adolygu ASA y beirniadaethau dilynol am y ddarpariaeth addysg uwch yng Ngrŵp Llandrillo Menai.

- Mae'r modd y cynhelir safonau academaidd y dyfarniadau a gynigir ar ran ei gyfrff dyfarnu graddau a sefydliadau dyfarnu eraill yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.
- Mae ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.
- Mae ansawdd yr wybodaeth y mae'n ei chynhyrchu am ei ddarpariaeth yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.
- Mae'r gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn **derbyn cymeradwyaeth**.

Nodweddion o arfer da

Canfu tîm adolygu ASA y nodweddion o **arfer da** dilynol yng Ngrŵp Llandrillo Menai.

- Y gefnogaeth ragweithiol barhaus a systematig i'r myfyrwyr sy'n paratoi ar gyfer eu hastudiaethau ym maes addysg uwch (Disgwyliad B4).
- Y defnydd hynod effeithiol a wneir o adroddiadau'r arholwyr allanol i hysbysu datblygiad ansawdd (Disgwyliad B7).
- Y partneriaethau parhaus a chydlynol gyda chyflogwyr, sy'n cefnogi darpariaeth a datblygiad y cwricwlwm (Disgwyliad B10).
- Effeithiolrwydd y Grŵp ASAAU o ran pennu cyfleoedd a mentrau i wella'r dysgu a'r addysgu (Gwelliant).
- Y defnydd manwl a wneir o'i system olrhain ar-lein (eDRAC) i helpu dysgwyr i fyfyrion ar eu dysgu ac i wella eu sgiliau a chynyddu eu hyder fel dysgwyr (Gwelliant).

Argymhellion

Mae tîm adolygu ASA yn gwneud yr **argymhellion** dilynol i Grŵp Llandrillo Menai.

Erbyn mis Medi 2016:

- datblygu trefniadau i wneud y defnydd gorau o system gynrychiolaeth y myfyrwyr, a'i effaith (Disgwyliad B5)
- cryfhau'r mecanweithiau i sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yn derbyn gwybodaeth am ganlyniadau'r arolygon ar lefel sefydliadol a lefel y modiwl (Disgwyliad B5)
- gwella cynllunio a chyfathrebu rhwng y staff darparu er mwyn osgoi gorlwytho yn amseriad ac amserlennu'r asesiadau (Disgwyliad B6)
- rhoi gweithdrefn yn ei lle ar gyfer adolygu ei ddarpariaeth Pearson yn gyfnodol a sicrhau bod hyfforddiant priodol ar gael i aelodau o banelau adolygu a thimau rhaglen (Disgwyliadau B8, A3.4).

Ynghylch Grŵp Llandrillo Menai

Sefydlwyd Grŵp Llandrillo Menai (y Grŵp) ym mis Ebrill 2012 yn dilyn uno tri choleg llwyddiannus sydd wedi'u lleoli dros ardal eang o Ogledd Cymru. Y colegau gwreiddiol oedd Coleg Llandrillo, Coleg Menai a Choleg Meirion-Dwyfor. Mae'r rhain wedi'u cadw yn y strwythur newydd fel colegau aelodol. Mae'r Grŵp newydd wedi creu sefydliad ymbarél i oruchwylio gweithrediad y tri choleg aelodol, ac wedi cwblhau'r broses uno a oedd wedi cychwyn yn 2010 pan unodd Coleg Llandrillo â Choleg Meirion-Dwyfor i greu Grŵp Llandrillo Menai.

Mae'r Grŵp yn cyflogi 2,000 o staff ac yn darparu cyrsiau i oddeutu 34,000 o fyfyrwyr, y mae tua 1,000 ohonynt yn astudio ar raglenni addysg uwch.

Mae'r Cynllun Strategol ar gyfer Addysg Uwch 2015-18 yn dangos gweledigaeth y Grŵp a rhesymwaith y Coleg, sef cryfhau a datblygu'r ddarpariaeth ymhellach lle mae tystiolaeth o alw rhanbarthol a/neu alw cenedlaethol ac mae wedi pennu llwybrau cynnydd cydlynol i ddysgwyr, gan danategu gallu, arbenigedd academaidd ac adnoddau cysylltiedig y Grŵp.

O ganlyniad i'w gwricwlwm amrywiol ym meysydd addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith, a dysgu oedolion yn y gymuned, mae'r Coleg wedi bod mewn sefyllfa, o ran ei adnoddau, i ddatblygu rhaglenni addysg uwch i gwrdd ag anghenion y sectorau; mae'r rhaglenni hyn yn ymdrin ag anghenion penodol y rhanbarth. Er enghraifft, datblygwyd y rhaglen blwyddyn gradd sylfaen (FdA) a gradd BA mewn Iaith Arwyddion Prydain ac Astudiaethau Byddardod mewn partneriaeth â'r gymuned fyddar ehangach i gynnwys cymwysterau priodol, a achredir gan Sefydliad Iaith Arwyddion Prydain.

Mae'r Coleg yn gweithredu polisi dwyieithog, wedi'i lywio gan Gynllun Iaith Gymraeg y Grŵp. Er bod hyn wedi'i gytuno yn 2014, mae'r Coleg wedi darparu cyrsiau addysg uwch cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar ei safleoedd yng Ngholeg Menai a Choleg Meirion-Dwyfor ers blynyddoedd lawer. Mae'r rhaglenni Tystysgrif Broffesiynol mewn Addysg i Raddedigion (TBAR) yn y colegau hyn wedi cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg, maent yn hynod o lwyddiannus, ac maent yn denu nifer dda o fyfyrwyr.

Yn 2011, daeth Prifysgol Bangor yn bartner strategol allweddol y Grŵp ar gyfer datblygu a darparu addysg uwch, yn cynnwys graddau sylfaen, wedi'u hymgorffori yn y bartneriaeth strategol. Mae'r Grŵp hefyd yn gweithio'n gydweithredol â Phrifysgol De Cymru, Prifysgol Glyndŵr a Phrifysgol Canol Swydd Gaerhirfryn (UCLan). Mae cytundebau partneriaeth ar waith gyda phob un o'r prifysgolion hyn. Yn ychwanegol at hyn, mae'r Grŵp yn gweithio gyda phartneriaid dyfarnu eraill, yn cynnwys Pearson ac Awdurdod Cymwysterau'r Alban (SQA), i ddarparu rhaglenni addysg uwch mewn Astudiaethau Llyfrgell, Adeiladu a Pheirianeg.

Mae'r Grŵp yn un o'r unig dri choleg sy'n cael ei ariannu'n uniongyrchol ar gyfer addysg uwch yng Nghymru. Mae'r Grŵp yn cynnig graddau sylfaen a graddau baglor mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau galwedigaethol, yn ogystal â chymwysterau addysg ôl-orfodol. Hefyd, cynigir Tystysgrifau a Diplomâu Cenedlaethol Uwch (HNC a HND) ar gampws Coleg Llandrillo yn Llandrillo-yn-Rhos, ar gampws Coleg Meirion-Dwyfor yn Nolgellau ac ar gampws Coleg Menai yn Llangefni a Bangor. Cynigir un rhaglen ôl-raddedig ar gampws Coleg Llandrillo yn Llandrillo-yn-Rhos.

Mae gan y Grŵp ystod o ddarpariaeth addysg uwch a ariennir yn uniongyrchol, yn ogystal â darpariaeth ar etholfraint. Darperir y ddarpariaeth hon dros dri champws, gyda'r mwyafrif mawr yn cael eu darparu ar gampws Coleg Llandrillo.

Mae'r Grŵp wedi cael dau adolygiad gan ASA yn barod. Yn 2008, cafodd y Grŵp ei Adolygiad Datblygiadol, a derbyniodd argymhellion yn ymwneud â datblygu agwedd strategol tuag at addysgu a dysgu a mecanweithiau gwella, a chafodd ei Adolygiad o Raddau Sylfaen yn 2013, a roddodd argymhellion yn ymwneud ag ymgysylltiad â chyflogwyr, dysgu yn y gweithle, sgiliau astudio ac amser cwblhau ar gyfer dychwelyd adborth o asesiadau. Pennwyd hefyd arfer da mewn perthynas â datblygu rôl y tiwtor arweiniol. Cafodd y ddau adolygiad ganlyniadau cadarnhaol yn gyffredinol. Mae'r cynlluniau gweithredu o'r ddau adolygiad wedi cael eu gweithredu'n llwyddiannus.

Mae'r Grŵp wedi gwneud ail-gymeradwyaeth sefydliadol yn ddiweddar i ddarparu rhaglenni Prifysgol Glyndŵr a rhaglenni Prifysgol Bangor yn 2015.

Roedd panel cymeradwyo Prifysgol Glyndŵr yn ystyried bod y polisïau staffio oedd yn y cyflwyniad yn gynhwysfawr, ac roedd y rhain wedi'u dangos fel tystiolaeth o arfer da. Pennodd y panel hefyd fod yr adnoddau dysgu a phrofiad y myfyrwyr yn benigamp ac yn dangos yn glir beth oedd ar gael i fyfyrwyr Prifysgol Glyndŵr yn y Grŵp, ac yn y Brifysgol drwy gysylltiadau â llyfrgelloedd y Grŵp. Ers hynny mae'r Grŵp wedi cwrdd â dau amod Prifysgol Glyndŵr ar gyfer cymeradwyaeth sefydliadol yn ymwneud ag esboniad o'r strwythurau a'r prosesau ar gyfer rheoli gweithrediad addysg uwch, a sut mae rheolaeth y Grŵp yn rhyngweithio gyda rheolaeth y Brifysgol.

Mae Prifysgol Bangor hefyd wedi cymeradwyo'r Grŵp ar y canlynol yn ystod y broses cymeradwyo sefydliadol ddiweddar: ei ddarpariaeth sydd â ffocws cryf ar gyflogwyr, ac sydd â phwyslais ar gynhyrchu graddedigion medrus; y cymorth bugeiliol ac academiaidd sydd ar gael i'r myfyrwyr, yn cynnwys mewn meysydd megis cyngor gyrfaoedd a gwasanaethau lles; safonau academiaidd ei ddarpariaeth addysg uwch; y cymorth a gynigir i'r myfyrwyr sy'n trosglwyddo o addysg bellach i addysg uwch; ymatebolrwydd, agosatrwydd ac ymrwymiad y staff addysgu a'r staff cymorth fel ei gilydd; rolau allweddol y Rheolwr Datblygu Addysg Uwch a'r Arweinydd Academiaidd Addysg Uwch o ran darparu cysylltiad effeithiol rhwng y Grŵp a Phrifysgol Bangor, ac o ran helpu i sicrhau cysondeb ar draws rhaglenni'r Grŵp.

Mae'r Coleg wedi gweithredu pob un o'r camau gweithredu sy'n ofynnol i fodloni amodau Prifysgol Bangor ar gyfer cymeradwyaeth sefydliadol.

Esboniad o'r canfyddiadau am Grŵp Llandrillo Menai

Mae'r adran hon yn esbonio canfyddiadau'r adolygiad yn fwy manwl.

Mae termau a allai fod yn anghyfarwydd i rai darllenwyr wedi'u cynnwys mewn [rhestr termau byr](#) ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Mae [rhestr termau](#) llawnach ar gael ar wefan ASA, a gallwch weld diffiniadau ffurfiol o dermau penodol yn y disgrifiad gweithredol a'r llawlyfr ar gyfer y [dull adolygu](#), ac hefyd ar wefan ASA.

1 Y Feirniadaeth am: Y modd y cynhelir safonau academaidd y dyfarniadau a gynigir ar ran cyrff dyfarnu graddau a/neu sefydliadau dyfarnu eraill

Disgwyliad (A1): Er mwyn sicrhau safonau academaidd trothwy, mae cyrff dyfarnu graddau'n:

a) sicrhau bod gofynion y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon yn cael eu cyflawni trwy'r camau canlynol:

- gosod eu cymwysterau ar lefel briodol y fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch sy'n berthnasol
- sicrhau bod canlyniadau dysgu'r rhaglen yn alinio â'r disgrifydd cymhwyster perthnasol yn y fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch sy'n berthnasol
- enwi'r cymwysterau yn unol â'r confensiynau teitlo a nodir yn y fframweithiau ar gyfer cymwysterau addysg uwch
- dyfarnu cymwysterau i ddynodi cyflawni canlyniadau dysgu'r rhaglen a ddiffinnir yn bositif

b) ystyried arweiniad ASA ar nodweddion cymhwyster

c) lle maent yn dyfarnu credydau'r DU, aseinio gwerthoedd credyd a llunio rhaglenni sy'n alinio â manylebau'r fframwaith credydau cenedlaethol sy'n berthnasol

d) ystyried y Datganiadau Meincnodi Pwnc perthnasol.

Cod Ansawdd, Pennod A1: Pwyntiau Cyfeirio'r DU ac Ewrop ar gyfer Safonau Academaidd

Y canfyddiadau

1.1 Mae'r Prif Swyddog Gweithredol yn gyfrifol am y staff uwch sy'n cydlynu gwaith y Grŵp o gynllunio, datblygu a dilysu'r cwricwlwm addysg uwch, yn benodol y Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Gwasanaethau Busnes a'r Rheolwr Addysg Uwch. Mae'r tîm hwn yn cydlynu dilysiadau ar gyfer pob cwrs ar draws y Grŵp. Mae'r Grŵp yn gweithio gyda phedair prifysgol partner - y mwyaf o'r rhain yw Prifysgol Bangor a Phrifysgol Glyndŵr, a gyda'r sefydliad dyfarnu Pearson.

1.2 Mae darpariaeth addysg uwch y Grŵp wedi'i mapio yn erbyn meincnodau allanol, yn cynnwys *Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ), trwy'r cyrff dyfarnu a thrwy brosesau Pearson ar gyfer datblygu'r cwricwlwm. Mae cytundebau partneriaeth yn dangos bod y cyrff dyfarnu'n gyfrifol am sicrhau bod cymwysterau'n alinio gyda disgwyliadau cenedlaethol. Cyfeirir at Ddatganiadau Meincnodi Pwnc a'r *Meincnod Cymhwyster Gradd Sylfaen* (wedi'u diweddarau i'r Nodweddion yn 2015) pan fo'r Grŵp yn llunio rhaglen newydd.

1.3 Mae'r cyrff dyfarnu'n gyfrifol am sicrhau bod canlyniadau dysgu wedi'u halinio â'r disgrifwyr cymhwyster perthnasol drwy eu prosesau dilysu eu hunain. Cyfeirir at feincnodau pwnc a gradd sylfaen wrth gynllunio rhaglenni. Mae'r staff yn gwirio meincnodau ac yn defnyddio terminoleg sy'n addas ar gyfer canlyniadau dysgu. Mae'r aelodau o banelau dilysu mewnol yn cyfeirio at restr wirio wrth ddilysu rhaglenni.

- 1.4 Mae Prifysgol Bangor yn gwirio rhaglenni yn ystod y broses ddilysu, a reolir gan Uned Sicrhau Ansawdd a Dilysu Prifysgol Bangor, fel y gwelwyd, er enghraifft, ar gyfer Rheolaeth Lletygarwch, yn dilyn adborth gan Brifysgol Bangor.
- 1.5 Pan fo'r Grŵp yn cynllunio'r cwricwlwm, gwahoddir Prifysgol De Cymru / UCLan i gyfranogi mewn trafodaethau ymgynghorol, yn ôl map llif y broses gynllunio a chymeradwyo a oruchwylir gan y Grŵp Cwricwlwm Strategol. Mae'r astudiaeth achos a welir ar gyfer y rhaglen FdSc Cyfrifiadureg. Mae'r broses hon yn berthnasol i'r holl raglenni addysg uwch, beth bynnag fo'r corff dyfarnu.
- 1.6 Ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm i raglenni Pearson, mae'r timau'n sicrhau eu bod yn ymglyfarwyddo gyda'r Datganiadau Meincnodi Pwnc perthnasol. Mae strwythurau'r rhaglenni'n dangos credydau cyffredinol ar gyfer bob blwyddyn, ac mae'r graddau sylfaen yn cynnwys modiwlau dysgu seiliedig ar waith / profiad yn yr amgylchedd gwaith go iawn.
- 1.7 Gall y myfyrwyr weld gwybodaeth am raglenni, yn cynnwys gwerthoedd credyd, ar y rhith-amgylchedd dysgu ac mewn llawlyfrau. Mae templed UCLan ar gael ar gyfer llawlyfrau sy'n cynnwys rhestr wirio sy'n cael ei diweddarau bob blwyddyn. Mae llawlyfrau a ddatblygir gan y Grŵp ar gyfer pob rhaglen a ddilysir gan Brifysgol Bangor. Ar gyfer prifysgolion partner, mae'r llawlyfrau'n cael eu cyflwyno a'u llwytho i'r rhith-amgylchedd dysgu. Llwythir dogfennaeth Pearson ar ffurf safonol i'r rhith-amgylchedd dysgu. Mae dogfennau dilysu a manylebau rhaglenni'n cynnwys amcanion a chanlyniadau dysgu.
- 1.8 Mae'r prifysgolion partner a Pearson yn gyfrifol am sicrhau bod eu manylebau rhaglenni a'u canlyniadau dysgu'n cyfateb â Datganiadau Meincnodi Pwnc. Mae arholwyr allanol yn gwirio bod asesiadau o safon dderbyniol.
- 1.9 Wrth gynllunio rhaglenni, mae timau rhaglen y Grŵp yn cyfarfod yn fewnol i drafod sut i gyfateb amcanion, cynnwys dangosol a chanlyniadau dysgu'r rhaglenni â'r meincnodau. Ceisir a defnyddir ymgynghoriad allanol / adborth gan fyfyrwyr cyffredol, cyn-fyfyrwyr a chyflogwyr hefyd.
- 1.10 Mae proses ddilysu sefydledig ar waith i lywio'r gwaith o gynllunio cymwysterau yn y Grŵp. Mae'r broses yn galluogi'r Coleg i alinio gydag arweiniad ASA ar ddefnyddio nodweddion cymwysterau, aseinio gwerthoedd credyd yn gywir a gweithredu'r fframwaith credydau cenedlaethol a'r Datganiadau Meincnodi Pwnc perthnasol. Byddai'r cynllun yn galluogi i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.
- 1.11 Archwiliodd y tîm ddogfennau sy'n cynnwys map o broses gynllunio'r cwricwlwm, cytundebau partneriaeth a dogfennau dilysu, a llawlyfrau rhaglen a rhestrau gwirio. Bu'r tîm yn cyfweld staff uwch, myfyrwyr, staff addysgu, a staff cymorth hefyd.
- 1.12 Mae cytundebau partneriaeth yn dangos bod y cyrff dyfarnu'n gyfrifol am sicrhau bod cymwysterau'n alinio gyda disgwyliadau cenedlaethol.
- 1.13 Mae proses o gynllunio'r cwricwlwm ar waith yn y Coleg sy'n berthnasol i'r holl raglenni addysg uwch, beth bynnag fo'r corff dyfarnu. Mae'r aelodau o banelau dilysu mewnol yn cyfeirio at restr wirio wrth ddilysu rhaglenni.
- 1.14 Wrth gynllunio rhaglenni, mae timau rhaglen y Grŵp yn cyfarfod i drafod sut i gyfateb amcanion, cynnwys dangosol a chanlyniadau dysgu'r rhaglenni â'r meincnodau. Ceisir ymgynghoriad allanol ac adborth gan fyfyrwyr cyffredol, cyn-fyfyrwyr a chyflogwyr. Mae'r staff yn cadarnhau y cyfeirir at feincnodau a chyrrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio (cyrrff PSRB) wrth gynllunio, dilysu ac ail-ddilysu rhaglenni. Ymgynghorodd y staff ym maes Peirianeg â chyrrff proffesiynol mewn perthynas â safonau diwydiannol, a gwnaeth y staff ym maes

Astudiaethau lechyd yr un peth. Roedd staff y rhaglen TBAR wedi sicrhau bod modd cael cynnwys dwyieithog.

1.15 Gall y myfyrwyr weld gwybodaeth am raglenni, gan gynnwys gwerthoedd credyd, trwy'r rhith-amgylchedd dysgu ac yn eu llawlyfrau. Mae templed UCLan ar gael ar gyfer llawlyfrau, sy'n cael ei ddiweddarau bob blwyddyn ynghyd â rhestr wirio llawlyfrau. Defnyddir dogfennaeth safonol ar gyfer rhaglenni Pearson. Mae gan raglenni a ddilysir gan Brifysgol Bangor a rhaglenni Pearson lawlyfrau sy'n cael eu datblygu gan y Grŵp yn unol â thempled y Coleg. Ar gyfer prifysgolion partner, mae'r llawlyfrau'n cael eu cyflwyno a'u llwytho i'r rhith-amgylchedd dysgu. Mae dogfennau dilysu a manylebau rhaglenni'n cynnwys amcanion a chanlyniadau dysgu.

1.16 Mae'r dystiolaeth a brofwyd yn dangos bod prosesau sefydledig ar waith i lywio'r gwaith o gynllunio cymwysterau yn y Grŵp. Mae'r Coleg yn dilyn arweiniad ASA ar ddefnyddio nodweddion cymhwyster, i sicrhau bod gwerthoedd credyd yn cael eu haseinio'n gywir ac yn alinio â'r fframwaith credydau cenedlaethol a'r Datganiadau Meincnodi Pwnc fel sy'n berthnasol. Mae'r Disgwyliad wedi'i gyflawni, ac mae lefel y risg yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (A2.1): Er mwyn sicrhau eu safonau academiaidd, mae cyrff dyfarnu graddau'n sefydlu fframweithiau a rheoliadau academiaidd sy'n eglur a chynhwysfawr i lywio sut y maent yn dyfarnu credyd neu gymhwyster academiaidd.

Cod Ansawdd, Pennod A2: Pwyntiau Cyfeirio'r Cyrff Dyfarnu Graddau ar gyfer Safonau Academiaidd

Y canfyddiadau

1.17 Mae'r Grŵp yn cadw at drefniadau a rheoliadau llywodraethu academiaidd ei gyrff dyfarnu, a ddisgrifir mewn cytundebau partneriaeth, a thrwy broses Pearson o gymeradwyo canolfannau. Mae'r rhain yn dangos bod ganddo gyfrifoldebau dirprwyedig am wneud gweithgareddau asesu sy'n cyfrannu at ddyfarnu cymwysterau a chredydau academiaidd.

1.18 Mae'r rheoliadau a'r fframweithiau academiaidd y mae'r Coleg yn eu gweithredu wedi'u sefydlu fel rhan o brosesau cymeradwyo rhaglenni, ac mae'r safonau wedi'u nodi mewn manylebau rhaglenni. Mae rôl y Grŵp o ran sicrhau safonau academiaidd yn amrywio rhwng partneriaid a rhwng rhaglenni. Ar gyfer rhaglenni ar etholfraint, mae'r Grŵp yn cadw at bolisiau'r brifysgol sy'n eu darparu. Ar gyfer darpariaeth Pearson a'r ddarpariaeth a ddilysir gan Brifysgol Bangor, mae'r Grŵp wedi datblygu polisiau sy'n cyflawni disgwyliadau'r Cod Ansawdd, trefnau sicrhau ansawdd Pearson a Llawlyfr Dilysu Prifysgol Bangor.

1.19 Nodir amcanion a chanlyniadau dysgu ar gyfer rhaglenni mewn manylebau rhaglenni a llawlyfrau myfyrwyr, sy'n cael eu llwytho i'r rhith-amgylchedd dysgu.

1.20 Mae systemau, prosesau a dogfennau sy'n dangos bod fframweithiau a rheoliadau academiaidd sy'n eglur a chynhwysfawr yn llywio'r ffordd mae'r Coleg a'i gyrff dyfarnu a'i sefydliadau cysylltiedig yn dyfarnu cymwysterau a chredydau academiaidd. Byddai'r cynllun yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

1.21 Archwiliodd y tîm ystod o gytundebau partneriaeth, polisiau, templedi a dogfennau dilysu, mewn print ac wedi'u llwytho i'r rhith-amgylchedd dysgu. Archwiliwyd manylebau rhaglenni a llawlyfrau myfyrwyr ar y rhith-amgylchedd dysgu. Cafodd y tîm gyfweiliad â staff uwch, staff addysgu, myfyrwyr a chyflogwyr.

1.22 Mae gan staff uwch y dasg o gynnal safonau academiaidd, a sicrhau bod cofnodion y Grŵp Ansawdd a Safonau Academiaidd ym maes Addysg Uwch (Grŵp ASAAU) yn mynd i'r Grŵp Addysg Uwch, a fynychir gan y rheolwyr addysg uwch sy'n gyfrifol am y cwricwlwm. Mae gan y timau gyfrifoldeb am fonitro'n flynyddol ac am wneud nodyn o feincnodau a phwyntiau cyfeirio eraill yn ystod y broses ddilysu. Mae'r myfyrwyr yn disgrifio eu cyfranogaeth mewn cynllunio a dilysu rhaglenni, er enghraifft yn y rhaglen Animeiddio 3D.

1.23 Mae cyflogwyr yn cyfrannu at gynllunio a datblygu rhaglenni mewn amrywiol ffyrdd. Mae Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain wedi hysbysu cynnwys a darpariaeth y cyrsiau, ac mae cyflogwyr llyfrgell wedi hysbysu cychwyniad a diwygiadau i raglenni i sicrhau eu bod yn addas i'w pwrpas. Mae cyflogwyr ym maes arlwygo wedi dylanwadu hefyd ar gynllun y cwricwlwm er mwyn sicrhau bod y cwrs yn cwrdd â safonau'r ysgol a'r sector gofal.

1.24 Mae proses adolygu cyfnodol y corff dyfarnu'n sicrhau bod rhaglenni'n parhau'n addas i'w pwrpas. Ar gyfer tri chwrs yn y Celfyddydau Coginio, ymgynghorwyd â chyflogwyr a myfyrwyr cyn cyfarfodydd gyda Phrifysgol Bangor. Ar gyfer ail-ddilysu cyrsiau Peirianeg, sicrhodd y timau fewnbwn gan gyrff PSRB: Sefydliad y Peirianwyr Sifil a'r Sefydliad Siartredig Adeiladu. Trwy ail-ddilysu'r rhaglen TBAR sicrhawyd bod cynnwys dwyieithog yn cael ei gynnwys yn unol â pholisi a thargedau'r Coleg, gan ddefnyddio manylebau rhaglenni'r corff dyfarnu.

Mae'r staff ym maes Cyfrifiadureg yn cadarnhau bod yr ail-ddilysiad diweddar yn cyfeirio at Ddatganiadau Meincnodi Pwnc ar eu ffurf ddiweddaraf.

1.25 Ar gyfer rhaglenni Pearson, mae'r timau'n defnyddio modiwlau 'parod' a manylebau rhaglenni a modiwlau gan Pearson. Mae'r Coleg wedi gallu ail weithio modiwlau a chanlyniadau dysgu hefyd i sicrhau cyd-destun priodol, yn amodol ar gymeradwyaeth gan Pearson. Er enghraifft, mae modiwl Peirianeg newydd yn cael ei ddatblygu mewn ymgynghoriad â'r diwydiant niwclear, ac mae modiwl amgylcheddol a ddatblygwyd gan y Grŵp wedi cael ei fabwysiadu'n genedlaethol gan Pearson. Mae adolygiad ar draws y rhaglenni'n digwydd hefyd ar lefel uwch ac yn cael ei fwydo i lawr i dimau rhaglen.

1.26 Mae proses glir a dogfennaeth sy'n dangos bod fframweithiau a rheoliadau academaidd eglur a chynhwysfawr ar waith, sy'n sicrhau bod y Grŵp a'i gyrff dyfarnu a'i sefydliadau cysylltiedig yn dyfarnu cymwysterau a chredydau academaidd yn gywir. Mae'r timau'n gweithio'n agos gyda chyrrff dyfarnu a Pearson i sicrhau'r broses o ddyfarnu credyd academaidd. Felly, mae'r Disgwyliad yn cael ei gyflawni, ac mae lefel y risg yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (A2.2): Mae cyrff dyfarnu graddau'n cadw cofnod diffiniol o bob rhaglen a chymhwyster y maent yn eu cymeradwyo (a newidiadau dilynol iddynt) sy'n gweithredu fel pwynt cyfeirio ar gyfer darparu ac asesu'r rhaglen, ei monitro a'i hadolygu, ac ar gyfer darparu cofnodion astudio i fyfyrwyr a chyn-fyfyrwyr.

Cod Ansawdd, Pennod A2: Pwyntiau Cyfeirio'r Cyrff Dyfarnu Graddau ar gyfer Safonau Academaidd

Y canfyddiadau

1.27 Mae'n ofynnol i'r Grŵp lynu at y trefniadau llywodraethu fel y maent wedi'u nodi gan ei gyrff dyfarnu yn eu cytundebau partneriaeth ac yn y ddogfen ar gymeradwyo canolfannau i raglenni Pearson. Mae rôl y Grŵp o ran sicrhau safonau academaidd yn amrywio rhwng partneriaid, rhwng rhaglenni a rhwng rheoliadau'r cyrff dyfarnu. Mae gan y Grŵp gyfrifoldeb dirprwyedig am asesiadau sy'n cyfrannu tuag at gredydau a dyfarniadau cyffredinol.

1.28 Mae'r manylebau rhaglenni'n nodi'r fframwaith academaidd a'r rheoliadau academaidd sydd wedi'u sefydlu yn rhan o'r broses gymeradwyo rhaglenni. Mae'r cyrff dyfarnu'n cadw cofnod diffiniol o bob rhaglen a'i chymhwyster cymeradwy, gan gynnwys unrhyw newidiadau. Yna defnyddir hwn gan y Grŵp fel pwynt cyfeirio ar gyfer darparu ac asesu, monitro ac adolygu ac unrhyw ddefnydd mewn gwybodaeth gyhoeddus, gan gynnwys manylebau rhaglenni, sydd ar gael i'r myfyrwyr cyfredol ac i'r darpar fyfyrwyr ar rith-amgylchedd dysgu'r corff dyfarnu perthnasol neu yn eu prospectysau.

1.29 Mae gan y Grŵp ASAAU y cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau y cedwir safonau academaidd a'u bod yn cael eu gweithredu'n gyson, ac am weithredu'r manylebau rhaglenni hyn. Mae'r pwyllgor hwn yn adrodd ar i fyny trwy'r strwythur llywodraethu i'r Pwyllgor Cwricwlwm, Myfyrwyr a Safonau, ac i'r Grŵp Addysg Uwch, i sicrhau goruchwyliaeth sefydliadol gyflawn o'r safonau academaidd. Trwy'r timau rhaglen, mae'r Grŵp yn cynnal ac yn darparu gwybodaeth am yr amcanion a'r canlyniadau dysgu a fwriedir ar gyfer rhaglenni, gan sicrhau y cedwir yr wybodaeth yn gyfoes mewn llawlyfrau rhaglen, sydd hefyd yn cynnwys manylebau modiwlau. Maent oll wedi'u cysylltu â'r lefel berthnasol yn y FHEQ a'r Datganiad Meincnodi Pwnc. Mae'r cyrff dyfarnu'n cadw cofnodion o'r holl fanylebau rhaglenni sydd wedi'u cymeradwyo. Byddai'r broses hon yn galluogi i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

1.30 Profodd y tîm adolygu'r Disgwyliad drwy ystyried dogfennau a gynhyrchwyd gan y Grŵp, yn cynnwys rhestrau gwirio a chytundebau rhwng y Grŵp a'i gyrff dyfarnu. Cyfarfu'r tîm â staff uwch a staff academaidd y Grŵp.

1.31 Yn ystod y broses o gynllunio cyrsiau, creffir ar y cyrsiau arfaethedig mewn digwyddiadau dilysu i sicrhau eu bod yn alinio â'r FHEQ. Ystyrir Datganiadau Meincnodi Pwnc hefyd mewn digwyddiadau dilysu gan ddilyn rhestr wirio, sy'n sicrhau hefyd eu bod yn alinio â phwyntiau cyfeirio allanol.

1.32 Mae manylebau rhaglenni ar gael i ymgeiswyr ar y wefan ac yn cael eu rhoi i'r myfyrwyr yn ystod y cyfnod cynefino. Mae'r rhain ar gael ar-lein hefyd trwy'r rhith-amgylchedd dysgu i alluogi mynediad y myfyrwyr at y canlyniadau dysgu cyffredinol ar gyfer eu cyrsiau.

1.33 Trwy graffu ar y dull y mae'r Grŵp yn ei ddefnyddio i ddarparu a chynnal cofnodion o ddarpariaeth addysg uwch, a thrwy gwrdd â staff a myfyrwyr, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Grŵp yn cyflawni'r Disgwyliad hwn. Mae'r ffordd y rheolir manylebau rhaglenni ar gyfer ei ddyfarniadau'n addas. Felly, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (A3.1): Mae cyrff dyfarnu graddau'n sefydlu prosesau, a'u gweithredu'n gyson, ar gyfer cymeradwyo rhaglenni a addysgir a graddau ymchwil sy'n sicrhau bod safonau academiaidd yn cael eu gosod ar lefel sy'n cwrdd â safon trothwy'r DU ar gyfer y cymhwyster a'u bod yn cyfateb â'u fframweithiau a rheoliadau academiaidd eu hunain.

Cod Ansawdd, Pennod A3: Sicrhau Safonau Academiaidd ac Agwedd tuag at Ddyfarniadau Academiaidd sy'n seiliedig ar Ganlyniadau

Y canfyddiadau

1.34 Mae gan Brif Swyddog Gweithredol y Grŵp y cyfrifoldeb cyffredinol ar lefel y Grŵp am ddatblygu a chydlynu'r portffolio addysg uwch yn strategol, ac am gynllunio'r cwricwlwm. Wrth weithredu'r cyfrifoldeb hwn, cefnogir y Prif Swyddog Gweithredol gan Bennaeth Coleg Llandrillo, sy'n gyfrifol am ddatblygu'r busnes ar ran y Grŵp, a'r Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Gwasanaethau Busnes ac Addysg Uwch, sydd wedi'i seilio yng Ngholeg Llandrillo hefyd. Cydlynir dilysiadau ar draws strwythur y Grŵp gan y Rheolwr Datblygu Addysg Uwch, ac mae'r Rheolwr Ansawdd yn rheoli'r prosesau ansawdd. Mae pob un o'r tri Phennaeth Coleg yn gyfrifol am ddarpariaeth cwricwlwm y rhaglenni a ddarperir ar eu safleoedd perthnasol. Mae Rheolwr Meysydd Rhaglen yn gyfrifol am safonau'r rhaglenni yn eu meysydd.

1.35 Yn y strwythur pwyllgorau, mae'r Grŵp Cwricwlwm Strategol, a gadeirir gan y Prif Swyddog Gweithredol, sy'n adrodd i'r Tîm Polisi, yn rhoi cyfeiriad strategol i dyfiant y cwricwlwm a materion yn ymwneud â'r farchnad, tra bo'r Grŵp ASAAU yn ymdrin ag ansawdd, safonau academiaidd a materion rheoliadol, ac yn arfer goruchwyliaeth gydgynghorol ar ddarpariaeth y cwricwlwm. Mae'r Grŵp ASAAU yn adrodd i'r Pwyllgor Cwricwlwm, Myfyrwyr a Safonau (PCMS), sy'n is-bwyllgor i'r Bwrdd Llywodraethwyr, ac i'r Grŵp Addysg Uwch.

1.36 Mae'r Grŵp yn defnyddio proses mewn camau i gymeradwyo a datblygu rhaglenni newydd. Mae'r cam cyntaf yn cynnwys proses fewnol o gynllunio academiaidd ar gyfer cymeradwyo achos busnes y rhaglenni. Hysbysir y drafodaeth hon ar gynllunio academiaidd gan wybodaeth am y farchnad, y cyllid a'r adnoddau, a thrwy ystyried sail resymegol y ddarpariaeth a gynigir. Mae hyn yn gofyn trafodaeth flaenorol o'r cynnig rhaglen sy'n cychwyn ar lefel y coleg unigol, ac a arweinir gan Bennaeth y coleg hwnnw a'r Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Cynllunio. Yna mae'r cynnig am raglen newydd yn symud ymlaen at y Grŵp Cwricwlwm Strategol lle ymdrinnir â materion yn ymwneud â'r farchnad lafur ac adnoddau. Ar y pwynt yma, penderfynir a all y cynnig symud ymlaen i'r cam dilysu.

1.37 Ar ôl cwblhau'r cam mewnol hwn o gynllunio academiaidd, mae'r gwaith o gymeradwyo academiaidd yn atebol i weithdrefnau, rheoliadau a threfniadau llywodraethu academiaidd y cyrff dyfarnu, fel y maent wedi'u pennu mewn cytundebau partneriaeth a phroses Pearson o gymeradwyo canolfannau. Mae'r dogfennau'n dangos bod gan y Grŵp nifer o gyfrifoldebau dirprwyedig am asesiadau sy'n cyfrannu at ddyfarniadau a chredydau.

1.38 Ar gyfer rhaglenni ar etholfraint gan Brifysgol Glyndŵr, UCLan, Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Bangor, mae'r prifysgolion yn gyfrifol am gynllunio cwricwlwm eu dyfarniadau eu hunain. Ar gyfer y ddarpariaeth a ddilysir gan Brifysgol Bangor, mae'r Grŵp yn datblygu'r cynnig cwricwlwm, er bod Pearson fel y sefydliad dyfarnu'n gyfrifol am gynllunio rhaglenni ar gyfer darpariaethau eraill.

1.39 Mae cyfres gynhwysfawr o ddogfennau sy'n dangos y broses o ddatblygu a chymeradwyo ar gyfer pob un o'r prifysgolion, ac ar gyfer darpariaeth Pearson. Mae digwyddiadau dilysu a chymeradwyo'n digwydd sy'n sicrhau bod y rheoliadau'n cael eu cadw ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau dysgu, manylebau asesiadau a modiwlau, ac ar safonau academiaidd ac ansawdd y cyfleoedd dysgu i ddarpar fyfyrwyr. Yn ogystal â chraffu gan

adrannau academaidd y partneriaid ac ar lefel prifysgol, mae digwyddiadau a phrosesau hefyd yn cynnwys defnyddio allanoldeb. Mae cynghorwyr allanol, a dynnir o'r byd academaidd a'r diwydiant neu'r proffesiynau, yn cymryd rhan yn y gwaith o gymeradwyo rhaglenni. Mae eu cyfraniad yn cynnwys sylwadau ynglŷn â pha mor gymeradwy yw'r safonau â darpariaeth debyg mewn mannau eraill a materion eraill sy'n ymwneud â safonau.

1.40 Mae gan y Grŵp yma gyfres o brosesau ar waith, gyda chefnogaeth y cyrff dyfarnu hynny, a fyddai'n galluogi iddo gyflawni Disgwyliad A3.1.

1.41 Profodd y tîm adolygu weithrediad ac effeithiolrwydd yr arweiniad ar gynllunio a chymeradwyo rhaglenni, a rheoliadau academaidd a fframweithiau, drwy graffu ar ddogfennau a thrwy gyfarfodydd gyda staff, myfyrwyr a chyflogwyr.

1.42 Nododd y tîm, er bod prosesau cymeradwyo'n sicrhau bod safonau a lefelau'r dyfarniadau'n cyfateb gyda'r fframweithiau academaidd cyfredol a'r cyfrifoldebau rheoleiddio cyfredol, bod rôl y Grŵp o ran sicrhau safonau'n amrywio rhwng partneriaid a rhwng rhaglenni yn ôl yr amrywiol gytundebau sefydliadol. Ar gyfer ei raglenni ar etholfraint, mae'r Grŵp yn cadw at bolisiâu'r prifysgolion. Ar gyfer darpariaeth Pearson neu ddarpariaeth a ddilysir gan Brifysgol Bangor, mae wedi datblygu polisiâu sy'n cwrdd â disgwyliadau'r Cod Ansawdd, ac â gofynion a gweithdrefnau Pearson a Phrifysgol Bangor, fel y bo'n berthnasol. Yn y Grŵp, mae'r Grŵp ASAAU yn gyfrifol am sicrhau bod rheoliadau academaidd a fframweithiau ar waith ac yn cael eu gweithredu'n gyson. Mae'r tîm yn nodi bod y Grŵp yn cymryd camau i sicrhau bod staff yn ymwybodol o, ac yn defnyddio, pwyntiau cyfeirio allanol megis Datganiadau Meincnodi Pwnc, fframweithiau cymwysterau, a nodweddion graddau sylfaen wrth gynllunio rhaglenni.

1.43 Er bod prosesau sicrhau ansawdd, prosesau dilysu a materion gweithredol yn cael eu diffinio gan y prifysgolion partner, mae'r Grŵp yn elwa o drefniadau cyswllt ffurfiol megis byrddau partneriaeth. Er enghraifft, mae Bwrdd Partneriaeth Strategol Prifysgol Bangor wedi'i gadeirio gan Bennaeth Coleg Llandrillo, tra bo'r Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Gwasanaethau Busnes ac Addysg Uwch yn mynychu hefyd. Mae arweinwyr rhaglen addysg uwch y Grŵp yn mynychu byrddau dyfarnu'r partneriaid ar gyfer darpariaeth ar etholfraint.

1.44 Mae'r dystiolaeth ddogfennol oedd ar gael i'r tîm adolygu'n dangos amrywiol enghreifftiau lle gallai'r Grŵp gael cymeradwyaeth yn llwyddiannus i raglenni sy'n cael eu dilysu, neu sydd wedi'u hetholfreinio, gan ei gyrff dyfarnu prifysgol. Mae'r rhaglenni sydd wedi'u datblygu gan y Grŵp ac sy'n cael eu dilysu gan Brifysgol Bangor yn dilyn y gweithdrefnau yn Llawlyfr Dilysu'r Brifysgol honno. Mae'r gweithdrefnau hyn yn berthnasol hefyd i ail-ddilysu. Mae'r Grŵp yn darparu cynnig rhaglen llawn i'r Brifysgol ar ffurf dogfen ddilysu, a ystyrir gan banel dilysu. Yn gwmni i hwn mae dogfennaeth arall megis llawlyfrau rhaglen, canllawiau cyflogwyr (ar gyfer graddau sylfaen), canmoliaeth gan gyflogwyr, a thystiolaeth o drafodaethau ymgysylltu myfyrwyr, ynghyd â dogfennau sefydliadol y Grŵp. Roedd y tîm yn cytuno gyda barn y Grŵp bod hyn yn darparu fframwaith dilysu cadarn. Mae'n sicrhau bod yr holl raddau sylfaen newydd a'r ddarpariaeth graddau eraill a ddatblygir gan a gyda'r Grŵp yn atebol i brosesau o graffu'n fewnol ac yn allanol sy'n cynnwys y diwydiant a chyfraniad gan gynrychiolwyr y byd academaidd. Gwelodd y tîm esiampl o ddilysiad o raglen BA mewn Rheolaeth Lletygarwch sy'n dangos adborth gan y panel cymeradwyo a chadarnhaodd bod yr amodau wedi'u cwblhau.

1.45 Ar gyfer rhaglenni a gynllunnir ac a ddatblygir gan gyrff dyfarnu eraill, ac ar gyfer rhaglenni ar etholfraint gan Brifysgol Bangor, datblygir dogfennau dilysu gan y brifysgol partner. Yma, gwahoddir staff y Grŵp i gyfrannu yn ystod y broses gymeradwyo drwy eu cysylltiadau gydag adrannau academaidd partner ac unedau darpariaeth gydweithredol. Mae'r tîm yn nodi amrywiol esiamplau o ryngweithiad diweddar rhwng staff y Grŵp a staff ei bartneriaid etholfraint. Ym mhroses Prifysgol Glyndŵr, mae'r Arweinwyr Academaidd ym Mhrifysgol Glyndŵr yn rhoi sylwadau ar y ffurflen gynnig darpariaeth cyn mynychu cyfarfodydd dilysu a chyfarfod y panel dilysu llawn. Ymwelir â'r Grŵp hefyd i bwrsasau parhau â'r broses gymeradwyo. Dangoswyd

yr ail yn yr esiampl a ddarparwyd o gymeradwyaeth partner o ail-ddilysiad y rhaglen BA mewn Celfyddyd Gain.

1.46 Mae'r broses ddilysu ar gyfer darpariaeth Prifysgol De Cymru'n galluogi cyfranogaeth y Grŵp ar amrywiol gamau. Yma gall staff y Grŵp ysgrifennu modiwlau, ac mae'r staff yma hefyd yn mynd i gyfarfodydd cynllunio, ynghyd â bod yn aelodau o dimau cwricwlwm. Yn yr esiampl a ddarparwyd o ddilysiad y rhaglen TBAR/TBA (Tystysgrif Broffesiynol mewn Addysg) gan Brifysgol De Cymru, cyfrannodd staff tîm cwrs y Grŵp a'r Pennaeth Cynorthwyol, Cwricwlwm, at y cyfarfod dilysu ym Mhrifysgol De Cymru.

1.47 Ar gyfer darpariaeth Pearson, cymeradwyir rhaglenni newydd drwy gwblhau'r ffurflen ar gyfer cymeradwyo cymwysterau galwedigaethol BTEC. Sicrheir bod hyn ar gael i Pearson, ynghyd â briffiau aseiniad sampl, gwiriad mewnol o'r briffiau, cynllun y rhaglen a curricula vitae'r staff. Hysbyswyd y tîm, am fod rhaglenni sy'n bodoli'n barod wedi'u sefydlu'n dda, nad oedd unrhyw raglenni newydd wedi'u cymeradwyo neu eu dilysu. Mae'r tîm adolygu'n nodi bod y trafodaethau sydd â'r diben o ddatblygu rhaglen Genedlaethol Uwch ar gyfer y diwydiant niwclear lleol ar gam cynnar ar hyn o bryd.

1.48 Mae cynghorwyr allanol, a dynnir o'r byd academiaidd a'r diwydiant neu'r proffesiynau, yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu a chymeradwyo rhaglenni. Mae eu cyfraniad yn cynnwys sylwadau ynglŷn â pha mor gymaradwy yw'r safonau â darpariaeth debyg mewn mannau eraill a materion eraill sy'n ymwneud â safonau. Ar gyfer graddau sylfaen sydd wedi'u datblygu gan y Grŵp, mae'r tîm yn nodi esiamplau o gyflogwyr a myfyrwyr sy'n bwydo i mewn i'r broses o gynllunio'r cwricwlwm, ac o dimau cwrs sy'n trafod cynigion i ddilysu gyda chyflogwyr ar y cam cynllunio.

1.49 Gwneir addasiadau i raglenni gan ddilyn gweithdrefnau'r cyrff dyfarnu ac yn unol â phroses y Grŵp ar gyfer adolygu rhaglenni. Trwy ymgysylltu â gwaith y Grŵp o adolygu rhaglenni, mae tîmau rhaglen yn ceisio sicrhau bod rhaglenni'n parhau i adlewyrchu anghenion y dysgwyr, a gofynion y cyrff PSRB. Ar gyfer rhaglenni a ddilysir gan Brifysgol Bangor, os bydd angen unrhyw newidiadau, caiff y ffurflen berthnasol ei llenwi a'i thrafod gyda'r arholwr allanol cyn y bwrdd arholi. Yna gelwir cyfarfod adolygu rhaglenni i drafod a chadarnhau unrhyw newidiadau a awgrymir nad ydynt yn mynd y tu hwnt i ganllawiau'r cyrff dyfarnu. Mae angen i raglenni ar etholfraint gan Brifysgol Bangor neu gan gyrrff dyfarnu eraill ddilyn unrhyw newidiadau a weithredir gan y partner sy'n etholfreinio'r rhaglenni.

1.50 Os bydd rhaglenni a gymeradwyir gan brifysgolion yn cyrraedd diwedd cyfnod eu dilysiad, cânt eu hail-ddilysu gan ddilyn y gweithdrefnau adolygu/ail-gymeradwyo cyfnodol a nodir yn rheoliadau'r brifysgol. Ymysg yr esiamplau o hyn a welwyd gan y tîm adolygu roedd ail-ddilysiad y rhaglen FdA mewn Ffotograffiaeth a ddilysir gan Brifysgol Bangor. Dywedodd y myfyrwyr wrth y tîm bod y digwyddiad yn cynnwys dau fyfyrwr o bob blwyddyn yn y rhaglen, ynghyd â ffotograffydd lleol. Gwneir adolygiad o, ac addasiadau i, raglenni Pearson gan ddilyn proses Pearson o adolygu canolfannau'n flynyddol.

1.51 Daeth y tîm i'r casgliad bod y staff yn deall prosesau mewnol y Grŵp ar gyfer cynllunio academiaidd a chymeradwyo, prosesau dilysu'r cyrff dyfarnu, a'r disgwyliadau ar gyfer darpariaeth addysg uwch. Mae hyn yn ei alluogi i wneud cyfraniad positif i'r amrywiol brosesau.

1.52 Yn gyffredinol, mae rheoliadau a phrosesau ar waith i gynllunio a chymeradwyo rhaglenni ar gyfer dyfarniadau'r prifysgolion a dyfarniadau Pearson ac mae'r staff yn eu deall. Felly, daeth y tîm i'r casgliad bod Disgwyliad 3.1 yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (A3.2): Mae cyrff dyfarnu graddau'n sicrhau bod credydau a chymwysterau'n cael eu dyfarnu dim ond pan fo:

- **asesiad yn dangos cyflawni'r canlyniadau dysgu perthnasol (canlyniadau dysgu'r modiwl ar gyfer credydau, a chanlyniadau dysgu'r rhaglen ar gyfer cymwysterau)**
- **safonau trothwy'r DU a'u safonau academiaidd eu hunain wedi'u bodloni.**

Cod Ansawdd, Pennod A3: Sicrhau Safonau Academiaidd ac Agwedd tuag at Ddyfarniadau Academiaidd sy'n seiliedig ar Ganlyniadau

Y canfyddiadau

1.53 Gweithredir rhaglenni yn unol â chytundebau dilysu, etholfreinio a chymeradwyo cymwysterau pob un o'r partneriaid dyfarnu. Mae rheoliadau academiaidd pob un o'r cyrff dyfarnu a sefydliad dyfarnu'n nodi'r egwyddorion a'r rheoliadau sy'n llywio'r asesu. Maent yn dogfennu'r prosesau a'r fframweithiau sy'n ymdrin â rheoli'r asesu, gan gynnwys amgylchiadau esgusodol a gweithredu byrddau asesu. Mae'r rheoliadau hyn yn diffinio cyfrifoldebau bob partner o ran goruchwyllo safonau academiaidd bob elfen o'r rhaglenni. Mae'r cyfrifoldebau penodol am yr asesu'n amrywio yn ôl y cytundeb gyda phob partner dyfarnu.

1.54 Mae'r cyrff dyfarnu'n gyfrifol am sicrhau bod cyflawniad myfyrwyr o ran canlyniadau dysgu'n derbyn credyd drwy brosesau safoni, arholi allanol a thrwy weithredu byrddau arholi. Ar gyfer rhaglenni a ddilysir gan Brifysgol Bangor ac ar gyfer darpariaeth Pearson, cynhelir a gweinyddir byrddau arholi a byrddau trosglwyddo credyd gan y Grŵp. Ar gyfer darpariaeth arall, cynhelir a gweinyddir byrddau gan y corff dyfarnu.

1.55 Mae priodoldeb y dulliau asesu i gael eu defnyddio mewn rhaglenni a addysgir ar gyfer profi cyflawniad y canlyniadau dysgu perthnasol yn cael ei graffu mewn trefnau cymeradwyo rhaglenni, a thrwy adolygiad cyfnodol gan brifysgolion partner os oes diwygiadau i asesiadau. Mae proses ddifiniedig ar gyfer gwneud addasiadau i raglenni. Mae manyleb rhaglen ar gael ar gyfer bob rhaglen. Amlinellir y broses o fapio tasgau asesu yn erbyn canlyniadau dysgu ar lefel modiwl a rhaglen yn y dogfennau hyn ac yn y llawlyfrau myfyrwyr, sydd ar gael i'r myfyrwyr ar-lein erbyn hyn. Adolygir yr asesu hefyd yn rhan o'r broses fewnol o werthuso modiwlau a'r broses flynyddol o fonitro ac adolygu rhaglenni.

1.56 Mae gan y Coleg brosesau ar waith a fyddai'n galluogi iddo gyflawni'r Disgwyliad.

1.57 Archwiliodd y tîm adolygu ystod o ddogfennau i brofi pa mor effeithiol yw gweithrediad y prosesau sy'n ymwneud â dyfarnu cymwysterau a chredydau mewn gwirionedd. Mae hyn yn cynnwys rheoliadau academiaidd, cofnodion byrddau asesu, manylebau modiwlau a rhaglenni, llawlyfrau modiwl a rhaglen, adroddiadau arholwyr allanol ac adolygiad monitro blynyddol ar gyfer rhaglenni. Cyfarfu'r tîm hefyd ag ystod eang o staff a myfyrwyr i drafod y broses o asesu safonau academiaidd.

1.58 O drafodaethau gyda'r staff, a thrwy ddarllen dogfennaeth sefydliadol, roedd hi'n amlwg i'r tîm fod y Grŵp yn cymryd camau i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r rheoliadau cymeradwyo perthnasol ar gyfer pob corff dyfarnu. Nododd y tîm fod y Grŵp yn gweithredu ei bolisi a'i drefnau asesu trosfwaol ei hun ar gyfer dysgwyr sy'n astudio ar raglenni addysg uwch a gymeradwyir gan Pearson ac ar gyfer rhaglenni a ddilysir gan Brifysgol Bangor. Mae polisi a threfn asesu'r Grŵp yn darparu gwybodaeth am yr asesu (yn ffurfiannol ac yn grynodol), cyflwyniad trwy feddalwedd canfod llên-ladrad, ac am adborth, graddio, dyddiadau targed a chyfiri geiriau. Mae hefyd yn rhoi arweiniad ar gydnabod dysgu blaenorol/dysgu profiadol

blaenorol, asesu trwy gyfrwng y Gymraeg, ac ar ddyfarnu credydau a chymwysterau'n allanol. Mae gwybodaeth, polisi a threfn rheoli'n cael eu hesbonio i'r dysgwyr mewn llawlyfrau rhaglenni, ar rith-amgylchedd dysgu'r rhaglenni, ac mewn tudalennau modiwl. Ond, clywodd y tîm nad yw defnyddio'r rhith-amgylchedd dysgu i bwrpasau o'r fath yn digwydd yn gyffredinol eto ar draws yr holl raglenni. Cyngorir dysgwyr sy'n astudio ar raglenni addysg uwch a ddyfernir gan Brifysgol Glyndŵr, Prifysgol De Cymru, ac UCLan i adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar gael ar rith-amgylchedd dysgu'r rhaglen neu yn y Llawlyfr Rhaglen, ac ar wefan y corff dyfarnu.

1.59 Trwy'r broses o gymeradwyo rhaglenni, mae'r corff dyfarnu'n ceisio sicrhad bod yr asesu wedi'i alinio'n agos â safonau academiaidd y dyfarniadau, a bod cynllun yr asesiad yn ddigon cadarn wrth brofi cyflawniad y canlyniadau dysgu perthnasol.

1.60 Ar gyfer darpariaeth a gymeradwyir gan brifysgolion, mae llawlyfrau'r rhaglenni a manylebau'r rhaglenni'n mapio'r asesu i'r canlyniadau dysgu ar lefelau priodol. Mae canlyniadau'r modiwlau wedi'u mapio i ganlyniadau dysgu'r rhaglenni, a defnyddir asesiadau i ddangos tystiolaeth o gyflawniad canlyniadau'r modiwlau.

1.61 Clywodd y tîm, ar gyfer rhaglenni a ddilysir gan Brifysgol Bangor, bod y Grŵp yn ymwneud yn ganolog â'r gwaith o ddatblygu manylebau'r rhaglenni. Ar gyfer ei ddarpariaeth ar etholfraint gan Brifysgol Glyndŵr, Prifysgol De Cymru ac UCLan, mae manylebau rhaglenni'n cael eu dyfeisio gan y corff dyfarnu, er y dywedwyd wrth y tîm bod staff y Grŵp yn gweithio'n agos gyda'u cydweithwyr ym Mhrifysgol Glyndŵr i ddatblygu dogfennau o'r fath a'u bod yn gallu eu haddasu nhw, lle bo'n briodol, gan gynnwys cyfieithu manylebau i'r Gymraeg. Ar gyfer cymwysterau Pearson, defnyddir y templed a ddarperir gan y sefydliad dyfarnu, gyda chanlyniadau dysgu'n cael eu pennu yn yr unedau perthnasol.

1.62 Ond, mae'r tîm adolygu'n nodi nad yw manylebau rhaglenni 'parod' Pearson yn pennu manylion amcanion neu ganlyniadau'r rhaglenni.

1.63 Ar gyfer rhaglenni a ddilysir gan Brifysgol Bangor, mae prosesau asesu mewnol y Coleg yn galluogi'r Grŵp i sicrhau bod credydau a chymwysterau'n cael eu dyfarnu lle mae tystiolaeth o gyflawniad y canlyniadau dysgu perthnasol yn yr asesiad, a bod safonau trothwy'r DU a safonau academiaidd y corff dyfarnu ei hun wedi'u bodloni.

1.64 Ar gyfer ei ddarpariaeth a ddilysir gan Brifysgol Bangor a'i raglenni Pearson, mae'r Coleg yn gweithredu trefnau gwirio a safoni mewnol ar gyfer briffiau asesu, ac ar gyfer marcio gwaith myfyrwyr. Yn unol â pholisi'r Grŵp ar ail farcio asesiadau addysg uwch, mae samplau o'r gwaith ar gyfer pob asesiad wedi'u hail farcio gyda samplu wedi'i seilio ar raddau uchel, methiannau a marciau ffiniol. Mae'r dulliau hyn yn sicrhau bod canlyniadau'r dysgu'n cael eu hasesu'n briodol, a bod y canlyniadau'n cael eu safoni. Ar gyfer rhaglenni Prifysgol Glyndŵr, UCLan a Phrifysgol De Cymru, mae asesiadau'n cael eu gwirio hefyd drwy brosesau'r brifysgol ei hun, drwy safoni a thrwy ddefnyddio eu gweithgareddau safoni mewnol ac allanol. I bwrpasau asesu a safonau academiaidd, ar gyfer rhaglenni o dan yr holl drefniadau dilysu hyn, mae'r Grŵp yn sicrhau ei hun drwy ei brosesau monitro ac adolygu mewnol ei hun.

1.65 Gyda'i gilydd, mae'r gweithdrefnau hyn yn sicrhau cysondeb a thegwch wrth osod a marcio asesiadau. Mae trefnau safoni a gwirio effeithiol ar waith, fel y disgrifir uchod, i fonitro bod hyn yn digwydd.

1.66 Mae'r asesiadau ar gyfer dyfarniadau prifysgolion a dyfarniadau Pearson yn atebol i gael eu harholi'n allanol (neu eu gwirio'n allanol) hefyd drwy'r system o ddefnyddio arholwyr allanol (neu wirwyr allanol). Mae adolygu adroddiadau'r arholwyr allanol yn cadarnhau pa mor briodol yw'r asesu o ran cynnal safonau academiaidd a pha mor gymaradwy ydyw gyda safonau trothwy'r DU. Mae'r staff yn dangos ymwybyddiaeth dda o'r holl brosesau ar gyfer asesu a phwysigrwydd eu gweithrediad go iawn o ran sicrhau safonau.

1.67 Mae cofnodion byrddau asesu a reolir gan y Grŵp ar gyfer dyfarniadau prifysgolion a chymwysterau Pearson yn cadarnhau bod y penderfyniadau am ddyfarnu credyd ar lefel modiwl a chwrs yn cael eu gwneud yn unol â phrosesau diffiniedig y partneriaid dyfarnu. Sicrheir allanoldeb priodol drwy gyfranogaeth arholwyr allanol sy'n cael eu gwahodd i fyrddau asesu. Mae arholwyr allanol yn cymryd rhan mewn prosesau asesu drwy gadarnhau gosodiad a chyflawniad canlyniadau dysgu. Ar gyfer rhaglenni Prifysgol Bangor a rhaglenni Pearson, Byrddau Astudiaethau'r Grŵp sy'n goruchwyllo'r byrddau arholi dyfarniadau a'r broses o fonitro rhaglenni'n flynyddol. Ar gyfer rhaglenni eraill a ddilysir gan brifysgolion, cadeirir a chynhelir byrddau arholi gan y partner dyfarnu perthnasol.

1.68 Yn gyffredinol, ar gyfer yr holl ddyfarniadau hyn, drwy weithio gyda'i bartneriaid dyfarnu, fel y maent wedi'u rhagnodi gan gytundebau sefydliadol, mae gan y Grŵp systemau priodol ar waith i sicrhau bod asesiad y myfyrwyr yn gadarn, dilys a dibynadwy, a bod dyfarniad cymwysterau a chredydau wedi'i seilio ar gyflawniad y canlyniadau dysgu a fwriedir. Felly, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (A3.3): Mae cyrff dyfarnu graddau'n sicrhau bod prosesau ar gyfer monitro ac adolygu rhaglenni wedi'u gweithredu sy'n ymroi'n amlwg i ganfod a yw safonau academiaidd trothwy'r DU wedi'u cyflawni ac a yw'r safonau academiaidd sy'n ofynnol gan y corff dyfarnu graddau unigol yn cael eu cadw.

Cod Ansawdd, Pennod A3: Sicrhau Safonau Academiaidd ac Agwedd tuag at Ddyfarniadau Academiaidd sy'n seiliedig ar Ganlyniadau

Y canfyddiadau

1.69 Mae gan y prifysgolion a Pearson systemau ar waith i fonitro safonau academiaidd, fel y maent wedi'u disgrifio yn eu rheoliadau. Mae'r rheoliadau hyn a systemau a threfnau mewnol y Grŵp yn diffinio prosesau ar gyfer monitro ac adolygu rhaglenni sy'n penderfynu a yw safonau academiaidd yn cael eu cynnal.

1.70 Mae gan y Grŵp gylchred priodol o fonitro ansawdd ar waith. Mae pob arweinydd rhaglen yn y Grŵp yn gyfrifol am gynhyrchu adroddiad Adolygu Rhaglenni'n Flynyddol (adroddiad ARhF). Ar gyfer darpariaeth Genedlaethol Uwch Pearson, dynodir y rhain yn adroddiadau Monitro Rhaglenni'n Flynyddol (adroddiadau MRhF). Mae'r adroddiadau i gyd yn cynnwys ymdriniaeth â materion sy'n ymwneud â safonau academiaidd, megis sylwadau gan arholwyr allanol ar asesiadau, cyflawniad y myfyrwyr, a gweinyddu byrddau arholi. Adolygir yr adroddiadau hyn gan y Pennaeth Cynorthwyol sydd hefyd yn rheolwr llinell, a chânt eu llofnodi gan Reolwr Sicrhau Ansawdd y Grŵp cyn eu cyflwyno i'r partner dyfarnu perthnasol. Adolygir crynodeb o'r cryfderau allweddol a'r meysydd sydd angen eu datblygu o'r broses ARhF bob mis Rhagfyr mewn cyfarfod o'r Grŵp ASAAU. Yna crynhoir y materion sy'n codi yn y Ddogfen Hunanwerthuso flynyddol ym maes addysg uwch a chânt eu dwyn ymlaen i Gynllun Datblygu a Gwella Ansawdd y Grŵp.

1.71 Byddai gofynion y corff dyfarnu a'r sefydliad dyfarnu, ynghyd â systemau'r Grŵp ar gyfer monitro ac adolygu rhaglenni, yn galluogi'r Grŵp i gyflawni Disgwyliad A3.3.

1.72 Archwiliodd y tîm adolygu dystiolaeth ddogfennol sy'n dangos systemau'r prifysgolion, Pearson a'r Grŵp ar gyfer monitro ac adolygu rhaglenni, ac hefyd sylwadau ac argymhellion mewn adroddiadau arholwyr allanol. Profodd y tîm weithrediad ac effeithiolrwydd y trefnau sicrhau ansawdd hyn, a'r rheoliadau a'r arweiniad ar fonitro ac adolygu, drwy gwrdd â'r staff a'r myfyrwyr sy'n cymryd rhan yn yr amrywiol brosesau.

1.73 Canfu'r tîm adolygu bod y Grŵp yn gweithredu trefnau adolygu a monitro effeithiol ar gyfer bob rhaglen a gymeradwyir gan brifysgolion sy'n cwrdd â gofynion y brifysgol honno. Mae'r rhain yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer rheoli modiwlau, ar gyfer monitro ac adolygu rhaglenni, ac ar gyfer gwerthuso modiwlau ar eu diwedd.

1.74 Hysbysir y gweithdrefnau hyn gan adroddiadau'r arholwyr allanol ac adborth gan y myfyrwyr. Mae adroddiadau gan arholwyr allanol a benodir gan brifysgolion yn ystyried a yw rhaglenni'n cwrdd â'r safonau academiaidd. Mae'r esiamplau a welwyd gan y tîm adolygu'n cadarnhau'r safonau uchel o ran ansawdd y ddarpariaeth ac o ran gwaith y myfyrwyr. Ar gyfer rhaglenni Pearson a ariennir yn uniongyrchol, mae'r broses safoni fewnol a'r broses wirio allanol a wneir gan wirwyr allanol a benodir gan Pearson yn cadarnhau bod y safonau academiaidd yn cael eu cynnal. Mae adroddiadau'r gwirwyr allanol ar gyfer y rhaglenni hyn yn hysbysu proses adolygu flynyddol Pearson.

1.75 Gweithredir y broses o adolygu'n gyfnodol neu ail-ddilysu/ail-gymeradwyo rhaglenni ar gyfer darpariaeth prifysgolion yn ôl y cytundeb sefydliadol perthnasol ac yn ôl rheoliadau ac arweiniad y corff dyfarnu ar adolygu rhaglenni'n gyfnodol. Mae'r prifysgolion hefyd yn gweithredu prosesau ail-gymeradwyo sefydliadol yn gyfnodol, ac mae'r adolygiadau hyn yn

cynnwys elfen o ddrilio i lawr i lefel y rhaglen. Ystyrir dogfennau ac adroddiadau adolygu gan y Coleg drwy strwythurau pwyllgorau'r prifysgolion. Mae'r adolygiad cyfnodol yn canolbwyntio ar iechyd academiaidd parhaus y dyfarniad neu grŵp o bynciau. Esiampl o hyn yw'r broses gyfnodol o adolygu ac ail-ddilysu'r rhaglen BA mewn Celfyddyd Gain a wnaethpwyd yn ddiweddar gan Brifysgol Glyndŵr, a'r broses o ail-ddilysu rhaglen TBA y Grŵp gan Brifysgol De Cymru yn 2014. Mae'r amserlen yma a'r cylch ar gyfer adolygiad cyfnodol, gyda dyddiadau, yn cael eu cynnal gan y Rheolwr Datblygu Addysg Uwch. Mae rhaglenni sy'n cael eu hadolygiad cyfnodol yn cael eu monitro yn y Grŵp drwy'r Grŵp Cwricwlwm Strategol a'r Grŵp Addysg Uwch.

1.76 Ar gyfer darpariaeth Pearson, mae'r sefydliad dyfarnu'n cynnal ymweliad adolygu blynyddol, a ail-ddynodwyd yn ddiweddar yn Adolygiad Rheoli Ansawdd, lle mae Prif Wiriwr Mewnol y Grŵp ac arweinwyr rhaglenni Pearson yn bresennol. Mae'r broses hon yn cynnwys gwneud gwiriad o'r safonau. Ond, cadarnhaodd y staff uwch yn y Grŵp i'r tîm nad oes unrhyw weithdrefn ar gyfer adolygu rhaglenni Pearson yn gyfnodol, naill ai gan y sefydliad dyfarnu neu gan y Grŵp ei hun.

1.77 Mae angen allanoldeb ym mhrosesau'r prifysgolion ar gyfer dilysu, adolygu cyfnodol (ail-ddilysu/ail-gymeradwyo), ac mewn prosesau ail-gymeradwyo sefydliadol. Mae safonau a osodir neu sy'n cael eu cyflawni'n cael eu hadolygu'n briodol ar y cam yma. Gellir gwahodd y Coleg i enwebu cynrychiolwyr allanol o'r byd academiaidd a'r diwydiant ar gyfer digwyddiadau ail-ddilysu'r prifysgolion. Mae cyfranogaeth y cyflogwr yn ganolog i ddatblygu pob gradd sylfaen a chlywodd y tîm gan gyflogwyr bod cyflogwyr yn cyfranogi yn y gwaith o adolygu rhaglenni. Mae'r dystiolaeth y gofynnwyd amdani gan y tîm yn cadarnhau bod mewnbyn allanol i brosesau'r Grŵp ei hun o gymeradwyo, adolygu a monitro, mewn perthynas â sicrhau safonau academiaidd priodol. Yn ogystal, mae Prifysgol Bangor yn penodi safonwyr allanol ac arbenigwyr allanol i weithredu fel cyfeillion beirniadol ac i gefnogi'r Grŵp gyda datblygu rhaglenni newydd ac i fonitro ac adolygu rhai cyfredol.

1.78 Ar gyfer dyfarniadau a gymeradwyir gan brifysgolion ac ar gyfer darpariaeth Pearson, mae'r staff yn y Grŵp yn rhannu dealltwriaeth gyffredin o'r ffordd mae'r broses o fonitro ac adolygu rhaglenni'n gweithio ac yn dilyn gweithdrefnau'n effeithiol. Mae'r arholwyr allanol yn cadarnhau bod safonau academiaidd yn cael eu cyflawni. Ar gyfer darpariaeth Pearson, er bod prosesau effeithiol o adolygu'n flynyddol, nid oes gan y sefydliad dyfarnu na'r Grŵp weithdrefn yn ei lle ar gyfer adolygu rhaglenni'n gyfnodol. Mae hyn yn cyfrannu at yr argymhelliad yn adran B8.

1.79 Yn gyffredinol, mae prosesau ar waith ar gyfer monitro ac adolygu safonau academiaidd dyfarniadau prifysgolion a chymwysterau Pearson, ac mae'r staff yn deall hyn. Felly, daeth y tîm i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (A3.4): Er mwyn bod yn eglur ac yn atebol i'r cyhoedd, mae cyrff dyfarnu graddau'n defnyddio arbenigedd allanol ac annibynnol ar gamau allweddol o osod a chynnal safonau academiaidd i gynghori a yw:

- **safonau academiaidd trothwy'r DU wedi eu gosod, eu darparu a'u cyflawni**
- **safonau academiaidd y corff dyfarnu graddau wedi eu gosod a'u cynnal yn briodol.**

Cod Ansawdd, Pennod A3: Sicrhau Safonau Academiaidd ac Agwedd tuag at Ddyfarniadau Academiaidd sy'n seiliedig ar Ganlyniadau

Y canfyddiadau

1.80 Gwahoddir staff yn y Grŵp i roi sylwadau ar ddogfennau dilysu gan bartneriaid eraill. Mae cyrsiau ar etholfraint gan Brifysgol Bangor wedi'u datblygu gan y brifysgol partner. Mae staff y Grŵp yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu a chofrestru'r cwricwlwm, ac mewn prosesau o sicrhau ei ansawdd.

1.81 Mae polisi a threfn asesu'r Grŵp yn rhoi gwybodaeth ac arweiniad am asesiadau. Mae'n pennu'r weithdrefn, gan gynnwys ail farcio asesiadau addysg uwch. Mae gan Brifysgol Bangor brosesau asesu mewnol sy'n galluogi i'r Grŵp sicrhau bod credydau a chymwysterau'n cael eu dyfarnu'n briodol. Mae'r Grŵp yn cynhyrchu adroddiadau Adolygu Rhaglenni'n Flynyddol (adroddiadau ARhF), a baratoir gan arweinwyr rhaglen, a anfonir i'r Pennaeth Cynorthwyol perthnasol, a lofnodir gan Reolwr Sicrhau Ansawdd y Grŵp ac a anfonir i'r corff dyfarnu. Adolygir crynodebau yn y Grŵp ASAAU.

1.82 Mae adroddiadau'r arholwyr allanol yn dangos bod safonau'n cael eu cynnal, ac fel sydd wedi'i ddisgrifio yn adran B8, mae themâu a materion yn yr adroddiadau hyn, ynghyd ag arferion da, yn cael eu bwydo i mewn i'r Swyddfa Ansawdd ac yn cael eu defnyddio i hysbysu themâu gwella a datblygu. Mae'r rhain yn cael eu monitro drwy Gynllun Datblygu a Gwella Ansawdd Addysg Uwch y Swyddfa Ansawdd.

1.83 Mae proses safoni/wirio fewnol Pearson yn cynnwys proses debyg drwy gyfrwng y safonwr allanol; mae cyrff dyfarnu'n ymgysylltu â'u harholwr allanol. Mae Prifysgol Bangor yn penodi safonwyr allanol fel 'cyfeillion beirniadol'. Mae cyflogwyr yn cyfranogi yn y broses o ddatblygu graddau sylfaen mewn amrywiaeth o ffyrdd, a drafodir yn adran B10.

1.84 Mae amserlenni'r Grŵp ym maes addysg uwch wedi'u llunio i adael i ddysgwyr weithio neu ateb cyfrifoldebau gofalu ochr yn ochr ag astudiaethau. Mae'r myfyrwyr yn disgrifio eu gallu i wneud hynny.

1.85 Mae fframwaith dilysu systematig ar gyfer cyrsiau Prifysgol Bangor yn sicrhau bod unrhyw raddau sylfaen newydd neu raddau a ddatblygir mewn partneriaeth â'r Grŵp yn cael eu craffu yn fewnol ac yn allanol, gan gynnwys nifer o bartneriaid o'r diwydiant ac academyddion wrth eu gwaith. Hefyd, dilynir trefnau cymeradwyo yn unol â gofynion cyrff dyfarnu partner eraill.

1.86 Mae'r Grŵp yn rheoli rhwydweithiau o bartneriaethau gyda chyflogwyr drwy bartneriaid ym meysydd addysg uwch, addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith, a dysgu oedolion yn y gymuned. Mae'r Grŵp wedi canolbwyntio ar berthynas gyda chyflogwyr rhanbarthol megis Heddlu Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, er mwyn darparu darpariaethau galwedigaethol ym maes addysg uwch sy'n cwrdd ag anghenion y sectorau, fel y maent wedi'u disgrifio yn adran B10.

1.87 Mae'r asesu yn y Grŵp yn gweithredu o dan bolisi a gweithdrefnau trosfwaol i ddysgwyr sy'n astudio ar raglenni addysg uwch, a ddilyswyd gan Pearson neu Brifysgol Bangor.

Gweithredir rhaglenni yn unol â'r cytundebau dilysu, etholfreinio a chymeradwyo cymwysterau ar gyfer pob un o'r cyrff dyfarnu.

1.88 Cynghorir dysgwyr sy'n astudio ar raglenni a ddyfernir gan sefydliadau partner a Pearson i adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau, sydd ar gael yn y Llawlyfr Rhaglen a gyhoeddir ar y rhith-amgylchedd dysgu, ac ar wefan y sefydliad dyfarnu. Mae'r cyrff dyfarnu'n sicrhau bod llwyddiant gan fyfyrwyr i gyflawni canlyniadau dysgu'n derbyn credyd academiaidd drwy brosesau safoni ac arholi allanol, a thrwy gynnal byrddau arholwyr.

1.89 Mae gweithdrefnau yn eu lle gan y cyrff dyfarnu sy'n caniatáu ymgynghoriad rhwng y partneriaid i sicrhau bod safonau academiaidd trothwy'r DU yn cael eu gosod, eu darparu a'u cyflawni, a bod safonau academiaidd y brifysgol yn cael eu gosod a'u cynnal yn briodol. Sicrheir goruchwyliaeth drwy ddefnyddio arholwyr allanol a phrosesau safoni, fel y maent wedi'u llywio gan y polisïau a'r prosesau perthnasol sy'n ofynnol gan y prifysgolion a Pearson. Mae'r broses o gynllunio rhaglenni'n cynnwys ymgynghoriad gan randdeiliaid perthnasol, yn cynnwys cyflogwyr. Byddai'r cynllun yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

1.90 Archwiliodd y tîm ystod o ddogfennau, polisïau, cytundebau partneriaeth, adroddiadau'r arholwyr a chofnodion cyfarfodydd dilysu. Cafodd staff a myfyrwyr eu cyfweld mewn cyfarfodydd, a chyfarfu'r tîm â chyflogwyr.

1.91 Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredol bod y cydweithrediad agos gyda'r partneriaid dyfarnu, yn arbennig gyda Phrifysgol Bangor. Mae'r staff yn cadarnhau bod trafodaethau'n cael eu cynnal, ar draws ystod o raglenni, gyda'r cyrff dyfarnu, cyflogwyr a chyrff sector proffesiynol i ddarparu gwybodaeth wrth gynllunio a darparu rhaglenni. Mae staff mewn Peirianeg, er enghraifft, wedi cysylltu gyda Sefydliad y Peirianwyr Sifil a'r Sefydliad Siartredig Adeiladu i hysbysu'r broses o ail-ddilysu eu rhaglenni ar y cyd gyda Phrifysgol Bangor. Ar gyfer yr adolygiad cyfnodol o'r rhaglen Celfyddydau Coginio, gwahoddwyd myfyrwyr a chyflogwyr i ddod i grŵp ffocws i hysbysu'r broses ym Mhrifysgol Bangor. Cynhelir trafodaethau tair rhan tebyg mewn rhaglenni Astudiaethau Byddardod ac lechyd er mwyn ymgysylltu â'r diwydiant a'r corff dyfarnu. Cafwyd newidiadau i'r rhaglenni mewn Iaith Arwyddion Prydain ac Astudiaethau Byddardod er mwyn sicrhau eu bod yn addas i anghenion a safonau'r diwydiant; mae trafodaethau gyda rhanddeiliaid ar gyfer y rhaglen TBAR wedi sicrhau ei chynnwys dwyieithog.

1.92 Disgrifiodd y staff uwch ymgynghoriad gyda Chyngor Celfyddydau Cymru ac orielau lleol, yn ogystal â chyflogwyr unigol ym maes ffotograffiaeth. Ar gyfer rhaglenni mewn lechyd, mae'r ymgynghoriad wedi cynnwys y Bwrdd lechyd rhanbarthol a'r GIG i sicrhau bod y cwricwlwm yn addas i'w bwrpas. Ar gyfer y rhaglen FdSc Plismona, mae'r broses o gynllunio a darparu wedi cynnwys cysylltu gyda Gwasanaeth Heddlu Gogledd Cymru ac UCLan i sicrhau bod y cwricwlwm yn cyd-fynd yn dda â hyfforddiant plismona dilynol.

1.93 Mae cyflogwyr yn cyfrannu at gynllunio a datblygu rhaglenni mewn amrywiol ffyrdd. Mae Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain wedi hysbysu cynnwys y cyrsiau a'u darpariaeth, ac mae cyflogwyr ym maes llyfrgelloedd wedi hysbysebu cychwyniad ac addasiadau i raglenni ac wedi darparu arbenigedd o'r diwydiant i hybu darpariaeth ac i sicrhau bod y cyrsiau'n addas i'w bwrpas. Mae cyflogwyr ym maes arlwygo wedi dylanwadu hefyd ar gynllun y cwricwlwm er mwyn sicrhau bod y cwrs yn cwrdd â safonau'r ysgol a'r sector gofal.

1.94 Mae'r adolygiadau cyfnodol gan y cyrff dyfarnu'n sicrhau bod y rhaglenni'n parhau'n addas i'w bwrpas. Ar gyfer y tri chwrs yn y Celfyddydau Coginio, ceisiwyd barn cyflogwyr a myfyrwyr cyn y cyfarfodydd gyda Phrifysgol Bangor. Ar gyfer ail-ddilysu cyrsiau Peirianeg, hefyd ar y cyd gyda Phrifysgol Bangor, sicrhaodd y timau fewnbwn gan Sefydliad y Peirianwyr Sifil a'r Sefydliad Siartredig Adeiladu. Roedd ail-ddilysiad y rhaglen TBAR yn sicrhau cynhwysiad cynnwys dwyieithog yn unol â pholisi a thargedau'r Grŵp, gan ddefnyddio manylebau rhaglenni'r

corff dyfarnu. Mae'r staff ym maes Cyfrifiadureg yn cadarnhau bod yr ail-ddilysiad diweddar yn cyfeirio at Ddatganiadau Meincnodi Pwnc ar eu ffurf ddiweddaraf.

1.95 Mae cyfranogaeth arholwyr a safonwyr allanol yn barhaus ac yn strategol i hysbysu a sicrhau safonau academiaidd wedi'i ddogfennu yn adran B7.

1.96 Mae prosesau ac arferion sicrhau ansawdd y Grŵp yn gwneud yn siŵr bod arbenigedd allanol ac annibynnol yn cael ei ddefnyddio ar gamau allweddol yn y broses o osod a chynnal safonau academiaidd, a bod safonau academiaidd y corff dyfarnu graddau'n cael eu gosod a'u cynnal yn briodol. Mae'r Disgwyliad wedi'i gyflawni, ac mae lefel y risg yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Y modd y cynhelir safonau academiaidd y dyfarniadau a gynigir ar ran cyrff dyfarnu graddau a sefydliadau dyfarnu eraill: Crynodeb o'r canfyddiadau

1.97 Wrth benderfynu ar ei feiniadaeth ynglŷn â chynnal safonau academiaidd y dyfarniadau, cyfatebodd y tîm ei ganfyddiadau â'r meini prawf a nodir yn Atodiad 2 y llawlyfr a gyhoeddwyd. Mae'r Grŵp yn rheoli ei gyfrifoldebau'n effeithiol, ar y cyd gyda'r cyrff dyfarnu graddau a'r sefydliad dyfarnu graddau, ac mae'n cynnal y safonau academiaidd yn effeithiol. Drwy graffu ar ystod eang o dystiolaeth, a thrwy'r cyfarfodydd y gallai'r tîm eu cael gyda'r staff a'r myfyrwyr, daeth y tîm i'r casgliad bod y meincnodau pwnc a'r meincnodau cymhwyster perthnasol ac arbenigedd allanol yn cael eu defnyddio'n effeithiol wrth ddatblygu rhaglenni a'u cymeradwyo a'u monitro wedyn, a bod y cymwysterau'n cael eu gosod ar lefel academiaidd briodol. Hefyd, mae'r tîm yn cadarnhau bod y mewnbwn gan arholwyr allanol a thiwtoriadaid cyswllt o'r partner dyfarnu graddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol.

1.98 Nid yw'r tîm wedi nodi unrhyw arferion da yn y maes hwn, nac yn gwneud unrhyw argymhellion, er bod yr argymhelliad o dan Ddisgwyliad B8 wedi'i groesgyfeirio â Disgwyliad A3.4 fel y mae'n ymwneud â'r angen am broses o, a chefnogaeth gysylltiedig ar gyfer, adolygu darpariaeth Pearson y Grŵp yn gyfnodol.

1.99 Mae'r modd y cynhelir safonau academiaidd y dyfarniadau a gynigir ar ran cyrff dyfarnu graddau a sefydliad dyfarnu'r Grŵp yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.

2 Y Feirniadaeth am: Ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr

Disgwyliad (B1): Mae darparwyr addysg uwch, wrth gyflawni eu cyfrifoldebau am osod a chynnal safonau academiaidd ac am sicrhau a gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu, yn gweithredu prosesau effeithiol ar gyfer cynllunio, datblygu a chymeradwyo rhaglenni.

Cod Ansawdd, Pennod B1: Cynllunio a Chymeradwyo Rhaglenni

Y canfyddiadau

2.1 Fel yr esboniwyd o'r blaen, nid yw'r Grŵp yn dyfarnu unrhyw gymwysterau addysg uwch. Gwneir yr holl ddyfarniadau drwy drefniadau partneriaeth. Mae'r cyfrifoldeb am gymeradwyo academiaidd terfynol yn parhau gyda'r brifysgol berthnasol neu Pearson. Er bod y cyfrifoldeb cyffredinol ffurfiol am gynllunio a chymeradwyo rhaglenni'n gorwedd gyda phrosesau sicrhau ansawdd y brifysgol partner neu Pearson, mae'r Grŵp yn defnyddio ei brosesau mewnol ei hun ar gyfer cymeradwyo materion yn ymwneud ag adnoddau ac ar gyfer datblygu rhaglenni mewn cydweithrediad â rhai ei bartneriaid dilysu.

2.2 Mae'r cyfrifoldebau am gynllunio rhaglenni'n amrywio rhwng y cyrff dyfarnu. O dan ei drefniadau dilysu gyda Phrifysgol Bangor, mae'r Grŵp yn arwain y gwaith ar y dechrau o gynllunio manyleb y rhaglen. Ar gyfer darpariaeth ar etholfraint, o dan drefniadau gyda Phrifysgol Glyndŵr, UCLan, a Phrifysgol De Cymru, datblygir y fanyleb gan y partner dilysu mewn ymgynghoriad ag Arweinydd Rhaglen y Grŵp. Ar gyfer darpariaeth Pearson, darperir manylebau rhaglenni ac unedau gan Pearson, er y gallai rhai unedau gael eu dyfeisio gan y Grŵp.

2.3 Mae'r partneriaid dyfarnu hyn yn gyfrifol am sicrhau bod eu dyfarniadau'n alinio â'r FHEQ a phwyntiau cyfeirio allanol eraill. Mae rhaglenni newydd sy'n cael eu dilysu, neu raglenni cyfredol sy'n cael eu hail-ddilysu, yn atebol i reoliadau'r partner dyfarnu perthnasol. Cwblhawyd digwyddiad ail-ddilysu a chymeradwyo gan Brifysgol Bangor yn ddiweddar ar gyfer y rhaglen FdA mewn Ffotograffiaeth.

2.4 Byddai datblygu, cynllunio a chymeradwyo rhaglenni drwy brosesau'r prifysgolion a Pearson, a thrwy brosesau'r Grŵp lle bo'n berthnasol, megis y defnydd a wneir o gam mewnol o gymeradwyo'r achos busnes, a threfn gyn-ddilysu fewnol dan arweiniad y Rheolwr Datblygu Addysg Uwch, yn galluogi'r Grŵp i gyflawni Disgwyliad B1.

2.5 Er mwyn profi effeithiolrwydd y gweithdrefnau hyn, archwiliodd y tîm ddogfennau sy'n ymwneud â chynllunio strategol a chwricwlwm, strwythurau cyfundrefnol perthnasol y Grŵp, a rheoliadau prifysgolion a Pearson ar gyfer datblygu rhaglenni. Cynhaliodd y tîm hefyd gyfarfodydd gyda staff ar bob lefel yn y Grŵp, a gyda chyflogwyr.

2.6 Nododd y tîm adolygu bod portffolio cwricwlwm y Grŵp, y mae cyfran sylweddol ohono wedi cael ei ariannu'n uniongyrchol yn y gorffennol, wedi'i gyfeirio tuag at ddarpariaeth alwedigaethol. Mae hyn wedi'i adlewyrchu yng Nghynllun Strategol y Grŵp ar gyfer Addysg Uwch, sy'n nodi'r galw am sgiliau yn y rhanbarth fel un o'r elfennau gyrru sy'n cael blaenoriaeth, ynghyd ag ymrwymiad i ddarpariaeth ddwyieithog.

2.7 Clywodd y tîm bod y Grŵp, er mwyn hwyluso datblygu'r portffolio addysg uwch, wedi gweithredu proses gymeradwyo fewnol sy'n canolbwyntio ar y sail resymegol, yr achos busnes, a materion yn ymwneud â sicrhau adnoddau i gynigion am raglenni newydd, cyn cyflwyno cynnig i gorff dyfarnu. O dan y broses hon o gynllunio portffolio strategol, cyn ystyried y sail resymegol a'r achos busnes yn ffurfiol, trafodir cynlluniau cwricwlwm ar gyfer rhaglenni newydd ar lefel y coleg unigol. Cefnogir Pennaeth pob coleg yn y broses hon gan Bennaeth Cynorthwyol

ar gyfer Cynllunio. Mae'r Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Gwasanaethau Busnes ac Addysg Uwch, sydd yng Ngholeg Llandrillo, yn gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y mae'r Grŵp yn gweithredu ac yn rheoli'r broses o gynllunio'r cwricwlwm.

2.8 Mae'r Grŵp Cwricwlwm Strategol, a gadeirir gan y Prif Swyddog Gweithredol, yn gyfrifol am benderfynu ar ddarpariaeth addysg uwch newydd, lle gwneir penderfyniadau ynglŷn â chaniatáu i gynnydd symud ymlaen i'r cam dilysu. Mae'r Grŵp Cwricwlwm Strategol, sy'n adrodd i'r Tîm Polisi, yn goruchwylio darpariaeth newydd a darpariaeth o'r gorffennol. Mae'n gyfrifol am sicrhau bod y Grŵp yn cynnal cwricwlwm sy'n alinio ag amcanion strategol a'r galw am weithwyr yn y rhanbarth, ac mae'n osgoi dyblygiad a chystadleuaeth yn fewnol ac yn allanol. Mae'r Grŵp Cwricwlwm Strategol yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cynnwys rheolwr uwch o bob un o'r tri choleg cyfansoddol. Maent yn derbyn ffurflenni cais am gymeradwyo, ac yn ystyried y sail resymegol, yr effaith ar y Grŵp a'r anghenion am adnoddau fel y maent wedi'u pennu ar y ffurflen. Fel arfer, mae'r Pennaeth Cynorthwyol perthnasol neu'r Rheolwr Maes Rhaglen perthnasol yn mynychu i drafod y cynnydd. Ystyrir y ffynhonnell ariannu arfaethedig (naill ai'n uniongyrchol neu ar etholfraint) yn gynnar yn y broses. Ar gyfer darpariaeth ar etholfraint, mae angen tystiolaeth o drafodaethau cychwynnol gyda'r brifysgol berthnasol, ynghyd â gwybodaeth am ddichonoldeb y darpariaeth. Gallai'r Grŵp Cwricwlwm Strategol ofyn am ragor o wybodaeth cyn gwneud penderfyniad terfynol. Gallai hyn gynnwys tystiolaeth o'r galw yn y rhanbarth, o gefnogaeth gan gyflogwyr a myfyrwyr, a chyfleoedd i symud ymlaen. Bydd cynigion naill ai'n cael eu cymeradwyo mewn egwyddor, yn amodol ar gynllunio'r cwricwlwm a chanlyniad proses y brifysgol o ddilysu a chymeradwyo, neu'n cael eu gwrthod gydag adborth.

2.9 Wrth fyfyrion ar y broses gynllunio fewnol hon ar gyfer cymeradwyo'r achos busnes, daeth y tîm i'r casgliad ei fod yn cael ei weithredu'n effeithiol, a bod y staff yn deall y broses hon yn dda.

2.10 Edrychodd y tîm ar ddogfennau sy'n disgrifio'r broses o gynllunio, datblygu a chymeradwyo'r cwricwlwm ar gyfer rhaglenni a ddilysir gan brifysgolion ac ar gyfer darpariaeth Pearson, gan dalu sylw arbennig i ddogfennau a phrosesau mewnol y Grŵp ei hun sy'n arwain at y cam dilysu. Ar gyfer darpariaeth newydd, mae Rheolwyr Meysydd Rhaglen, mewn trafodaeth gyda'u Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Cynllunio a Datblygu, yn defnyddio Ffurflen Gais am Ddatblygu a Chymeradwyo'r Cwricwlwm i'w chyflwyno i'r Grŵp Cwricwlwm Strategol. Disgrifir y broses gymeradwyo yn Llawlyfr Cynllunio a Datblygu Cwricwlwm y Coleg, ac mae siart llif y 'Broses Ddilysu Addysg Uwch gyda Sefydliad Addysg Uwch partner' yn amlinellu'r broses o ddilysu rhaglenni newydd. Er bod y tîm adolygu wedi clywed bod trafodaethau ar waith i ddatblygu darpariaeth ar gyfer y diwydiant niwclear rhanbarthol, mae'r ddarpariaeth gyfredol gan Pearson wedi'i sefydlu'n dda ac nid oes unrhyw esiamplau diweddar o lunio rhaglenni newydd.

2.11 Craffodd y tîm ar y gweithdrefnau lle mae cynigion sydd wedi'u cymeradwyo mewn egwyddor yn cael eu dwyn ymlaen i'r cam dilysu. Nododd y tîm bod y Rheolwr Maes Rhaglen perthnasol a'r Rheolwr Datblygu Addysg Uwch yn cychwyn y broses ddilysu. Mae'r olaf yn cysylltu â'r darpar bartner dilysu addysg uwch i ofyn am amserlen ar gyfer y broses ddilysu. Ar gyfer darpariaeth a ddilysir gan Brifysgol Bangor, mae'r Arweinydd Rhaglen a'r Rheolwr Maes Rhaglen yn arwain y gwaith o ysgrifennu'r ddogfen ddilysu rhaglen ar y cyd gyda'r tîm darparu. Mae'r protocolau ar gyfer ysgrifennu'r ddogfennaeth ar storfa ddata ganolog ac yn cael eu cyfathrebu i'r tîm datblygu gan y Rheolwr Datblygu Addysg Uwch. Ar gyfer darpariaeth ar etholfraint gan Brifysgol Glyndŵr, UCLan a Phrifysgol De Cymru, mae'r brifysgol ddilysu'n ysgrifennu'r fanyleb a'r ddogfen a ddilyswyd. Mae'r Arweinydd Rhaglen yn gweithio'n agos gyda'r brifysgol drwy'r broses. Ar gyfer y ddarpariaeth hon, mae ymweliad cymeradwyo'n digwydd, ar ffurf ymweliad safle i ystyried yr adnoddau, yr adeiladau a'r staff. Mae unrhyw ddogfennau atodol sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth a ddilysir, megis llawlyfrau rhaglen, dogfennau sy'n dangos cefnogaeth gan gyflogwyr a myfyrwyr, curricula vitae staff, a chofnodion

y broses gymeradwyo fewnol, yn cael eu paratoi a'u coladu gan yr Arweinydd Rhaglen a'r Rheolwr Maes Rhaglen. Ar gyfer darpariaeth rhaglenni newydd a ariennir yn uniongyrchol, gwahoddir y timau rhaglen i enwebu tri arbenigwr allanol a allai fod yn addas (arbenigwyr academiaidd a galwedigaethol) y bydd y brifysgol yn dewis o leiaf un o'u plith i fynychu'r dilysiad.

2.12 Mae'r staff yn deall y trefniadau a'r gweithdrefnau hyn ac maent yn gweithio'n effeithiol. Fodd bynnag, mae Pearson yn darparu manylebau cymeradwy 'parod' ar gyfer rhaglenni Pearson. Roedd hi'n ymddangos nad yw'r rhain yn cynnwys sail resymegol ar gyfer dewis a chyfuno unedau ac opsiynau yr adeiledir y rhaglen a ddarperir ohonynt, ac nid yw amcanion na chanlyniadau dysgu ar gyfer y rhaglenni wedi'u pennu chwaith. O ganlyniad, nid yw'r cysylltiadau rhwng y canlyniadau dysgu a fwriedir ar y rhaglen a'r asesiadau myfyrwyr yn rhaglenni Pearson yn glir.

2.13 Mae'r tîm adolygu'n nodi bod y Grŵp ei hun, cyn i'r corff dyfarnu gynnal unrhyw ddigwyddiad cymeradwyo neu ddilysu, yn gweithredu proses gyn-ddilysu fewnol. I'r pwrpas yma, mae'r Rheolwr Datblygu Addysg Uwch yn dyfeisio calendr o ddigwyddiadau cyn-ddilysu mewnol, ac amserlen sy'n cynnwys dyddiadau ar gyfer cyflwyno dogfennaeth arfaethedig derfynol i'r brifysgol sy'n ei dilysu. Yn y broses gyn-ddilysu fewnol hon, mae'r Arweinydd Rhaglen yn cyflwyno'r fanyleb drafft. Creffir y ddogfen ddilysu hon gan y Rheolwr Datblygu Addysg Uwch, y Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Gwasanaethau Busnes ym maes Addysg Uwch, a'r Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Cynllunio a Datblygu sy'n berthnasol. Ystyrir tystiolaeth gefnogol gan ddysgwyr a chyflogwyr ar y cam yma hefyd. Rhoddir adborth o'r broses hon i alluogi'r Arweinydd Rhaglen a'r tîm darparu i gwblhau'r fanyleb derfynol, cyn ei chyflwyno i'r digwyddiad dilysu dan arweiniad y brifysgol, a gynhelir yn y Grŵp. Mae llawlyfrau dilysu'r partneriaid yn disgrifio'r prosesau dilysu a'u canlyniadau posibl. Gwelodd y tîm ystod o ddogfennaeth ddilysu ac ail-ddilysu sy'n disgrifio proses gymeradwyo'r prifysgolion ar gyfer rhaglenni a ddarperir gan y Grŵp. Cadarnhaodd y staff a gyfarfu â'r tîm arolygu, a'r cyflogwyr, lle bo hynny'n berthnasol, eu bod yn deall y prosesau a'r trefniadau hyn, sy'n gweithio'n effeithiol.

2.14 Edrychodd y tîm hefyd ar weithdrefnau ar gyfer gwneud newidiadau i raglenni. Mae timau rhaglen y Grŵp yn trafod newidiadau posibl i fodiwlau cyn y byrddau arholi ar ddiwedd y flwyddyn. Ar gyfer rhaglenni a ddilysir gan Brifysgol Bangor, os bydd angen unrhyw newidiadau, caiff y ffurflen ofynnol ei llenwi a'i thrafod gyda'r arholwr allanol cyn y bwrdd arholi. Yn dilyn hyn mae cyfarfod adolygu rhaglenni ffurfiol, sy'n cael ei alw i drafod a chadarnhau unrhyw newidiadau a awgrymir nad ydynt yn mynd y tu hwnt i ganllawiau'r cyrff dyfarnu. Mae angen i raglenni ar etholfraint gan gyrff dyfarnu eraill (Prifysgol De Cymru, Prifysgol Glyndŵr ac UCLan) ddilyn unrhyw newidiadau a weithredir gan y partner sy'n etholfreinio'r rhaglenni. Ar gyfer rhaglenni Pearson, mae unrhyw newidiadau neu addasiadau arfaethedig yn cael eu dwyn ymlaen drwy'r broses o adolygu canolfannau'n flynyddol, o dan weithdrefnau a ragnodir gan ofynion yr Adolygiad Rheoli Ansawdd BTEC.

2.15 I gloi, mae gan y Grŵp brosesau mewnol o gymeradwyo a chyn-ddilysu sy'n gweithio'n effeithiol, ac mae hefyd deall ei gyfrifoldebau fel y maent wedi'u dirprwyo iddo gan y cyrff dyfarnu partner. Mae system gadarn o gynllunio academiaidd a chynllunio adnoddau ar waith ar gyfer cymeradwyo cynigion am raglenni newydd yn fewnol mewn perthynas ag adnoddau. Mae'r Grŵp yn gweithredu gweithdrefnau priodol i gydymffurfio â'r rheoliadau academiaidd fel y maent wedi'u nodi gan ei gyrff dyfarnu neu ei sefydliad dyfarnu. Roedd y staff y cyfarfu'r tîm â nhw'n deall y prosesau mewnol a'r prosesau dilysu a disgwyliadau'r cyrff dyfarnu, fel y maent yn berthnasol i addysg uwch. Mae hyn yn eu galluogi i wneud cyfraniad positif i'r prosesau hyn. Yn gyffredinol, felly, mae'r Grŵp yn cyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol am gynllunio a chymeradwyo rhaglenni mewn perthynas â dyfarniadau prifysgolion a dyfarniadau Pearson. Felly, daeth y tîm i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni
Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B2): Mae polisïau a gweithdrefnau ar gyfer recriwtio, dethol a derbyn yn glynu at egwyddorion mynediad teg. Maent yn eglur, dibynadwy, dilys a chynhwysol ac maent wedi'u tanategu gan strwythurau a phrosesau sefydliadol priodol. Maent yn cefnogi darparwyr addysg uwch i dethol myfyrwyr sy'n gallu cwblhau eu rhaglenni.

Cod Ansawdd, Pennod B2: Recriwtio, Dethol a Derbyn

Y canfyddiadau

2.16 Mae gan y Grŵp bolisi derbyn sy'n ymdrin â cheisiadau am raglenni Pearson a rhaglenni a ddilysir gan Brifysgol Bangor. Mae rhaglenni eraill ar etholfraint yn atebol i bolisïau'r corff dyfarnu perthnasol. Gweithredir prosesau derbyn y Grŵp yn ganolog trwy'r Gwasanaethau Dysgwyr, a chynhelir cyfweiliadau gan dimau rhaglen. Rhoddir cyfweiliad i bob myfyriwr pan maent yn ymgeisio, ac mae hyn yn galluogi i'r Grŵp gynnig cyfleoedd i ymgeiswyr ddatgelu unrhyw anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion am gymorth sydd ganddynt cyn cofrestru.

2.17 Byddai'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni, gan lynu at egwyddorion mynediad teg. Mae'r myfyrwyr yn cael eu trin yn gyfartal wrth ymgeisio, a rhoddir arweiniad clir am y broses ymgeisio i ymgeiswyr ar y wefan ac yn y prospectws.

2.18 Profodd y tîm adolygu'r Disgwyliad drwy adolygu polisïau a gweithdrefnau yn ymwneud â derbyn myfyrwyr, a chyfarfu â staff uwch, staff cymorth, staff addysgu, a myfyrwyr.

2.19 Mae gan y Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Gwasanaethau Dysgwyr y cyfrifoldeb cyffredinol am weithrediadau penodi ac mae'n cael ei gefnogi gan dîm o reolwyr, y mae pob un ohonynt yn cymryd y cyfrifoldeb am goleg. Mae Cynghorwyr y Myfyrwyr yn sicrhau gwell ymatebolrwydd i nifer y ceisiadau a'r agenda Ehangu Cyfranogaeth, drwy roi arweiniad cynmynediad i ymgeiswyr a myfyrwyr. Wrth recriwtio, mae'r Gwasanaethau Dysgwyr yn gweithio'n agos gyda'r staff, sydd oll yn derbyn hyfforddiant, arweiniad a chymorth i gynnal cyfweiliadau. Mae'r Gwasanaethau Dysgwyr yn derbyn adborth gan diwtoriaid derbyn ar ôl y cyfnod recriwtio i hysbysu arferion ar gyfer y dyfodol, ac mae hyn yn cael ei fonitro gan y Grŵp ASAAU.

2.20 Dywedodd y myfyrwyr hynny y cyfarfu'r tîm â nhw bod cael gafael ar wybodaeth am ddarpariaeth addysg uwch yn y Grŵp, ac am y broses dderbyn ei hun, yn syml, a bod yr wybodaeth gychwynnol ar gael ar-lein ac yn dilyn hynny ceir cyfweiliadau i alluogi iddynt wneud penderfyniadau dros y ffôn neu mewn trafodaethau wyneb yn wyneb. Yn y rhaglen FdA mewn Astudiaethau Plentynod, cyfeiriwyd myfyriwr gan y cyflogwr, ac anogwyd myfyriwr cynnydd i wneud cais gan y tiwtor addysg bellach.

2.21 Mae'r Grŵp yn gweithredu polisi dwyieithog, sy'n cael ei lywio gan ei Gynllun Iaith Gymraeg, y cytunwyd arno yn 2014 ac sydd ar gael ar y rhith-amgylchedd dysgu. Mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y broses dderbyn, lle cynhelir cyfweiliadau gychwynnol yn y Gymraeg fel y bo'n ofynnol.

2.22 Mae'r broses gyfnewid yn galluogi i'r Grŵp ganfod a oes angen unrhyw gymorth arall ar yr ymgeiswyr yn ystod eu hastudiaethau fel rhan o'i agenda Ehangu Cyfranogaeth. Mae cyfweiliadau'n helpu i ganfod a allai ymgeiswyr elwa o gael eu hargymell i gwrs 'Edrych Ymlaen at Addysg Uwch' y Grŵp, sef modiwl 10 credyd a ddyfernir gan Brifysgol Glyndŵr, sydd wedi'i lunio i ddatblygu'r sgiliau uwch sy'n angenrheidiol mewn addysg uwch. Cafodd y mwyafrif o'r myfyrwyr y cyfle i gyfranogi yn y cwrs hwn yn dilyn eu cyfweiliad. Cynigir y fenter hon i hwyluso'r cam hwnnw i fyny yn y lefel astudio at addysg uwch ac mae'n ennill 10 credyd i'r cyfranogwyr. Ei nod yw datblygu'r sgiliau meddwl beirniadol, y sgiliau ymchwil a'r sgiliau gwerthuso sy'n angenrheidiol ym maes addysg uwch. Roedd y myfyrwyr oedd wedi manteisio ar y cyfle i

gymryd rhan yn y fenter yn disgrifio'r cwrs hwn mewn termau cadarnhaol, yn bositif am effaith y fenter, ac yn sôn ei fod wedi bod yn ddefnyddiol iawn i fagu'r hyder, yn enwedig ar ôl egwyl hir mewn astudio. Mae cyfradd gwblhau uchel gan y cynllun ei hun, gyda chyfran fawr o'r myfyrwyr yn symud i mewn i, ac yn cael eu cadw ar, gyrsiau addysg uwch ar ôl symud ymlaen o addysg bellach.

2.23 Adolygir data am yr ymgeiswyr drwy'r strwythur pwyllgorau, a rhoddir gwybod i'r Tîm Strategol am niferoedd yn erbyn y targed. Mae nifer yr ymgeiswyr yn cael ei fonitro gan Reolwyr Meysydd Rhaglen yn y Tîm Rheoli, sy'n monitro i bwrpasau ymyrraeth wrth recriwtio. Mae unrhyw gynigion a wneir i'r ymgeiswyr yn amodol ar gyflawniad cymwysterau priodol. Rhoddir adborth i ymgeiswyr sy'n aflwyddiannus. Mae'r Panel Derbyn i Addysg Uwch yn ystyried unrhyw gynigion neu wrthodiadau sy'n cael eu cwestiynau.

2.24 Adolygir perfformiad ac effeithiolrwydd y polisi derbyn bob blwyddyn gan y Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Gwasanaethau Dysgwyr, ac mae'n cael ei fonitro gan y Grŵp ASAAU.

2.25 Am fod y gweithdrefnau a'r polisiau'n cyfateb ag egwyddorion mynediad teg, ac o ystyried y fframwaith cefnogol y cânt eu gweithredu ynddo, mae'r tîm o'r farn bod y Disgwyliad hwn wedi'i gyflawni, a bod lefel y risg yn isel. Mae'r polisiau a'r gweithdrefnau hefyd yn galluogi i'r Grŵp fynd at y myfyrwyr gyda'r gefnogaeth y byddent efallai ei hangen yn ystod eu cyfnod astudio.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B3): Mae darparwyr addysg uwch, wrth weithio gyda'u staff, eu myfyrwyr a'u rhanddeiliaid eraill, yn llunio, ac yn adolygu a gwella'n systematig, y dull o ddarparu cyfleoedd dysgu ac arferion addysgu, fel bod modd i bob myfyriwr ddatblygu fel dysgwr annibynnol, astudio eu pwnc/pynciau dewisedig yn fanwl a gwella eu gallu i feddwl yn ddadansoddol, yn feirniadol ac yn greadigol.

Cod Ansawdd, Pennod B3: Dysgu ac Addysgu

Y canfyddiadau

2.26 Mae'r Grŵp yn nodi ei weledigaeth yn y Strategaeth Addysgu, Dysgu ac Asesu, sy'n amlinellu'r disgwyliadau i ddarlithwyr a dysgwyr gan gefnogi dysgu ac addysgu o safon uchel.

2.27 Mae'r staff a gyflogir yn cael eu hasesu'n briodol i sicrhau bod ganddynt gymwysterau priodol, fel y mae wedi'i nodi yn y polisi recriwtio a dethol. Mae'r cyrff dyfarnu partner yn adolygu pob curriculum vitae ac yn cymeradwyo unrhyw newidiadau i dimau addysgu yn y bartneriaeth.

2.28 Mae'r staff i gyd yn cael cyfnod cynefino cyn iddynt gychwyn addysgu, a gefnogir trwy Lawlyfr Dysgu ac Addysgu'r Grŵp, sydd ar gael i'r staff ar rith-amgylchedd dysgu'r Grŵp. Defnyddir templed ar gyfer cynlluniau gwaith/gwersi i annog cysondeb mewn cynllunio a chynnwys themâu trawstoriadol. Mae'r staff yn cynllunio amrywiaeth o ddulliau a gweithgareddau ac adnoddau gwahaniaethol i gwrdd ag anghenion y dysgwyr. Enwebir mentoriaid dysgu ac addysgu o fewn meysydd astudio i gefnogi staff a chyfeirio staff at adnoddau perthnasol, er mwyn tanategu a datblygu arferion addysgol.

2.29 Mae'r staff yn cael arsylwi eu haddysgu'n ffurfiol bob dwy flynedd, gyda staff sydd newydd gael eu penodi'n cael eu harsylwi yn ystod yr wyth wythnos gyntaf ar ôl cychwyn eu dyletswyddau addysgu.

2.30 Defnyddir canlyniadau'r arsylwadau addysgu yn rhan o'r Adolygiad Blynyddol o Berfformiad staff, gyda chymau gweithredu ac arferion da'n cael eu cytuno yn dilyn yr arsylwi. Ymwelir â hyn yn rhan o'r Adolygiad Blynyddol o Berfformiad gyda phob rheolwr llinell. Disgrifir y meini prawf sy'n amlinellu'r disgwyliadau ar lefel addysg uwch yn y Ffurflen Arsylwi mewn Addysg Uwch, gyda chyfeiriad at ddisgwyliadau Cod Ansawdd a Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU (UKPSF) yr Academi Addysg Uwch (AAU). Mae gwybodaeth ar gael i'r staff ar-lein ar borth y Grŵp, a defnyddir canlyniadau i gefnogi staff i ddatblygu eu harferion. Mae cynllun arsylwi gan gymheiriaid wedi cael ei weithredu. Mae hwn wedi'i drefnu bob yn ail flwyddyn ac mae wedi'i lunio i ddatblygu a rhannu arferion da. Enwebir mentoriaid o fewn meysydd astudio i gefnogi staff i ddatblygu addysgeg ar lefel y rhaglen. Gall y staff ofyn am ragor o hyfforddiant/ddatblygiad drwy siarad â'u rheolwr llinell. Mae Rheolwyr Rhaglen yn derbyn adroddiadau arsylwi sy'n nodi'r meysydd sydd angen eu datblygu, a'r arferion da, a dosberthir y rhai yn adroddiad risg y Swyddfa Ansawdd ar sail cod statws CMG (Coch/Melyn/Gwyrdd), sydd wedyn yn hysbysu datblygiad staff, yn ogystal â themâu gwelliant a datblygiad staff. Mae Teithiau Cerdded i Ddysgu a Phanelau Dysgwyr ar waith hefyd. Defnyddir asesu gan gymheiriaid i gefnogi arferion myfyriol a datblygiad addysgol. Mae'r cynllun datblygu personol sy'n codi o'r arsylwad yn nodi'r meysydd sydd angen eu datblygu.

2.31 Mae darlithwyr yn cymryd rhan mewn 'arbrofion dan gymorth' i adlewyrchu a threialu strategaethau addysgol newydd; rhennir y rhain gyda thimau rhaglen, ac yn y Gynhadledd Dysgu ac Addysgu mewn Addysg Uwch flynyddol a'r dyddlyfr *Insight*, a gyhoeddwyd yn 2014 gyda'r bwriad o fod yn gynhyrchiad rheolaidd.

2.32 Anogir darlithwyr i ddatblygu ysgoloriaeth trwy lwybr 'Cymrodoriaeth yr AAU' Prifysgol Bangor a gallent wneud cymwysterau gradd ac ôl-radd os nad yw'r rheiny ganddynt yn barod. Mae'r staff hefyd yn cymryd rhan yn y Gynhadledd Dysgu ac Addysgu mewn Addysg Uwch.

Mae pob darlithydd yn gwneud adolygiad blynyddol o berfformiad gyda'u Rheolwr Rhaglen, sy'n cael ei lywio gan Bolisi Adolygu Perfformiad y Grŵp.

2.33 Mae canlyniadau'r myfyrwyr yn cael eu monitro drwy gyfraddau cyflawniad, cyrhaeddiad a llwyddiant; mae'r dangosyddion perfformiad allweddol hefyd yn cynnwys beirniadaethau yn yr arsylwadau addysgu, a adolygwyd ac a safonwyd drwy brosesau hunanwerthuso'r meysydd astudio a'r Grŵp. Defnyddir arolygon llais y dysgwyr ac arolygon dysgwyr, yn cynnwys yr AMC, i fonitro effeithiolrwydd a chânt eu coladu mewn adroddiad blynyddol. Mae'r Grŵp hefyd yn gwneud arolwg ar-lein blynyddol o'r holl ddysgwyr addysg uwch yn ystod Tymor 1. Adroddir am ganlyniadau'r arolwg hwn, a wneir drwy'r Cynllun Datblygu Ansawdd, i'r Tîm Polisi, y Tîm Rheoli, y Grŵp ASAAU a'r PCMS. Mae'r adroddiadau ar lefel cwrs ar gael i'r staff ar borth y Grŵp, ac i'r dysgwyr ar y porth i ddysgwyr.

2.34 Mae systemau a pholisïau ar waith i sicrhau bod darpariaeth cyfleoedd dysgu ac arferion addysgu'n cael eu cynllunio, eu darparu a'u monitro mewn ffordd strategol a systematig. Mae hyn yn galluogi i'r dysgu a'r addysgu mewn addysg uwch gefnogi myfyrwyr addysg uwch i ddatblygu sgiliau uwch fel dysgwyr annibynnol. Byddai'r prosesau yma'n caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

2.35 Archwiliodd y tîm ddogfennau polisi a strategaeth, yn cynnwys Strategaeth Addysgu a Dysgu a Pholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Grŵp, a sampl o dystiolaeth megis curricula vitae staff, y Llawlyfr Dysgu ac Addysgu, templedi ar gyfer cynlluniau gwaith a chynlluniau sesiwn, dogfennau arsylwi addysgu ac offerynnau arolygon myfyrwyr, yn ogystal â Siarter y Myfyrwyr. Bu'r tîm yn cyfweld myfyrwyr a staff i drafod cyfleoedd ac arferion dysgu ac addysgu.

2.36 Mae'r staff a gyflogir yn cael eu hasesu'n briodol i sicrhau bod ganddynt gymwysterau priodol, fel sydd wedi'u nodir yn y polisi recriwtio a dethol. Mae'r partneriaid dyfarnu'n adolygu pob curriculum vita ac yn cymeradwyo unrhyw newidiadau i dimau addysgu yn y bartneriaeth.

2.37 Mae'r staff yn derbyn llawlyfr ac yn cael cyfnod cynefino pan maent yn dechrau addysgu o fewn y Grŵp. Defnyddir templedi ar gyfer cynlluniau gwaith a chynlluniau gwersi i annog cysondeb mewn cynllunio, gyda chefnogaeth y Llawlyfr Dysgu ac Addysgu. Defnyddir Mentoriaid Dysgu ac Addysgu mewn meysydd astudio i gefnogi staff ac i'w cyfeirio at adnoddau perthnasol, ac i gefnogi a datblygu arferion addysgol. Mae staff ar brawf yn cyfeirio at gymorth agos gan gydweithwyr mewn timau academaidd ac maent yn derbyn mentor sy'n darparu cyngor ymarferol ac addysgol parhaus. Cefnogir staff trosglwyddo hefyd sy'n newydd i addysg uwch, a roir cyfle iddynt arsylwi aelod profiadol o staff.

2.38 Mae canlyniadau'r arsylwadau'n dangos bod yr holl sesiynau a arsylwyd yn 2014-15 a 2013-14 wedi'u dyfarnu'n Rhagorol neu'n Dda gan ddangos felly bod safonau wedi'u cynnal. Mae sgorau'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (AMC) yn bositif ar gyfer dysgu ac addysgu. Mae'r arferion addysgu, asesu a rhoi adborth wedi gweld gwelliant yn ôl sgorau'r AMC dros dair blynedd. Adolygir a safonir beirniadaethau yn yr arsylwadau ar lefel rhaglen a Choleg gan y tîm Ansawdd a Pherfformiad, sy'n cynnal panel safoni/rhannu arfer da ar gyfer pob maes astudio. Cynhyrchir adroddiad arsylwi bob blwyddyn gan y Swyddfa Ansawdd a chaiff ei ddefnyddio i hysbysu cynllunio strategol a datblygiad staff; trafodir hyn hefyd mewn timau staff. Defnyddir Teithiau Cerdded i Ddysgu hefyd i siarad yn uniongyrchol â myfyrwyr yn y dosbarth. Cyflwynwyd asesu gan gymheiriaid yn rhan o'r amserlen ddwyflynyddol, ac mae'n amlwg bod hwn yn cefnogi arferion myfyriol a datblygiad addysgol; disgrifiodd y staff yr effaith bositif y mae hyn yn ei gael ar arferion myfyriol ac arferion addysgol. Mae paru arsylwi gan gymheiriaid yn sensitif i sgiliau a nodweddion staff, a gallent fod o fewn neu rhwng timau pwnc. Cefnogir arsylwi'n ffurfiol ac arsylwi gan gymheiriaid drwy hyfforddiant i arsylwyr a'r rhai sy'n cael eu harsylwi.

2.39 Anogir y myfyrwyr i ddatgelu unrhyw anabledau er mwyn cael cefnogaeth yn unol â Pholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Grŵp. Maent yn derbyn cyfnod cynefino ar ddechrau'r

flwyddyn, sy'n cynnwys derbyn gwybodaeth am gyfleoedd dysgu a'r cymorth sydd ar gael, a chânt eu gwneud yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o amgylch Siarter y Myfyrwyr.

2.40 Gall y myfyrwyr fynd i sesiynau sgiliau astudio a ddarperir gan y canolfannau dysgu; mae cymorth personol ar sail un-i-un ar gael hefyd, fel y mae cymorth sgiliau astudio drwy'r rhith-amgylchedd dysgu. Mae'r myfyrwyr yn derbyn adborth am asesiad ar lafar ac ar daflenni adborth; maent yn teimlo bod hyn o safon uchel, er nad yw'n amserol bob tro. Maent hefyd yn defnyddio deialog parhaus gyda thiworiaid drwy'r system eDRAC, y cynllun dysgu unigol electronig, sydd ar gael ar y porth myfyrwyr; defnyddir hwn ganddynt oll ac mae'r myfyrwyr yn ei werthfawrogi ac yn ei gael yn ddefnyddiol. Mae'r cyfleoedd i gyflawni canlyniadau dysgu wedi'u mapio'n glir ar asesiadau, fel y nodir mewn llawlyfrau modiwl a thafenni blaen aseiniadau.

2.41 Mae'r myfyrwyr llawn amser yn derbyn o leiaf ddau sesiwn diwtora personol y tymor a gallent gael gafael ar diwtoriaid o ofyn amdanynt ar sail polisi 'drws agored'. Fodd bynnag, clywodd y tîm nad yw myfyrwyr rhan amser ar y rhaglen FdA Gofal Plant yn derbyn sesiynau tiwtora. Gall y myfyrwyr fonitro eu datblygiad academaidd drwy ddefnyddio'r 'Llyfr Marcio' ar y rhith-amgylchedd dysgu. Mae'r gwaith yma'n cael ei ehangu yn 2015-16. Cefnogir y ddarpariaeth diwtoraidd drwy Diwtorial Personol ar y rhith-amgylchedd dysgu.

2.42 Defnyddir y Gynhadledd Addysg Uwch i helpu staff i ddatblygu addysgeg ac i rannu arferion da mewn gweithdai a thrwy ddefnyddio siaradwyr gwadd. Defnyddir dau ddiwrnod adolygu, gwerthuso a datblygu (AGD) i staff hefyd i ddarparu themâu datblygiad staff ar draws bob lefel o ddarpariaeth bob blwyddyn.

2.43 Anogir darlithwyr i ddatblygu ysgoloriaeth drwy lwybr Cymrodoriaeth yr AAU, drwy gynllun Prifysgol Bangor. Cefnogwyd deg aelod o staff yn 2014-15, yr oedd saith ohonynt wedi cyflawni statws Cymrawd neu Uwch Gymrawd, a bydd naw'n gwneud cais ar gyfer 2015-16 trwy broses wirfoddoli. Mae staff oedd wedi cymhwyso fel Cymrodorion yn cefnogi lledaenu arferion da ymhellach drwy gyfrwng y Gynhadledd Addysg Uwch, y dyddlyfr *Insight* a llyfryn ymchwilio. Ysgrifennir am arbrofion dan gymorth hefyd ar gyfer 'teilsen' Dysgu ac Addysgu'r porth i staff ar y rhith-amgylchedd dysgu. Mae darlithwyr sy'n cyflenwi darpariaeth addysg uwch yn cael eu blaenoriaethu i wneud cymwysterau gradd neu ôl-radd os nad oes ganddynt y rhain yn barod. Mae darlithwyr yn cael adolygu eu perfformiad yn flynyddol yn rhan o bolisi adolygu perfformiad. Mae hyn yn cynnwys arsylwi blynyddol ac mae'n gwerthuso'r camau gweithredu a osodwyd.

2.44 Dadansoddir canlyniadau'r arolygon dysgwyr bob blwyddyn gan y Grŵp ASAAU; adolygir y camau gweithredu gan y PCMS. Cyflwynir adroddiad diweddar llais y dysgwyr i'r Grŵp ASAAU. Defnyddir yr AMC fel dangosydd perfformiad allweddol: roedd yr addysgu, yr asesu a'r cymorth academaidd oll yn uwch na'r Meincnod Cenedlaethol yn 2015, tra bo datblygiad personol un y cant yn is na'r Meincnod Cenedlaethol. Mae'r Cynllun Datblygu Ansawdd wedi cael ei ddefnyddio ers blynyddoedd lawer i wneud arolwg ar-lein blynyddol sydd ar gael i'r holl fyfyrwyr. Mae ganddo gwestiynau tebyg i'r AMC ond mae'n agored i bob blwyddyn. Mae adroddiadau ar lefel cwrs ar gael i'r staff ac i'r dysgwyr ar y porth. Adroddir y canlyniadau i'r Grŵp ASAAU. Trionglir canlyniadau'r AMC a'r Cynllun Datblygu Ansawdd i hysbysu grwpiau ffocws dilynol. Defnyddir yr AMC fel dangosydd perfformiad allweddol yn dilyn canlyniadau'r arsylwadau. Mae cyfraddau cyflawniad, cyrhaeddiad a llwyddiant y dysgwyr wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf, ac mae dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu monitro gan y Tîm Polisi a'r PCMS.

2.45 Mae'r Grŵp yn cynnig cwrs 'Edrych Ymlaen at Addysg Uwch' gyda modiwl 10 credyd i helpu'r trosglwyddiad o addysg bellach i addysg uwch. Mae'r myfyrwyr yn dweud bod hyn yn ddefnyddiol iawn, y cynigir hyn i'r holl fyfyrwyr fel arfer, ac er gwaethaf y ffaith mai cwrs wythnos yw hwn, ei fod yn effeithiol iawn o ran magu eu hyder.

2.46 Mae'r amserlen arsylwi addysgu wedi cael ei haddasu ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Ymhob adran, mae 50 y cant o'r staff sefydledig yn derbyn arsylwad ffurfiol o'u haddysgu, tra bo 50 y cant yn cael eu harsylwi gan gymheiriaid.

2.47 Ar gyfer y cynllun arsylwi addysgu ffurfiol, datblygwyd meini prawf newydd i ganolbwyntio ar anghenion addysg uwch, wedi'u halinio at God Ansawdd a Fframwaith UKPSF yr AAU, ac yn unol â strategaeth dysgu ac addysgu'r Grŵp, gyda gwaith papur a ddatblygwyd i gofnodi'r canlyniadau yn erbyn y fframwaith hwn, gan gynnwys llawlyfr a ffurflen gofnodi ddiwygiedig. Cytunwyd ar ganllawiau a dogfennau'r cynllun yn dilyn ymgynghoriad ag aelodau o'r tîm Gwasanaethau Academaidd, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r Grŵp, gan gynnwys aelodau o'r staff. Mae'r broses yn cefnogi cyfleoedd ar gyfer darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, sydd wedi'u cynnwys fel mesur o berfformiad ac fel targed o fewn y Strategaeth Dysgu ac Addysgu, ochr yn ochr â sgorau'r AMC ym maes addysgu.

2.48 Defnyddir canlyniadau'r arsylwadau ffurfiol i hysbysu'r broses o adolygu perfformiad yn flynyddol a chodi cyflogau, gan gynnwys cwblhau cyfnod prawf ar gyfer darlithwyr newydd. Cesglir gwybodaeth am anghenion hyfforddiant a datblygiad, a bennwyd yn ystod y broses, gan y Rheolwr Dysgu ac Addysgu ar ddiwedd y cyfnod arsylwi, a rhennir blaenoriaethau'r meysydd astudio yn ymwneud â hyfforddiant gyda Rheolwyr Rhaglen a thimau addysgu drwy'r Adroddiad Arsylwi Blynnyddol, sy'n nodi meysydd o arfer da a themâu ar gyfer datblygiad. Mae'r gyfran o'r arsylwadau a ddyfernir yn Rhagorol neu'n Dda wedi parhau i fod yn uchel ers dwy flynedd. Bydd canlyniadau newydd yn adlewyrchu'r Fframwaith UKPSF o ran cwrdd neu fynd y tu hwnt i ddisgwyliadau, a chânt eu safoni mewn ffordd systematig. Mae staff newydd yn derbyn elfennau ffurfiannol a ffurfiol o'r cynllun arsylwi.

2.49 Mae'r tîm o'r farn bod y cynllun arsylwi newydd yn cyfri fel cryfder. Mae hwn yn canolbwyntio ar addysg uwch trwy feini prawf a ddatblygwyd yn ôl y Fframwaith UKPSF, wedi'u cysylltu ag adolygiadau perfformiad blynnyddol ac adroddiad canolog i hysbysu datblygiad staff ac i rannu arferion da, ac mae wedi'i ffurfioli drwy gysylltiad â Chymrodoriaeth yr AAU. Cydnabyddir yr arfer da yma yn adran 4 yr adroddiad hwn ar y Gwelliant yn y Cyfleoedd Dysgu i'r Myfyrwyr.

2.50 Mae'n amlwg bod y Grŵp yn adolygu a gwella'r dull o ddarparu cyfleoedd dysgu a'r arferion addysgu mewn addysg uwch yn systematig, i sicrhau bod yr addysgeg a'r arferion yn fyfyrion ac yn ddatblygiadol, a bod arferion da yn cael eu rhannu. Mae hyn yn galluogi i'r holl fyfyrwyr ddatblygu fel dysgwyr annibynnol i astudio sgiliau uwch mewn ymateb i ofynion astudiaethau addysg uwch. Mae'r Disgwyliad wedi'i gyflawni, ac mae lefel y risg yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B4): Mae gan ddarparwyr addysg uwch drefniadau ac adnoddau sy'n galluogi myfyrwyr i ddatblygu eu potensial academiaidd, personol a phroffesiynol ac maent yn monitro a gwerthuso'r rhain.

Cod Ansawdd, Pennod B4: Galluogi Datblygiad a Chyflawniad y Myfyriwr

Y canfyddiadau

2.51 Mae Cynllun Strategol ar gyfer Addysg Uwch 2015-18 y Grŵp yn nodi gôl strategol sy'n pennu'r targedau ar gyfer datblygiad a chyflawniad y dysgwyr ac sy'n pennu'r meysydd blaenoriaeth i'w gweithredu. Rheolwyr traws-Grŵp a Rheolwyr Cwricwlwm sy'n gyfrifol am adrannau perthnasol y cynllun, ac mae'r cynnydd tuag at gyflawni'r camau gweithredu'n rhan o waith Pennaeth Coleg Menai ac yn cael ei fonitro gan y Tîm Polisi.

2.52 Tanategir y strategaeth hon gan y Strategaeth Addysgu a Dysgu, y Cynllun Strategol ar gyfer Addysg Uwch 2015-18, y strategaeth sgiliau a strategaethau llais y dysgwyr.

2.53 Mae'r cynllun gweithredu'n gosod targedau a dangosyddion perfformiad allweddol ac mae'r rhain wedi'u mapio i amcanion strategol. Er enghraifft, dangosir bod y cyfraddau cadw'n gwella. Defnyddir hwn i ddatblygu cynlluniau cwricwlwm ar lefel y rhaglen er mwyn pennu'r gyllideb a'r gwariant. Mae'r Grŵp ASAAU a'r Tîm Rheoli'n derbyn adroddiadau monitro blynyddol i bennu themâu gwelliant. Disgrifir mecanweithiau i werthuso perfformiad yn y Fframwaith Ansawdd. Mae'r Grŵp yn defnyddio arolygon mewnol, panelau dysgwyr ac adborth o arsylwadau i ganfod sut y gellir cefnogi dysgwyr, gan roi'r cyfrifoldeb cyffredinol i'r Grŵp ASAAU.

2.54 Mae'r dangosyddion perfformiad allweddol a ddefnyddir i fesur effaith strategaethau'n cynnwys cadwraeth, presenoldeb, cyrhaeddiad (yn ôl y math o ddyfarniad), cyrchfannau ymadawyr addysg uwch, llais y dysgwyr, y defnydd a wneir o'r rhith-amgylchedd dysgu, a'r defnydd a wneir o'r system eDRAC. Mae'r meysydd ar gyfer gwella ansawdd wedi'u pennu yn y Cynllun Datblygu a Gwella Ansawdd, er enghraifft, gwella presenoldeb a chadwraeth.

2.55 Mae Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar waith. Mae'r holl fyfyrwyr yn cael cyfnod o gynefino ac yn cael cefnogaeth llawlyfr sy'n rhoi gwybodaeth iddynt am y cyfleoedd dysgu a'r cymorth sydd ar gael, a gan Siarter Myfyrwyr. Datblygir sgiliau astudio drwy sesiynau a ddarperir drwy gyfrwng y Canolfannau Dysgu ac ar y rhith-amgylchedd dysgu; mae cefnogaeth wedi'i phersonoli ar gael i'r myfyrwyr hefyd ar sail un-i-un.

2.56 Gofynnir i'r myfyrwyr ddatgelu unrhyw anabledau, anhawster dysgu neu unrhyw anghenion cymorth dysgu wrth ymgeisio fel bod modd cefnogi'r rhain yn briodol yn unol â Pholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Grŵp. Gall y myfyrwyr y canfyddir bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol gael gafael ar becynnau wedi'u teilwra sy'n cynnwys cymorth academiaidd a lles.

2.57 Cefnogir trosglwyddiad i addysg uwch mewn ffordd drefnus drwy ddefnyddio'r cwrs 'Edrych Ymlaen at Addysg Uwch'. Defnyddir sesiynau tiwtora mewn grŵp i gryfhau sgiliau astudio. Yn ogystal, defnyddir sesiynau tiwtora un-i-un i gefnogi datblygiad academiaidd a phersonol. Mae fframwaith tiwtora ac arweiniad tiwtora ar gael i'r staff mewn rhaglen diwtora ar y rhith-amgylchedd dysgu. Gall y myfyrwyr gael gafael hefyd ar Sgiliau Astudio'r Grŵp drwy'r cwrs ar y rhith-amgylchedd dysgu, a gall dderbyn cymorth ychwanegol drwy sesiynau galw heibio mewn canolfannau dysgu. Mae adnoddau dysgu a staff cymorth yn hwyluso datblygiad sgiliau academiaidd.

2.58 Darperir adnoddau dysgu gan y prifysgolion, yn benodol e-ddyddlyfrau. Atodir hyn gan fuddsoddiad sylweddol mewn llyfrau, e-lyfrau ac adnoddau ar-lein gan y Grŵp.

2.59 Mae sgiliau cyflogadwyedd wedi'u cynnwys ymhob rhaglen gradd sylfaen gan gynnwys modiwlau dysgu wedi'u seilio ar y cyflogwr sy'n cael eu rhoi yng nghyd-destun y maes astudio.

2.60 Mae'r myfyrwyr yn derbyn adborth ar daflenni adborth am asesiad, sy'n cynnwys targedau datblygiadol. Mae tiwtoriaid personol yn gwneud adolygiadau un-i-un hefyd i adolygu cynnydd a thargedau. Anogir y myfyrwyr i fonitro eu datblygiad academiaidd eu hunain drwy ddefnyddio'r 'Llyfr Marcio' ar y rhith-amgylchedd dysgu a'r system eDRAC. Mae'r Grŵp yn datblygu ei ddefnydd ymhellach ym maes addysg uwch yn 2015-16.

2.61 Gall y myfyrwyr roi adborth mewn ystod o ffyrdd i sicrhau bod y cyfleoedd dysgu'n cael eu datblygu a'u gwella, gan gynnwys adborth am fodiwlau, arolygon megis yr AMC, a thrwy fynegi barn grwpiau trwy gynrychiolwyr myfyrwyr. Mae'r canlyniadau'n cael eu bwydo yn ôl drwy system 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' ar y porth i ddysgwyr, a thrwy rith-amgylchedd dysgu'r rhaglen. Dadansoddir gwerthusiadau'r myfyrwyr o fodiwlau ar lefel rhaglen ac ychwanegir y camau gweithredu sy'n angenrheidiol i wella ansawdd y cyfleoedd dysgu at Gynllun Gwella Ansawdd yr Adolygiad Blynyddol o Raglenni.

2.62 Dadansoddir canlyniadau'r arolygon myfyrwyr bob blwyddyn gan y Grŵp ASAAU, ac adolygir y camau gweithredu a gymerir mewn ymateb gan y PCMS a'u lledaenu i'r dysgwyr drwy'r porth i ddysgwyr.

2.63 Mae datblygiad proffesiynol parhaus y staff yn cael ei bennu a'i gefnogi mewn nifer o ffyrdd ac mae gan y Grŵp statws Buddsoddwr mewn Pobl.

2.64 Mae strategaethau a phrosesau trefnus ar waith i gefnogi ymgysylltiad myfyrwyr gydag addysg uwch a chyflawniad eu hamcanion, a byddai'r rhain yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

2.65 Archwiliodd y tîm amrediad o dystiolaeth, yn cynnwys dogfennau am bolisi a threfnau, a chofnodion ac adroddiadau'r pwyllgorau. Cyfwelwyd myfyrwyr a staff mewn perthynas â chyfleoedd i fyfyrwyr ddatblygu eu sgiliau academiaidd, personol a phroffesiynol mewn addysg uwch.

2.66 Mae'r myfyrwyr yn dweud eu bod yn ei gweld hi'n hawdd cael gafael ar wybodaeth am fynediad, am fod yr wybodaeth gychwynnol ar gael ar-lein, ac yna ceir cyfweiliadau i alluogi iddynt wneud penderfyniadau, dros y ffôn neu mewn trafodaethau wyneb yn wyneb. Yn y rhaglen FdA mewn Astudiaethau Plentyndod, cyfeiriwyd myfyriwr gan y cyflogwr, ac anogwyd myfyriwr cynnydd i wneud cais gan y tiwtor addysg bellach. Mae'r myfyrwyr yn datgelu unrhyw anghenion dysgu ychwanegol eu hunain, a rhoddir cefnogaeth i geisiadau am lwfansau. Hefyd gall tiwtoriaid bennu anghenion dysgu ychwanegol yn ystod y cyfnod cynefino ac ar raglen, a gall gysylltu â'r gwasanaethau cymorth unrhyw bryd i gynhyrchu cefnogaeth. Gallai'r myfyrwyr ddisgrifio'r gefnogaeth a roddir ar waith yn dilyn datgelu anghenion dysgu ychwanegol, er bod y cyfnod o amser rhwng y diagnosis a chychwyniad y gefnogaeth yn weddol hir.

2.67 Mae'r holl fyfyrwyr llawn amser yn derbyn sesiynau tiwtora. Mae'r tiwtoriaid yn dewis o fframwaith o themâu cyffredinol i'w darparu, er bod y rhain yn gyffredin i addysg bellach. Mae'r mynediad at diwtoriaid yn dda ac wedi'i seilio ar agwedd 'drws agored' y tu hwnt i amserlennu ffurfiol. Yn y rhaglen BA mewn Rheoli a Busnes, mae'r myfyrwyr yn dweud bod y tiwtor yn eostio amserlen bob pythefnos. Mae'r mwyafrif o'r myfyrwyr yn derbyn cymysgedd o sesiynau un-i-un a sesiynau grŵp. Mae'r myfyrwyr yn dweud nad yw myfyrwyr rhan amser yn derbyn sesiynau tiwtora yn y rhaglen FdA mewn Astudiaethau Plentyndod, ac maent wedi dweud eu bod eisiau eu derbyn nhw. Mewn Celfyddyd Gain, mae sesiynau tiwtora'n cael eu cyfuno gyda sesiynau beirniadu grŵp rheolaidd, y mae myfyrwyr yn eu cael yn gynhyrchiol iawn. Mewn Ffotograffiaeth, gwelwyd bod y feirniadaeth yn llai heriol. Yn Nolgellau, dywedodd un o'r myfyrwyr ar y rhaglen TBAR bod sesiynau tiwtora wedi digwydd yn llai aml yn y flwyddyn flaenorol, ond eu bod wedi cynyddu mewn ymateb i sylwadau'r myfyrwyr. Unwaith eto, mae dull 'drws agored' yn ei le. Mae'r myfyrwyr yn cadarnhau eu bod yn cynnal sesiynau tiwtora rheolaidd mewn grwpiau ac ar sail un-i-un, a gallent gael gafael ar diwtoriaid o ofyn amdanynt unrhyw bryd. Mae'r Celfyddydau Coginio'n cael sesiynau tiwtora wythnosol, sy'n gefnogol ac yn heriol.

2.68 Mae'r myfyrwyr yn gwybod ymhle i gael gafael ar fanylebau'r rhaglenni (ar y rhith-amgylchedd dysgu) a gallent hefyd dderbyn copi caled, er enghraifft mewn laith Arwyddion Prydain ac Astudiaethau Byddardod ac yn y rhaglen TBAR. Mae cyrsiau eraill yn defnyddio rhith-amgylchedd dysgu'r corff dyfarnu, ac mae'r myfyrwyr yn deall yn glir sut i fynd i hwn. Mae'r myfyrwyr yn ymwybodol hefyd bod dogfennau megis polisiau a rheoliadau asesu ar gael ar y rhith-amgylchedd dysgu; mae ffynonellau eraill o wybodaeth a chymorth yn cynnwys y Gwasanaethau Myfyrwyr.

2.69 Cynigir cefnogaeth yn ôl y Grŵp ar gyfer y cam i fyny mewn lefel astudio i addysg uwch. Roedd rhai o'r myfyrwyr wedi cymryd rhan yn y cwrs 'Edrych Ymlaen at Addysg Uwch', ac roedd mwyafrif y myfyrwyr wedi cael y cyfle yma. Disgrifiodd y myfyrwyr y cwrs hwn mewn termau cadarnhaol gan ddweud ei fod yn ddefnyddiol iawn i fagu hyder, yn arbennig ar ôl egwyl hir mewn astudio. Darperir sgiliau astudio a sicrhau eu bod ar gael mewn ymateb i angen, ac mae myfyrwyr yn eu defnyddio'n rheolaidd.

2.70 Mae'r myfyrwyr yn defnyddio'r system eDRAC ac yn ei chael yn ddefnyddiol i hybu datblygiad sgiliau a deialog ffurfiannol parhaus gyda thiwtoriaid.

2.71 Mae'r broses o osod targedau'n ymddangos yn anghyson ar brydiau; mae un o'r myfyrwyr sy'n astudio Gwyddor Chwaraeon yn defnyddio'r porth i ddsygwyr i osod targedau'n systematig mewn trafodaeth gyda thiwtoriaid ar bwyntiau penodol yn ystod y flwyddyn; mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol, mae'n ddefnyddiol iawn i osod targedau ac mae'n digwydd bob pythefnos, ond dydy un o'r myfyrwyr sy'n astudio Celf a Dylunio ddim yn gwneud hyn. Mae mwyafrif y myfyrwyr yn cael y system eDRAC yn werthfawr iawn ac yn gefnogol i ddeialog academaidd.

2.72 Roedd y myfyrwyr yn glir ynglŷn â gofynion asesu ac amserlenni asesu, gyda gwybodaeth wedi'i bostio'n systematig ar y rhith-amgylchedd dysgu. Ond, roedd y mwyafrif o'r myfyrwyr wedi gweld clystyru aseiniadau ac wedi dweud nad ydy tiwtoriaid yn ymwybodol fod hyn yn broblem weithiau. Soniodd y myfyrwyr am rai addasiadau mewn ymateb i'w hadborth, ond i rai mae'n effeithio ar berfformiad ac yn cael ei ystyried yn anochel. Soniodd un o'r myfyrwyr sy'n astudio Celf a Dylunio am ryw faint o ddryswch ynglŷn â dyddiad a modd rhyddhau graddau ar gyfer modiwlau.

2.73 Mae'r myfyrwyr yn ymwybodol o drefnau marcio a safoni, ac maent yn derbyn adborth ffurfiannol ac adborth crynodol am eu gwaith. Daw hyn mewn ystod o ffurfiau, yn cynnwys ar lafar, mewn ysgrifen ac yn electronig ar y system eDRAC. Rhoddir adborth mewn Plismona ar lafar yn gyntaf i sicrhau ei fod yn ffurfiannol, ac yn dilyn hynny rhoddir y graddau. Mae'r myfyrwyr yn ymwybodol o bolisi ymateb pedair wythnos yn dilyn cyflwyno'r gwaith, ond mae lleiafswm o'r myfyrwyr yn sôn am oediad cyn derbyn adborth sydd wedi effeithio ar eu gallu i ddatblygu eu gwaith. Os ydynt yn anfodlon, mae'r myfyrwyr yn siarad gyda'u tiwtoriaid fel arfer.

2.74 Mae'r myfyrwyr yn ymwybodol o Siarter y Myfyrwyr er nad ydynt yn sôn am ddefnydd parhaus. Mae'r myfyrwyr yn llenwi gwerthusiadau o fodiwlau, yn defnyddio system gynrychiolaeth y myfyrwyr ac maent wedi mynychu rhai pwyllgorau. Nid ydynt yn ymwybodol o'r system 'Dywedoch chi, gwnaethom ni'.

2.75 Mae'r myfyrwyr yn gyffredinol bositif am fynediad at adnoddau, ac mae'r myfyrwyr sy'n astudio Chwaraeon a'r Celfyddydau Coginio yn arbennig felly ynglŷn â mynediad i e-lyfrgell Prifysgol Bangor. Roedd hynny'n llai gwir am y myfyrwyr yn y meysydd Celf ac lechyd: mae un o'r myfyrwyr sy'n astudio lechyd wedi methu cael gafael ar destun allweddol ac heb gael cyfeiriad chwaith at opsiwn arall. Roedd un o'r myfyrwyr yn y Celfyddydau Coginio yn bositif iawn ynglŷn â'r cyfleusterau ffisegol (bwyty a chegin hyfforddi) a soniodd bod digonedd o gyfleoedd i gael gafael ar y rhain. Mae'r staff cymorth yn cadarnhau bod myfyrwyr yn gallu cael gafael ar adnoddau papur yng nghanolfannau dysgu'r Grŵp, ac mae ganddynt fynediad llawn at e-lyfrgelloedd y corff dyfarnu. Mae adnoddau electronig i'r myfyrwyr sy'n astudio ar

gyrsiau Pearson yn cael eu harchebu i mewn gan ganolfannau adnoddau dysgu'r Grŵp i sicrhau cysondeb yn y mynediad at adnoddau ar draws y maes addysg uwch.

2.76 Mae'r Grŵp yn gweithredu polisi dwyieithog, sy'n cael ei lywio gan ei Gynllun Iaith Gymraeg, y cytunwyd arno yn 2014, ac mae ei ddau fersiwn ar gael ar y rhith-amgylchedd dysgu. Mae gofyn i'r staff bennu cyfleoedd ar gyfer darparu drwy gyfrwng y Gymraeg, a gosodir y targed am ddarparu datblygiadol bob blwyddyn. Mae dogfennau megis Siarter y Myfyrwyr yn ddwyieithog. Mae rhai o'r myfyrwyr yn sôn am amrywiaeth yn argaeledd y dogfennau dwyieithog, er enghraifft, ar y rhith-amgylchedd dysgu, ac mewn darpariaeth ddwyieithog. Ar gyfer myfyrwyr ar y rhaglen TBAR, mae'r ddarpariaeth yn ddwyieithog, ond mae darpariaeth y rhaglen Animeiddio 3D a Datblygu Gemau yn y Saesneg gan fwyaf, gan adlewyrchu sut y gwelir y ddemograffeg fyfyrwyr. Mewn Plismona, mae'r myfyrwyr yn derbyn addysg wythnosol yn yr iaith Gymraeg i gefnogi'r gofyniad am gynnydd at gymhwyster Lefel 2 yn y Gymraeg. Mewn Celfyddyd Gain, cynhelir sesiynau tiwtora a chyfweliadau cychwynnol yn y Gymraeg fel y bo'n ofynnol. Mae'r polisi asesu ym maes addysg uwch yn nodi bod modd gwneud yr holl asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae'r myfyrwyr yn ymwybodol o hyn, er bod cyfran fechan wedi dweud nad oedd y cyfle yma ar gael iddynt fel siaradwyr Gymraeg.

2.77 Mae'r Gwasanaethau Myfyrwyr yn gyfrifol am faterion yn ymwneud â gyrfaoedd a chyflogadwyedd, ac mae aelod o staff Gyrfa Cymru ar gontract rhan amser drwy gydol y flwyddyn i roi cyngor penodol am yrfaedd addysg uwch i fyfyrwyr. Mae cyfraddau cyflogaeth o 70% gan ddysgwyr addysg uwch, sydd ychydig bach yn is na'r cymharydd o 72%, er mai'r rheswm am hyn yn rhannol oedd bod cyfran uwch (21%) o ymadawyr wedi dewis parhau i astudio rhaglenni addysg uwch yn rhan amser neu'n llawn amser o'i gymharu gyda'r cymharydd o 18%. Yn gyffredinol, mae tri y cant o'r dysgwyr sy'n cwblhau rhaglenni addysg uwch yn ddi-waith, sy'n gymaradwy â'r cyfartaledd cenedlaethol.

2.78 Mae dadansoddiad o ddata am y perfformiad yn 2014-15 wedi dangos bod y gyfradd gadw wedi gwella o 85% yn 2013-14 i 89% yn 2014-15, ond mae presenoldeb o 83% yn is na tharged y Grŵp. Er bod cadwraeth yn gwella, mae'r Grŵp wedi dangos y byddai'n hoffi gwella cadwraeth ymhellach, i'r un lefel ag addysg bellach, sy'n 92%, a'r presenoldeb cyfredol i 86%. Er mwyn gwneud hynny, mae'r Grŵp wedi pennu hyn fel thema gwelliant.

2.79 Roedd y cyflogwyr a gafodd eu cyfweld gan y tîm yn sôn am gyfranogaeth reolaidd a chynaliadwy gyda'r Grŵp i hysbysu a chryfhau'r trefnau cynllunio a darparu cyrsiau, er enghraifft trwy grwpiau ffocws. Yn gyffredinol, maent yn cael myfyrwyr y Grŵp yn broffesiynol a phositif, gyda llwybrau cyfathrebu clir i adrodd am unrhyw broblemau. Mae'r myfyrwyr yn sôn am gyfleoedd o fewn eu cwricwlwm i gefnogi cyflogadwyedd.

2.80 Soniodd y myfyrwyr am ystod o gryfderau a gyfathrebwyd gan y dysgwyr, gan gynnwys y sesiynau cynefino cadarnhaol sy'n llawn gwybodaeth, a'r wybodaeth glir sydd ar wefan y Grŵp. Mae'r myfyrwyr yn teimlo eu bod yn rhan o'r broses ac yn rhoi esiamplau o newidiadau a wnaed mewn ymateb i adborth, er enghraifft i amserlenni asesu a sesiynau cynefino yn y llyfrgell. Mae'r myfyrwyr yn ymwybodol o'r AMC ac yn gwybod sut y defnyddir y canlyniadau i wella eu profiad. Maent yn ystyried bod darlithwyr yn gwybod eu pynciau'n dda ac yn cyfathrebu profiad sy'n berthnasol i'r diwydiant. Darperir gwasanaeth arweiniad gyrfaol a rhoddodd y myfyrwyr esiamplau o sesiynau trefnus lle trafodwyd a chefnogwyd datblygiad eu gyrfaoedd, gan gynnwys ysgrifennu curriculum vitae. Mae digonedd o adnoddau ar gael iddynt, ac roeddent yn sôn hefyd eu bod yn gallu cael gafael ar adnoddau yn y prifysgolion partner. Mae llawer o'r myfyrwyr yn teimlo bod eu datblygiad personol a'u lles yn gwella o ganlyniad i fod yn fyfyrwr o fewn y Grŵp. Meddai un o'r myfyrwyr sy'n astudio Celfyddyd Gain: 'Roeddwn i'n gorbryderu'n ofnadwy yn y gorffennol, ond rwy'n llawer hapusach yn siarad gyda phobl yn awr'. Meddai myfyriwr arall ar y cwrs Rheolaeth Lletygarwch: 'mae'r tiwtoriaid i gyd yn sicrhau bod y sylfaen yno i'n helpu i ymdopi'.

2.81 Mae'r camau systematig a gymerir gan y Coleg i alluogi i'r myfyrwyr baratoi'n effeithiol ar gyfer, ac ymgysylltu gyda, eu hastudiaethau ym maes addysg uwch yn **arfer da**.

2.82 Mae ystod o systemau, arferion ac adnoddau'n amlwg i alluogi'r myfyrwyr i ddatblygu eu potensial academaidd, personol a phroffesiynol. Mae'r rhain yn cael eu monitro a'u gwerthuso'n systematig gan y Grŵp, gan alluogi i'r myfyrwyr baratoi'n effeithiol ar gyfer eu hastudiaethau ym maes addysg uwch, ac ymgysylltu â nhw. Felly, mae'r Disgwyliad yn cael ei gyflawni, ac mae lefel y risg yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B5): Mae darparwyr addysg uwch yn cymryd camau pwrpasol i gynnwys yr holl fyfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, yn bartneriaid yn y broses o sicrhau a gwella eu profiad addysgol.

Cod Ansawdd, Pennod B5: Ymgysylltiad â'r Myfyrwyr

Y canfyddiadau

2.83 Amlinellir yr hyn a ddisgwyllir gan fyfyrwyr o ran cyfrannu 'llais y dysgwyr' yn y Strategaeth Cynnwys Dysgwyr a gorfodir hyn gan Bolisi Hawliau Dysgwyr y Grŵp. Mae'r Coleg yn amlinellu ei ymrwymiad i ymgysylltu gyda barn y myfyrwyr drwy amrywiaeth o ddulliau er mwyn gwella eu profiad cyffredinol. Mae'r mecanweithiau hyn yn cynnwys arolygon mewnol drwy'r sefydliad cyfan, gwerthusiadau o fodiwlau, grwpiau ffocws ac ymgysylltiad gyda chynrychiolwyr y myfyrwyr.

2.84 Mae gan y Grŵp system gynrychiolaeth myfyrwyr, sy'n caniatáu ymgysylltiad gyda myfyrwyr ar lefel gysiol mewn cyfarfodydd gyda staff y rhaglenni. Etholir Cynrychiolydd Myfyrwyr a Dirprwy Gynrychiolydd ar ddechrau bob blwyddyn. Mae'r Coleg yn ariannu Swyddog Addysg Uwch, a gefnogir gan y Gwasanaethau Dysgwyr. Gwahoddir y Swyddog Addysg Uwch i eistedd ar, ac i gynhyrchu adroddiadau i, bwyllgorau ar lefelau uwch y Grŵp, yn cynnwys y Grŵp Addysg Uwch a'r Bwrdd Llywodraethwyr. Yn ogystal, cynhelir Panelau Dysgwyr ddwywaith y flwyddyn gyda myfyrwyr a rheolwyr, ac mae Swyddog Undeb y Myfyrwyr yn cynnal grwpiau ffocws gyda'r myfyrwyr ynglŷn ag ystod o faterion. Mae'r Grŵp yn gweithredu system gynrychiolaeth myfyrwyr, gyda chymorth y Gwasanaethau Dysgwyr, sy'n cynnig hyfforddiant i gynrychiolwyr ar ddechrau'r flwyddyn; ond nid yw'r hyfforddiant yn orfodol ac o'i brofi, nid oedd nifer o gynrychiolwyr y myfyrwyr wedi mynychu. Er gwaethaf yr hepgoriad yma, byddai'r dull y mae'r Grŵp yn ei ddefnyddio'n galluogi i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

2.85 Profodd y tîm adolygu effeithiolrwydd ymgysylltiad y myfyrwyr yn y Coleg trwy gyfarfodydd gyda staff ar bob lefel, gan gasglu esiamplau o brofiadau'r myfyrwyr fel cynrychiolwyr a myfyrwyr. Adolygodd y tîm dystiolaeth amrywiol, megis cofnodion pwyllgorau a chynlluniau hyfforddi, a bu'n archwilio'r cynnwys sydd ar gael ar y rhith-amgylchedd dysgu.

2.86 Gall y myfyrwyr roi adborth drwy ystod o fecanweithiau ffurfiol, megis arolygon gwerthuso modiwlau, panelau dysgwyr, grwpiau ffocws ac arolygon sefydliad cyfan. Mae gwerthusiadau o fodiwlau wedi'u cwblhau ar bapur ar hyn o bryd ond byddent yn symud ar-lein i annog pobl i fynychu. Dadansoddir y canlyniadau ar lefel rhaglen, lle defnyddir camau gweithredu i hysbysu prosesau adolygu a datblygu ansawdd blynyddol. Sonnir am themâu sy'n dod i'r amlwg mewn pwyllgorau o'r adborth a geir gan fyfyrwyr drwy'r strwythur pwyllgorau i'r PCMS, y Tîm Rheoli, y Tîm Polisi ac i'r Grŵp ASAAU. Gall y myfyrwyr hefyd roi adborth ar ddiwedd eu lleoliadau gwaith i'r darparwr ac i'r Grŵp am eu profiadau ar leoliad.

2.87 Cynhelir grwpiau ffocws myfyrwyr ar gyfer cyrsiau mewn ymateb i sgorau boddhad is yn yr AMC. Adroddir am y canlyniadau i'r Grŵp ASAAU, ac mae'r camau gweithredu ar gyfer gwelliant yn cael eu monitro. Trafodir canlyniadau'r AMC ac arolygon eraill mewn cyfarfodydd timau rhaglen i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o broblemau myfyrwyr.

2.88 Cynhelir cynhadledd Llais y Dysgwyr bob blwyddyn i'r myfyrwyr i ymgysylltu â themâu sy'n berthnasol i'r materion a wynebir gan y myfyrwyr yn y Coleg. Er enghraifft, cynhaliwyd gweithgaredd yn y gynhadledd ddiwethaf, gyda'r nod o gryfhau cyfathrebiad rhwng y cynrychiolwyr a'r Grŵp, ac adroddwyd y syniadau a'r camau gweithredu i'r PCMS ac i'r Tîm Rheoli. Mae Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru'n rhagweithiol wrth weithio, ac wrth hyfforddi cynrychiolwyr y Grŵp, sydd wedi ennill gwobrau yn y gorffennol am ymgyrchoedd ym meysydd darpariaeth addysg bellach a darpariaeth addysg uwch.

2.89 Mae Siarter y Myfyrwyr gan y Grŵp sy'n nodi'r cyfrifoldebau, a'r cymorth sydd ar gael i'r myfyrwyr yn ystod eu hastudiaethau. Cynhyrchir y Siarter yn ddwyieithog, ac mae ar gael i'r myfyrwyr ar eu rhith-amgylchedd dysgu. Fodd bynnag, pan ofynnodd y tîm i'r myfyrwyr am hyn, dywedodd y myfyrwyr eu bod yn ymwybodol o'r Siarter ond nad oeddent yn gwybod beth ydoedd, na beth oedd ei swyddogaeth. Mae cynrychiolwyr y myfyrwyr yn derbyn tystysgrif ar ddiwedd y flwyddyn i gydnabod eu rôl. Mae'r staff academaidd yn derbyn arweiniad byr gan y Gwasanaethau Dysgwyr am rôl a swyddogaeth cynrychiolwyr y myfyrwyr.

2.90 Er bod y Grŵp yn nodi ei ymrwymiad i ddefnyddio llais y myfyrwyr fel mewnbwn, nid oes cyfeiriad wedi'i ddiffinio'n glir ar gyfer datblygu system gynrychiolaeth y myfyrwyr. Mae ffigurau'n cael eu cofnodi a'u monitro'n barhaus ar gyfer recriwtio a hyfforddi yn y Gwasanaethau Dysgwyr, ond nid oes dangosyddion perfformiad allweddol a champau gweithredu wedi'u gosod, ac nid yw'r system wedi'i gwerthuso ar gyfer datblygiad parhaus system gynrychiolaeth y myfyrwyr. Sylwodd y tîm bod y newidiadau'n gynyddrannol, yn hytrach na'n systematig ac yn ymgynghorol. Felly, mae'r tîm yn **argymell** y dylai'r Grŵp ddatblygu trefniadau i wneud y defnydd gorau o system gynrychiolaeth y myfyrwyr, a'i effaith.

2.91 Yn fras, soniodd y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm â nhw bod eu hadborth wedi cael sylw, a'u bod yn gallu darparu ystod o esiamplau o ddatblygiadau academaidd blaenorol a chyfredol yn eu cyrsiau. Gall y myfyrwyr weld sut y defnyddir eu hadborth mewn cyfarfodydd drwy bwyntiau gweithredu, cofnodion a'r berthynas â'u tiwtoriaid. Mae'r myfyrwyr yn llai clir am y ffordd y defnyddir eu hadborth ar ôl gwerthusiadau o fodiwlau ac arolygon drwy'r sefydliad cyfan. Mae'r Grŵp yn rhoi adborth ar arolygon drwy'r adran 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' ar y rhith-amgylchedd dysgu; ond, o'r myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm adolygu, mae'n ymddangos fel petai'r ymwybyddiaeth o'r ymgyrch, a chanlyniadau'r camau gweithredu a gymerwyd i ymateb i'r materion a godir, yn wael. Felly, mae'r tîm yn **argymell** bod y Grŵp yn cryfhau'r mecanweithiau i sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yn derbyn gwybodaeth am ganlyniadau'r arolygon ar lefel sefydliadol a lefel y modiwl.

2.92 Am fod y Grŵp yn cymryd camau pwrrpasol i sicrhau bod llais y dysgwyr yn cael ei gynnwys a'i gynrychioli, daeth y tîm i'r casgliad bod y Disgwyliad hwn yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel. Er mwyn gwella, mae'r tîm yn **argymell** bod y Grŵp yn cymryd camau pellach i gefnogi datblygiad parhaus ac ymgynghorol o system gynrychiolaeth y myfyrwyr, ac i sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yn ymwybodol o'r ffordd y defnyddir eu hadborth gan y Grŵp.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B6): Mae darparwyr addysg uwch yn gweithredu prosesau asesu sy'n gyfiawn, dilys a dibynadwy, yn cynnwys y rheini ar gyfer cydnabod dysgu blaenorol, sy'n galluogi pob myfyriwr i arddangos i ba raddau y maent wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu a fwriedir ar gyfer y credyd neu'r cymhwyster sy'n cael ei geisio.

Cod Ansawdd, Pennod B6: Asesu Myfyrwyr a Chydnabod Dysgu Blaenorol

Y canfyddiadau

2.93 Mae'r polisi a'r arferion asesu ar gyfer rhaglenni addysg uwch yn cael eu llywio gan reoliadau'r corff dyfarnu. Ar gyfer y rhaglenni ar etholfraint gan Brifysgol Glyndŵr, Prifysgol De Cymru ac UCLan, mae'r Grŵp yn dilyn prosesau'r corff dyfarnu. Ar gyfer y rhaglenni a ddilysir gan Brifysgol Bangor ac ar gyfer darpariaeth Pearson, mae gan y Grŵp gyfrifoldebau dirprwyedig. Mae polisi asesu a threfnau asesu'r Grŵp ei hun yn adlewyrchu rhai'r prifysgolion partner. O dan oruchwyliaeth weithredol y Rheolwr Datblygu Addysg Uwch, mae'r Grŵp yn ceisio gweithredu ei bolisi'n drwyadl i sicrhau agwedd gadarn tuag at faterion asesu. Mae'r polisi asesu'n disgrifio gweithdrefnau ar gyfer cynllunio a marcio, ac ar gyfer sicrhau ansawdd yr asesu ar lefel briodol.

2.94 Mae trefniadau ar gyfer paratoi asesiadau, ac ar gyfer gwirio a safoni mewnol, yn amrywio yn ôl y trefniadau gyda'r partneriaid unigol. Mae gan y Grŵp ei drefnau gwirio a safoni mewnol ei hun ac mae'n eu defnyddio lle bo'n berthnasol. Ar gyfer dyfarniadau prifysgolion, mae prosesau ar waith i sicrhau bod yr asesu'n ddibynadwy, ac mae adroddiadau'r arholwyr allanol yn cadarnhau bod asesiadau'n briodol ac yn cwrdd â'r safonau academaidd perthnasol. Mae Pearson yn rhoi gwybodaeth i'r Grŵp am rôl ei arholwyr allanol, ac mae'r adroddiadau'n cadarnhau bod yr asesu'n cwrdd â'r safonau academaidd perthnasol. Byddai'r polisiâu a'r gweithdrefnau hyn yn galluogi'r Grŵp i gyflawni Disgwyliad B6.

2.95 Profodd y tîm adolygu weithrediad ac effeithiolrwydd y rhain a threfniadau eraill drwy archwilio dogfennau perthnasol y Grŵp a'r cyrff dyfarnu sy'n ymwneud ag asesiadau, a thrwy gyfarfodydd gyda myfyrwyr, staff academaidd a staff cymorth.

2.96 Disgrifir a chyd-gysylltir polisiâu a phrosesau asesu ar wefan y Grŵp, gyda dolenni drwy'r rhith-amgylchedd dysgu at dudalen hafan pob rhaglen a thudalen y modiwl, lle mae llawlyfrau a gwybodaeth y cyrff dyfarnu ar gael. Mae Tîm Ansawdd y Grŵp yn gwneud rôl olygu a goruchwyllo. Mae hyn yn galluogi i'r mynediad mewnol ac allanol fod yn eglur. Rhoddir gwybodaeth mewn llawlyfrau rhaglenni a modiwlau ynglŷn â sut mae meini prawf asesu'n cael eu defnyddio, yn ogystal â gwybodaeth am fathau o asesiad, cyflwyno gwaith yn hwyr, cywirdeb academaidd a llên-ladrad, gan gynnwys cosbau, ac am apeliadau academaidd.

2.97 Mae gan bob dyfarniad strategaeth asesu, a nodir ym manyleb y rhaglen, i sicrhau bod canlyniadau dysgu ar gyfer rhaglenni'n cael eu profi drwy amrywiaeth o ddulliau. Mae manylebau'r modiwlau'n amlinellu'r canlyniadau dysgu, y gofynion asesu a'r tasgau, y trefnau pwysoli, y maint neu'r hyd, a'r meini prawf asesu.

2.98 Mae'r staff yn defnyddio amrywiaeth o dasgau asesu, sy'n ymdrin â chanlyniadau dysgu perthnasol i ymgysylltu â myfyrwyr ac i ddatblygu eu sgiliau trosglwyddadwy. Mae'r tîm hefyd yn nodi bod arferion asesu a rhoi adborth yn cael eu hysbysu drwy ystyried arferion proffesiynol ac agweddau galwedigaethol y rhaglenni. Mae adroddiadau'r arholwyr allanol yn amlygu gwybodaeth broffesiynol y staff a'r myfyrwyr. Mae'r staff yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ysgolheigaidd i hysbysu math yr asesiad a'r adborth ac i ymdrin â materion a godir gan yr arholwyr allanol. Darperir datblygiad staff gan y Grŵp ac ar lefel y maes astudio lle mae polisiâu newydd yn cael eu cyflwyno.

2.99 Dywedodd y myfyrwyr wrth y tîm arolygu eu bod yn derbyn amserlen asesu ar ddechrau'r flwyddyn gyda dyddiadau targed ar gyfer cyflwyno gwaith. Hefyd, defnyddir y system olrhain ar-lein i alluogi myfyrwyr i fyfyrion ar eu cynnydd, gan gynnwys ar faterion asesu.

2.100 Archwiliodd y tîm adolygu brofiadau'r myfyrwyr i weld a yw'r asesiadau wedi'u hamserlennu'n dda, gan adael iddynt gynllunio eu llwyth gwaith, ac a yw adborth am eu perfformiad wedi'i ddarparu'n amserol. Mae'r myfyrwyr wedi'u hysbysu'n dda yn gyffredinol ac yn deall y broses asesu drwy ddeunyddiau ysgrifenedig a thrwy grynodedbau gan y staff. Fodd bynnag, rhoddodd rhai o'r myfyrwyr wybod i'r tîm adolygu eu bod wedi profi clystyru aseiniadau a bod hyn yn ei gwneud hi'n anodd iddynt reoli eu llwyth gwaith. Yn ddiweddarach, clywodd y tîm adolygu bod clystyru mewn amserlennu aseiniadau wedi'i nodi fel problem gan un o'r safonwyr allanol ac wedi hybu cam gweithredu gan y Grŵp i'r timau rhaglen adolygu'r dyddiadau cyflwyno i sicrhau trawsgyfeirio ar draws yr unedau. Wrth nodi hyn, mae'r tîm yn **argymell** bod y Grŵp yn gwella cynllunio a chyfathrebu rhwng y staff darparu er mwyn osgoi gorlwytho yn amseriad ac amserlennu'r asesiadau.

2.101 Mae'r Grŵp yn cymryd camymddwyn academiaidd o ddifrif. Mae'r gweithdrefnau yn rheoliadau'r prifysgolion neu ym Mholisi Arferion Annheg y Grŵp ei hun. Rhennir arweiniad ar y materion hyn gyda'r myfyrwyr yn ystod y cyfnod cynefino. Ar gyfer rhaglenni a ddilysir gan Brifysgol Bangor a rhaglenni a gymeradwyir gan Pearson, ymchwilir achosion o arferion annheg posibl, yn unol â pholisi'r Grŵp. Yma, mae Panel Arferion Annheg yn penderfynu ar sancsiynau os canfyddir arferion annheg. Mae'r panel yn annibynnol i'r timau rhaglen ac yn defnyddio cyfres wedi'i rhagnodi o sancsiynau i sicrhau dull cyfartal a chyson. Ar gyfer rhaglenni Prifysgol Glyndŵr, Prifysgol De Cymru, ac UCLan, gweithredir gweithdrefnau'n unol â rheoliadau'r prifysgolion eu hunain.

2.102 Mae'r gweithdrefnau ar gyfer amgylchiadau esgusodol neu liniarol i ddarpariaeth y prifysgolion neu ddarpariaeth Pearson yn amrywio yn ôl y trefniadau partneriaeth. Ar gyfer rhaglenni a gymeradwyir gan Brifysgol Bangor a Pearson, mae'r Grŵp yn gyfrifol am ystyried ceisiadau am amgylchiadau esgusodol, ac am weinyddu byrddau. I'r gwrthwyneb, mae Prifysgol Glyndŵr, UCLan, a Phrifysgol De Cymru'n defnyddio eu gweithdrefnau mewnol eu hunain i ystyried ceisiadau. Ar gyfer yr holl raglenni a'r holl ddarpariaeth, gwneir addasiadau naill ai drwy ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno, neu drwy addasu'r dull asesu i fyfyrwyr sydd â nodweddion gwarchodedig er mwyn osgoi anfantais. Mae angen i unrhyw newidiadau i'r dulliau asesu ystyried canlyniadau dysgu er mwyn sicrhau nad yw safonau academiaidd yn cael eu cyfaddawdu. Wrth archwilio materion sy'n ymwneud ag addasiadau rhesymol, mae'r tîm yn nodi bod darpariaeth ar gael i fyfyrwyr byddar ddefnyddio iaith arwyddion neu recordio digidol ar gyfer asesiad ar eu rhaglenni graddau sylfaen. Mae polisi'r Grŵp yn darparu ar gyfer cyflwyno gwaith yn y Gymraeg. Fodd bynnag, clywodd y tîm gan rai o'r myfyrwyr nad oeddent wedi cael cynnig yr opsiwn yma wrth gael asesiad.

2.103 Canfu'r tîm fod gweithdrefnau ar gael i'r myfyrwyr hynny sydd eisiau derbyn cydnabyddiaeth i'w dysgu profiadol blaenorol, neu eu dysgu ardystiedig blaenorol. Ystyrir pa mor berthnasol a chyfredol yw'r dysgu profiadol blaenorol a'r dysgu ardystiedig blaenorol mewn perthynas â'r gweithdrefnau, tra bo cydnabyddiaeth bosibl o ddysgu blaenorol yn cael ei ystyried yn ystod y cyfweiliad cychwynnol ac yn cael ei nodi ar y ffurflen gais. Disgrifir y gweithdrefnau ar gyfer cydnabod dysgu profiadol blaenorol a dysgu ardystiedig blaenorol yn y ddogfen ddilysu neu ail-ddilysu berthnasol, ac ystyrir y ceisiadau gan Fwrdd Trosglwyddo Credydau. Mae'r wybodaeth ar gael mewn llawlyfrau rhaglen. Daeth y tîm i'r casgliad bod y trefniadau'n drwyadl ac yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

2.104 Archwiliodd y tîm adolygu'r trefniadau ar gyfer gosod tasgau asesu, ac ar gyfer gwirio a safoni'n fewnol. Mae'r trefniadau'n amrywio rhwng y cyrff dyfarnu partner. Ar gyfer dyfarniadau Prifysgol De Cymru, mae'r brifysgol yn gosod yr aseiniadau ac yn gwneud y gwaith o wirio'n fewnol, tra bo'r Grŵp yn gwneud y gwaith safoni. Ar gyfer rhaglenni Prifysgol Glyndŵr, mae'r

Grŵp yn gwneud y gwaith o safoni ac yn ysgrifennu'r asesiadau ar y cyd gyda'r arholwr allanol, sy'n gwneud y gwaith o wirio'n allanol. Yn ei dro, mae UCLan yn gosod yr asesiad ar gyfer y rhaglenni y mae'r brifysgol yn eu hetholfreinio, ac yn gwneud y gwaith o wirio a safoni. Ar gyfer dyfarniadau a ddilysir gan Brifysgol Bangor, mae'r Grŵp yn gwneud y gwaith o safoni ac yn ysgrifennu'r asesiadau ar y cyd gyda'r arholwr allanol, sy'n gwneud y gwaith o wirio'n allanol. Gwneir asesiad ar gyfer darpariaeth Pearson o dan weithdrefnau'r Grŵp mewn cydweithrediad â'r gwiriwr allanol. Mae'r staff yn deall y trefniadau hyn ac maent yn gweithio'n effeithiol.

2.105 Mae'r tîm adolygu'n nodi bod y Grŵp yn gwneud mwy o ddefnydd mwy o ddulliau cyflwyno electronig i roi adborth a chofnodi cynnydd. Gall y myfyrwyr gyflwyno asesiadau drwy feddalwedd canfod llên-ladrad. I weithredu'r meddalwedd mae'n rhaid i holl asesiadau Prifysgol Bangor a Pearson gael eu cyflwyno gydag adroddiad am ganfod llên-ladrad, tra bo rhaglenni ar etholfraint gan Brifysgol Glyndŵr yn gweithredu o dan ofynion a chanllawiau llym ar llên-ladrad hefyd. Gwneir defnydd hefyd o wiriwr aseiniadau sydd ar y rhith-amgylchedd dysgu. Mae'r trefniadau hyn yn drwyadl ac mae'r myfyrwyr yn eu deall. Mae diogelwch a gonestrwydd yr asesu'n cael ei ddiogelu ymhellach drwy ddulliau eraill. Cymeradwyr yr asesiadau gan arholwyr allanol a gwirwyr mewnol, ac anfonir fersiynau drafft at yr arholwyr neu cânt eu rhoi ar y rhith-amgylchedd dysgu lle maent ar gael i'r staff yn unig. Trefnir y gwaith o oruchwylio arholiadau gan dîm arholi annibynnol penodol, tra bo gan y myfyrwyr adnabyddiaethau unigryw ar gyfer arholiadau ac ar gyfer cyflwyno asesiadau i'w marcio'n ddiennw.

2.106 Cymerodd y tîm hefyd y cyfle i ystyried asesu'r ddarpariaeth dysgu seiliedig ar waith, a nododd bod nifer o'r rhaglenni naill ai'n tynnu myfyrwyr o amgylcheddau gwaith, neu'n galluogi i'r myfyrwyr ennill profiad mewn sefyllfaoedd seiliedig ar waith. Mae cyflogwyr yn cyfrannu at asesiad ar nifer o'r rhaglenni, gan sicrhau felly bod yr asesu'n cwrdd ag anghenion y diwydiant. Cadarnhaodd y myfyrwyr a'r cyflogwyr a gyfarfu â'r tîm bod y myfyrwyr yn derbyn gwybodaeth briodol cyn eu lleoliadau gwaith, ac yn derbyn adborth gan staff y Grŵp, fel sy'n briodol i'r math o asesiad.

2.107 Clywodd y tîm adolygu bod gofyniad, yn unol â pholisi'r Grŵp, i adborth ar asesiad crynodol gael ei ddarparu o fewn 20 diwrnod gwaith i'w gyflwyno. Wrth brofi'r gofyniad yma, mae'r tîm yn nodi nad yw'r dyddiadau targed yn cael eu cadw gan rai o'r myfyrwyr. Fodd bynnag, anogwyd y tîm i nodi bod trefnau'r Grŵp ar gyfer monitro a chynnal arolygon mewnol ac allanol i gasglu adborth gan fyfyrwyr wedi canfod y mater yma a bod camau gweithredu ar waith i ymdrin ag o. Mae'r myfyrwyr yn derbyn adborth ar eu perfformiad mewn amrywiaeth o ffurfiau, yn cynnwys ar lafar, mewn ysgrifen ac yn electronig, gyda'r bwriad o hysbysu dysgu a datblygiad yn y dyfodol.

2.108 Cynhelir byrddau asesu ar gyfer dyfarniadau Prifysgol Bangor a dyfarniadau Pearson yn y Grŵp. Gweinyddir y rhain gan staff y Grŵp, dan gadeiryddiaeth Pennaeth Cynorthwyol. Cyn y bwrdd arholi ceir bwrdd modiwl. Mae'r trefniadau hyn yn galluogi i'r Grŵp fonitro'r asesiad a wneir o'r ddarpariaeth a ddilyswyd. Ar gyfer cymwysterau Pearson, gwahoddir y gwirwyr safonau i fynychu. Mae prifysgolion partner eraill yn monitro'r asesiad o'r ddarpariaeth ar etholfraint drwy fyrddau asesu y mae staff y Grŵp yn mynd iddynt. Mae pob bwrdd, gan gynnwys y rheiny a weinyddir gan y Grŵp, yn dilyn strwythur ac agenda gosodedig i sicrhau eu bod yn gyson, ac yn cofnodi unrhyw wrthdaro buddiannau. Cyfetholir Rheolwr Sicrhau Ansawdd y Grŵp i eistedd ar bob un o'r byrddau er mwyn sicrhau cydymffurfiaid â rheoliadau'r cyrff dyfarnu a'r sefydliad dyfarnu, ac i gynghori Cadeiryddion ar bwerau ac awdurdod pob bwrdd. Cynhelir cyn-fyrddau asesu hefyd ar gyfer rhaglenni pob un o'r cyrff dyfarnu. Cyn y byrddau arholi, rhoddir pecyn gwybodaeth i'r arholwyr allanol sy'n cynnwys trosglwyddiadau credyd, achosion arferion annheg, a chofnodion cyfarfodydd am amgylchiadau esgusodol. Mae polisiâu a dogfennau arweiniad ar gael i'r arholwr allanol ar rith-amgylchedd dysgu'r rhaglen berthnasol. O gyfarfodydd gyda staff, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y trefniadau hyn yn ddealladwy ac yn gweithio'n effeithiol.

2.109 Wrth archwilio ymhle y gwneir yr adolygiadau o'i brosesau asesu gan y Grŵp, roedd y tîm yn fodlon bod trefniadau ar waith i sicrhau bod yr asesiad yn cael ei oruchwylio'n effeithiol. Er enghraifft, ystyrir prosesau asesu yn ystod y broses o ddatblygu dogfennau hunanasesu ac adroddiadau monitro rhaglenni blynyddol, a defnyddir gweithdrefnau i adolygu'r asesu'n flynyddol a gweinyddu'r asesu.

2.110 Gwneir yr oruchwyliaeth o dan nawdd y Grŵp ASAAU, sydd â'r cyfrifoldeb am oruchwylio'r broses ar gyfer adolygu polisïau'n ymwneud ag asesu. Mae'r Grŵp ASAAU yn sicrhau y cedwir y rheoliadau priodol ar gyfer pob un o'r cyrff dyfarnu neu'r sefydliad dyfarnu. Mae'r Grŵp ASAAU yn derbyn cofnodion byrddau arholi ac adroddiadau gan gadeiryddion byrddau arholi. Yn ogystal, mae Pennaeth pob coleg yn derbyn dyfyniadau o adroddiadau statws CMG yn ymwneud â materion asesu, ac mae'r rhain wedi'u gosod hefyd ar rith-amgylchedd dysgu'r myfyrwyr. Cynhelir cyfarfodydd Byrddau Astudiaethau'n dilyn byrddau arholi i ystyried clwstwr o raglenni. Pwrpas y cyfarfodydd yma yw adolygu camau gweithredu sy'n codi o'r broses ARhF, yn ogystal â chymau gweithredu sy'n codi o fyrddau arholi. Un o ganlyniadau gwella'r prosesau hyn yn ystod 2014-15 oedd cyflwyno Rheolwr Dyfarniadau i gofnodi cyflawniad y myfyrwyr.

2.111 I gloi, mae'r tîm yn fodlon bod asesiadau'n cael eu harholi'n allanol neu eu gwirio'n allanol, fel y bo'n briodol. Mae polisïau a gweithdrefnau yn eu lle ar gyfer asesu myfyrwyr ac achredu dysgu blaenorol, ac mae'r rhain yn effeithiol. Felly, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B7): Mae darparwyr addysg uwch yn gwneud defnydd gofalus o arholwyr allanol.

Cod Ansawdd, Pennod B7: Arholi Allanol

Y canfyddiadau

2.112 Disgrifir y broses o benodi arholwyr allanol ar gyfer Prifysgol Bangor yn rheoliadau'r corff dyfarnu. Yn ymarferol, mae Prifysgol Bangor yn gofyn bod y Grŵp yn enwebu dau ymgeisydd i bob rhaglen, sy'n cyfateb â'r Meini Prawf Penodi a nodir yn y Llawlyfr Dilysu. Mae trefniadau tebyg ar waith i bob un o'r prifysgolion partner, yn unol â'r meini prawf cenedlaethol. Disgrifir rôl yr arholwr allanol yn Llawlyfr Dilysu Prifysgol Bangor. Mae'r prifysgolion yn gyfrifol am hysbysu arholwyr allanol am eu cyfrifoldebau ac am y gweithdrefnau. Mae Pearson yn penodi gwiriwr safonau.

2.113 Pan benodir gwiriwr safonau, mae'r Arweinydd Rhaglen yn cysylltu â'r arholwr allanol ac yn rhannu'r mynediad at y rhith-amgylchedd dysgu, ac adnoddau megis llawlyfrau cwrs ac asesiadau. Mae'r arweinwyr rhaglen yn gweithio gyda'r arholwr allanol i gadarnhau asesiadau, trefnu ymweliadau safle a chyfarfodydd gyda myfyrwyr, a samplu gwaith. Mae'r arholwyr allanol yn cwrdd â myfyrwyr drwy fideo-gynadledda ar-lein neu wyneb yn wyneb

2.114 Gwahoddir arholwyr a safonwyr allanol i fynd i'r byrddau asesu perthnasol, a rhoddir pecyn gwybodaeth iddynt sy'n cynnwys cofnodion, trosglwyddiadau credyd, achosion arfer annheg a chofnodion cryno am amgylchiadau esgusodol. Mae'r polisïau, y gweithdrefnau a'r dogfennau perthnasol eraill ar gael i'r holl arholwyr allanol ar rith-amgylchedd dysgu'r rhaglen. Dosberthir cofnodion y byrddau arholi mewnol ac allanol i bob parti perthnasol, sy'n cynnwys arholwyr allanol, safonwyr a phartneriaid dyfarnu.

2.115 Mae'r cysylltiad â'r arholwr allanol o safbwynt sefydliadol drwy'r Arweinydd Academaidd Addysg Uwch, sy'n cadw'r rhestr derfynol o arholwyr allanol a'r safonwyr allanol a benodir i'r Grŵp. Mae'r Arweinydd Academaidd Addysg Uwch yn sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol ar gael i'r arholwyr a'r safonwyr allanol cyn y byrddau arholi. Mae gan y Grŵp gysylltiadau sefydledig gyda'r arholwyr allanol a'r safonwyr allanol. Gwneir cysylltiad rheolaidd drwy gydol y flwyddyn ac mae'r rhaglenni wedi mabwysiadu prosesau datblygu ansawdd, sef strategaethau gwella rhaglenni a awgrymwyd gan yr arholwyr i wella ansawdd profiad y dysgwyr. Pennir cyfleoedd i wella mewn rhai o adroddiadau'r arholwyr allanol. Ond, mae lefel y manylion yn amrywio.

2.116 Cyflwynir y mwyafrif o adroddiadau'r arholwyr allanol mewn ffordd ffurfiol, o'r sefydliad dyfarnu i Brif Swyddog Gweithredol a Phenaethiaid y Grŵp. Anfonir adroddiadau i'r Tîm Ansawdd i'w craffu cyn eu dosbarthu i arweinwyr a rheolwyr y rhaglenni i'w trafod a'u hadolygu yn adroddiad ARhF y rhaglen.

2.117 Mae'r prifysgolion partner sy'n gweithio gyda'r Grŵp yn gofyn bod yr arholwr allanol yn cyflwyno templed sy'n pennu'r materion a drafodwyd.

2.118 Anfonir adroddiadau i'r Adran Ansawdd cyn eu dosbarthu i arweinwyr y rhaglenni. Unwaith y maent wedi'u derbyn, maent yn atebol i drefnau sicrhau ansawdd ac adolygu, fel y maent wedi'u disgrifio yn adran B8. Llwythir yr ymatebion i rith-amgylchedd dysgu'r rhaglen, lle maent ar gael i'r staff a'r myfyrwyr. Mae'r Grŵp yn anfon y camau gweithredu at yr arholwr allanol. Cofnodir y cryfderau a'r meysydd sydd angen eu datblygu'n ganolog gan y Tîm Ansawdd, ynghyd ag unrhyw gamau gweithredu adferol sy'n ofynnol. Maent yn cael codau risg CMG (statws Coch/Melyn/Gwyrdd) gan y Swyddfa Ansawdd a chânt eu defnyddio i hysbysu cynllunio strategol gan y Prif Swyddog Gweithredol a Phenaethiaid y colegau.

2.119 Disgrifir y broses o benodi arholwyr allanol ar gyfer Prifysgol Bangor yn rheoliadau'r corff dyfarnu. Mae Pearson yn penodi gwiriwr safonau. Disgrifir rôl ffurfiol yr arholwr allanol ar gyfer Prifysgol Bangor yn llawn yn y Llawlyfr Dilysu, ac mae'r disgrifiad wedi'i gynnwys hefyd yn y Canllaw i Fyrddau Arholi Mewnol ac Allanol ym maes Addysg Uwch.

2.120 Sefydlir systemau a phrosesau'r Grŵp ar gyfer arholwyr allanol yn unol â'r drefn ofynnol, sy'n cael ei llywio gan reoliadau'r cyrff dyfarnu a Pearson. Ystyrir materion sydd angen sylw gan reolwyr uwch a rheolwyr y Grŵp a chânt eu trafod a'u gweithredu gan y timau staff. Mae'r canlyniadau'n cael eu cofnodi'n ganolog gyda chodau risg. Defnyddir adroddiad canolog i hysbysu prosesau cynllunio strategol a gweithredol, a bwydir yr adroddiad yn ôl i'r staff a'r myfyrwyr. Felly mae prosesau ar waith i alluogi'r Grŵp i fonitro a gweithredu canfyddiadau'r arholwyr allanol ac i wneud defnydd da o'r canlyniadau.

2.121 Mae'r dogfennau sy'n cael eu harchwilio gan y tîm yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau perthnasol, gan gynnwys dogfennau dilysu, ac ystod lawn o adroddiadau'r arholwyr. Cafodd y myfyrwyr a'r staff eu cyfweled mewn perthynas â'u cyfranogaeth mewn prosesau ac arferion arholi allanol.

2.122 Cadarnhaodd y staff a gyfwelwyd bod systemau'n cael eu dilyn, a bod ymgysylltiad parhaus gydag ystyriaethau, cyngor ac arweiniad yr arholwyr allanol. Ceir trafodaethau dwyieithog gyda'r arholwr allanol ar gyfer y rhaglen TBAR, a gwelir eu bod yn cefnogi cynnydd a darpariaeth, gan ddefnyddio deunyddiau dwyieithog a deunyddiau ar-lein, er enghraifft. Mewn Plismona, mae'r arholwr allanol yn cwrdd â'r myfyrwyr a'r staff ac yn cefnogi cysylltiad rhwng y Grŵp a'r corff dyfarnu. Anfonir adroddiadau arholwyr allanol at y Tîm Ansawdd i gael cod risg CMG, a dilynrir y systemau ffurfiol, gan gynnwys trafodaeth a chynllunio camau gweithredu gan y timau staff. Mae staff mewn disgyblaethau eraill yn cadarnhau bod arferion tebyg ar waith: Mae'r staff Astudiaethau Byddardod yn sôn am berthynas gefnogol iawn gyda'u harholwr allanol. Adolygir y cynnydd o ran y camau gweithredu gan dimau ar dri phwynt yn ystod y flwyddyn. Mae'r myfyrwyr yn cymryd rhan yn y trafodaethau hyn ar bob cwrs drwy system y cynrychiolwyr myfyrwyr; dywedir bod y rheiny sydd ar y rhaglen FdA mewn Animeiddio yn 'Rhan gyflawn o'r broses'.

2.123 Cadarnhaodd y staff uwch bod y myfyrwyr yn cyfrannu at ystyriaethau ar lefel tîm, er ei bod hi'n parhau'n her i ymgysylltu â myfyrwyr rhan amser. Gwahoddir cynrychiolwyr y myfyrwyr i fynychu Byrddau Astudiaethau, er bod eu presenoldeb yn amrywio.

2.124 Dywedodd y myfyrwyr eu bod wedi cwrdd â'r arholwyr allanol neu'r safonwyr yn ddiweddar, er enghraifft yn y rhaglen BA mewn Busnes a'r rhaglen FdA mewn Astudiaethau Plentyndod, a cheir sylwadau am y drafodaeth gyda myfyrwyr mewn rhai o'r adroddiadau. Mae'r myfyrwyr yn ymwybodol o adroddiadau'r arholwyr allanol sydd ar y rhith-amgylchedd dysgu, ac maent yn teimlo eu bod wedi'u harddangos yn glir, er mai ychydig iawn sydd wedi mynd i mewn iddynt. Mae rhai o'r myfyrwyr yn cymryd rhan mewn ymatebion rhaglenni i sylwadau'r arholwyr allanol. Bwydir y canlyniadau yn ôl i'r myfyrwyr drwy'r system 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' a'u harddangos, er nad oedd y myfyrwyr a gyfwelwyd yn ymwybodol o'r system hon. Rhoddir adroddiadau'r arholwyr allanol a'u canlyniadau ar borth myfyrwyr y rhith-amgylchedd dysgu.

2.125 Cadarnhaodd y staff uwch bod adroddiadau arholwyr allanol yn cael eu hanfon at y Prif Swyddog Gweithredol fel arfer, ac yna i'r Tîm Ansawdd, sy'n casglu unrhyw faterion sydd angen sylw ac yn rhoi codau CMG iddynt. Yna anfonir y rhain ymlaen at y penaethiaid cynorthwyol perthnasol a'r rheolwyr rhaglen perthnasol i'w trafod ac i gynllunio camau gweithredu, a chânt eu cynnwys yn y cynlluniau gwella ansawdd sy'n dilyn adolygiad blynyddol. Mae'r timau'n ail edrych ar gynnydd ar y cynlluniau gwella ansawdd yn rheolaidd. Adolygir y crynodeb o dueddiadau a themâu gan y Tîm Ansawdd i ganfod materion sy'n ymwneud â'r Grŵp cyfan, a chyflwynir adroddiad i'r Grŵp ASAAU. Bwydir y camau gweithredu yn ôl i'r cyrff dyfarnu, ac i Pearson, drwy'r broses adolygu flynyddol. Mae'r cyrff dyfarnu'n rhoi amserlenni ar gyfer y camau gweithredu,

ac mae staff cyswllt yn monitro'r cynnydd o ran cyflawni'r rhain. Defnyddir y canlyniadau hefyd i hysbysu themâu sy'n ymwneud â datblygiad staff a chynllunio strategol a gweithredol drwy'r Grŵp ASAAU.

2.126 Mae'r defnydd effeithiol a wneir o adroddiadau'r arholwyr allanol i hysbysu datblygiad ansawdd yn **arfer da**.

2.127 Mae'n amlwg bod gan y Grŵp y prosesau a'r arferion gofynnol, a bod y rhain yn cael eu dilyn yn systematig, i sicrhau bod arholwyr allanol yn cael eu defnyddio'n ofalus. Daeth y tîm i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B8): Mae darparwyr addysg uwch, wrth gyflawni eu cyfrifoldebau am osod a chynnal safonau academiaidd ac am sicrhau a gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu, yn gweithredu prosesau effeithiol, rheolaidd a systematig i fonitro ac adolygu rhaglenni.

Cod Ansawdd, Pennod B8: Monitro ac Adolygu Rhaglenni

Y canfyddiadau

2.128 Mae'r Grŵp yn gweithredu trefnau adolygu a monitro ar gyfer bob rhaglen yn unol â disgwyliadau'r corff dyfarnu perthnasol neu'r sefydliad dyfarnu perthnasol. Mae gan y Grŵp Fframwaith Ansawdd, ac mae gofynion hwn yn hysbysu prosesau monitro ac adolygu a'r hunanwerthusiad blynyddol.

2.129 Mae cylchred blynyddol y Grŵp o fonitro ansawdd yn cynnwys cynhyrchu adroddiad Monitro Rhaglenni'n Flynyddol (adroddiad MRhF) a chynllun gweithredu. Adolygir y materion sy'n codi o adroddiadau MRhF yn rheolaidd yng nghyfarfodydd y timau cwrs. Mae materion sydd heb eu datrys yn bwydo i mewn i'r broses ar gyfer datblygu'r ddogfen hunanwerthuso flynyddol ym maes addysg uwch ac, wedi hynny, y Cynllun Datblygu a Gwella Ansawdd. Gweithredir y broses hon gan y Grŵp ASAAU, sy'n cyfarfod yn ysbeidiol i adolygu'r cynnydd yn erbyn camau gweithredu sy'n codi o'r cylchred blynyddol o fonitro ansawdd, ac sy'n goruchwylio materion ansawdd a safonau. Gellir cymryd materion ymlaen i'r Grŵp Addysg Uwch, sef y corff ymgynghori y mae'r Grŵp ASAAU yn adrodd iddo, neu, am faterion megis cynnydd a chyrraedd y myfyrwyr, i'r Pwyllgor Cwricwlwm, Myfyrwyr a Safonau (PCMS), sy'n is-bwyllgor i'r corff llywodraethu. Mae proses gynllunio gweithredol y Coleg yn cynnwys monitro dangosyddion perfformiad sefydliadol allweddol, ac mae adroddiadau am hyn yn cael eu cyflwyno dros y flwyddyn i'r Tîm Rheoli a'r Tîm Polisi, gydag adroddiadau crynodol yn cael eu cyflwyno i'r Tîm Strategol ac i'r PCMS, sy'n ystyried perfformiad y Grŵp. Byddai'r trefniadau hyn yn galluogi i Ddisgwyliad B8 gael ei gyflawni.

2.130 Profodd y tîm weithrediad ac effeithiolrwydd polisiau a gweithdrefnau'r Grŵp ar gyfer sicrhau ansawdd yng nghyd-destun ei oblygiadau i'w gyrrff prifysgol dyfarnu ac i Pearson, drwy graffu ar adroddiadau monitro blynyddol y Grŵp ac adroddiadau'r arholwyr allanol, a thrwy drafod prosesau a gweithdrefnau mewn cyfarfodydd gyda staff, myfyrwyr, a chyflogwyr.

2.131 Mae gan y Grŵp drefniadau yn eu lle sydd wedi'u llunio i sicrhau bod rhaglenni'n cael eu rheoli a'u monitro'n effeithiol. I bwrpasau rheoli rhaglenni, mae'r arweinwyr rhaglenni'n adrodd i Reolwr Maes Rhaglen, a chanddynt gyfrifoldebau sy'n cynnwys recriwtio myfyrwyr, cysylltu â'r myfyrwyr, monitro cyrsiau, a chadeirio cyfarfodydd timau cwrs. Mae'r Rheolwyr Meysydd Rhaglen yn cyfarfod yn rheolaidd yng nghyfarfodydd y Tîm Rheoli. Yn ddiweddar, mae'r Grŵp wedi cymryd camau i gryfhau a safoni'r prosesau monitro ar draws y Grŵp drwy newid ei system tiwtoriaid arweiniol a chael cydlynwyr cwricwlwm addysg uwch yn eu lle. Gyda'u cysylltiadau agos â'r Rheolwr Datblygu Addysg Uwch, bwriedir i'r cydlynwyr hyn, gan weithredu fel cwndid, sicrhau mwy o gysondeb mewn cydlynu a monitro'r cwricwlwm, gan felly wella arferion ym maes addysg uwch. O drafodaethau gyda'r staff, a thrwy graffu ar ddogfennaeth sefydliadol, daeth y tîm i'r casgliad bod y trefniadau ar gyfer rheoli rhaglenni'n gweithio'n effeithiol.

2.132 Bu'r tîm adolygu'n ystyried y drefn lle mae pob un o'r rhaglenni'n cael eu hadolygu'n flynyddol drwy'r broses flynyddol o fonitro ac adolygu rhaglenni. Yn y cylchred adolygu yma mae'r holl raglenni addysg uwch yn cwblhau crynodeb o'r adolygiad mewnol blynyddol, sef yr adroddiad ARhF. Mae'r timau'n defnyddio ffynonellau tystiolaeth wedi'u rhagnodi fel y maent wedi'u disgrifio yn nhempeld yr adroddiad ARhF. Hysbysir y broses adrodd hon gan adroddiadau'r arholwyr allanol a thrwy adborth gan fyfyrwyr. Daw'r adroddiad ARhF i ben gyda chynllun gwella ansawdd ar gyfer y rhaglen honno, sy'n adolygu camau gweithredu o'r flwyddyn flaenorol ac yn gosod agenda newydd i'r camau i'w cymryd. Gwelodd y tîm amrywiol esiamplau o adroddiadau

sy'n amlygu meysydd lle mae angen gweithredu a gwella. Mae'r adroddiad ARhF hefyd yn amlygu arferion da i'w lledaenu. Yn rhan o'r broses hon, crynhoir materion arfer da hefyd gan yr Arweinydd Academaidd Addysg Uwch, gan ddefnyddio system oleuadau traffig.

2.133 Adolygir a chymeradwyir pob adroddiad ARhF mewn Bwrdd Astudiaethau cyn eu cyflwyno i'r brifysgol berthnasol neu i Pearson. Cadeirir pob un o'r Byrddau hyn gan Bennaeth Cynorthwyol, ac maent yn cynnwys Rheolwr Sicrhau Ansawdd y Grŵp. Hysbyswyd y tîm bod y myfyrwyr yn mynychu ac yn cymryd rhan yn natblygiad y cynllun gwella ansawdd. Mae'r agenda i'w weithredu yma'n cael ei adolygu drwy gydol y flwyddyn mewn cyfarfodydd timau rhaglenni bob tymor. Mae'n rhaid i bob adroddiad ARhF gynnwys camau gweithredu gan yr arholwr allanol, ac mae'r elfen hon yn cael ei chadarnhau gan Fyrddau Astudiaethau.

2.134 Mae'r gweithdrefnau monitro blynyddol yma sydd wedi'u seilio yn y Grŵp yn effeithiol, yn ddealladwy i'r staff, ac yn cael eu defnyddio i wella ansawdd. Defnyddir y gweithdrefnau hefyd i werthuso modiwlau ar eu diwedd. Yma, gall y myfyrwyr roi sylwadau ar amrywiol faterion sy'n ymwneud ag addysgu a dysgu, a gallent hefyd roi sylwadau agored. Fodd bynnag, er bod y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw'n gwybod am y broses, roeddent wedi nodi nad oedd eu tiwtoriaid wedi'u hysbysu am y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd i ymdrin â materion yr oeddent wedi'u codi yn yr arolygon lefel modiwl hyn.

2.135 Wedi i dimau rhaglen y Grŵp gwblhau adroddiadau hunanwerthuso ARhF, mae'r adroddiadau'n mynd drwy brosesau ansawdd y cyrff dyfarnu, neu broses adolygu flynyddol Pearson. Ar y cam hwn yn y broses, mae cadeirydd Bwrdd Astudiaethau perthnasol y Grŵp yn llofnodi pob adroddiad ARhF cyn eu hanfon i'r corff dyfarnu ac at yr arholwr allanol. Cânt eu rhoi ar rith-amgylchedd dysgu'r rhaglen i sicrhau eglurder. Yn ogystal, mae'r Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Profiad y Dysgwyr yn cwblhau crynodeb o'r adroddiadau ARhF, ac mae'r crynodebau yma ar gael i Bennaeth bob coleg.

2.136 Dilynir y cam ARhF yn y cylchred monitro blynyddol gyda chwblhau dogfen hunanwerthuso flynyddol ym maes addysg uwch ar lefel y Grŵp, sy'n gwneud defnydd estynedig o ddata meintiol ac ansoddol, ac o'r adroddiadau ARhF ar gyfer holl ddarpariaeth Grŵp Llandrillo Menai. Mae'r ddogfen hunanwerthuso flynyddol yn adolygu'r ddarpariaeth yn erbyn y Cod Ansawdd ac yn gorffen gyda Chynllun Datblygu a Gwella Ansawdd y Grŵp. Trafodir yr adroddiadau monitro a'r adroddiadau adolygu gan y Grŵp ASAAU. Nododd y tîm fod y Cynllun olaf yn defnyddio adroddiadau MRhF ac yn cynhyrchu dwy gyfres o gamau gweithredu: Cynllun Datblygu Ansawdd, sy'n pennu camau gweithredu i sicrhau ansawdd, neu newidiadau arfaethedig i'r broses; a Chynllun Datblygu a Gwella Ansawdd, sy'n pennu cyfres o themâu gwelliant. Efallai y bydd rhai eitemau i'w gweithredu'n cael eu hychwanegu yn ystod y flwyddyn. Mae'r trefniadau adrodd hyn yn cyfrannu at effeithiolrwydd y Grŵp ASAAU o ran dwyn ymlaen gynigion am wella trefnau sicrhau ansawdd ac am wella'r dysgu a'r addysgu.

2.137 Mae gwaith y Grŵp ASAAU i oruchwylio gweithrediad gweithdrefnau ar gyfer ansawdd a safonau wedi cael ei gryfhau'n ddiweddar drwy gyflwyno Gweithgor Corfforaethol sydd, drwy adrodd i'r Grŵp ASAAU, yn helpu'r olaf ar draws y Grŵp cyfan i weithredu polisïau a gweithdrefnau ansawdd, gan gynnwys y rheiny ar faterion sy'n ymwneud â monitro ac adolygu. Mae'n ymddangos bod y trefniant hwn, sydd wedi'i lunio i sicrhau mwy o gysondeb, yn gweithio'n dda.

2.138 Agwedd arall o ddull y Grŵp o fonitro ac adolygu yw'r defnydd a wneir o system adrodd ar sail statws CMG, gan gynnwys fel mecanwaith i werthuso adolygiadau o raglenni. Mae'r adroddiad statws CMG yn cynnwys monitro camau gweithredu ar faterion a godwyd yn adroddiadau'r arholwyr allanol neu mewn adroddiadau allanol neu fewnol eraill, ac o feysydd i'w lledaenu a bennwyd yng nghynlluniau gwella'r adroddiadau ARhF. Mae'r adroddiad statws CMG yn cael ei ddiweddarau bob tymor, a'i drafod yng nghyfarfodydd y Grŵp ASAAU. Dosberthir yr adroddiad statws CMG ac adroddiadau perthnasol allanol i'r staff uwch perthnasol i'w gweithredu

ddwywaith y flwyddyn, a chânt eu defnyddio fel sail ar gyfer digwyddiadau datblygiad staff er mwyn ymdrin â themâu sy'n codi o'r adroddiadau. Mae'r system adrodd statws CMG yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i effeithiolrwydd trefniadau'r Grŵp ar gyfer monitro ansawdd ac mae'n cyfrannu at yr arferion da a nodir yn adran B7.

2.139 Mae'r Grŵp hefyd yn defnyddio ei brosesau monitro i archwilio materion sy'n achosi pryder a allai godi naill ai gyda myfyrwyr neu gyda'r ddarpariaeth yn fwy cyffredinol, a nododd bod modd bwydo materion o'r fath drwy'r broses fonitro. Er enghraifft, gwelodd y tîm dystiolaeth bod trefn archwilio ansawdd yn cael ei defnyddio i fonitro a gwirio perfformiad rhaglenni. Canlyniad y gwiriad iechyd academiaidd hwn oedd gosod cynllun gweithredu wedi'i wyro tuag at welliant ar waith ar gyfer rhaglen Genedlaethol Uwch. Yn ogystal, nododd y tîm esiampl ddiweddar lle defnyddir arolwg blynyddol y Grŵp ym maes addysg uwch i ymdrin â materion a godwyd yng nghanlyniadau'r AMC. Adroddir am ganlyniadau'r arolwg mewnol hwn i'r Tîm Strategol i ymateb â chamau gweithredu. Nododd y tîm adolygu hefyd bod perfformiad y rhaglenni'n cael ei fonitro drwy broses gynllunio gweithredol y Grŵp. Mae'r broses hon yn cynnwys monitro dangosyddion perfformiad sefydliadol allweddol, ac mae adroddiadau am hyn yn cael eu cyflwyno drwy gydol y flwyddyn i'r Tîm Polisi a, lle bo raid, i'r PCMS.

2.140 Roedd y tîm adolygu hefyd yn ystyried materion sy'n ymwneud â rhoi'r gorau i gynnis rhaglenni. Mae sylw'r tîm i hyn wedi'i hybu gan ystyriaeth o'r materion a nodir uchod, megis monitro perfformiad a'r defnydd a wneir o'r drefn archwilio ansawdd a elwir y 'gwiriad iechyd academiaidd', ac hefyd gan y penderfyniad diweddar i derfynu'r Rhaglen Sylfaen Ryngwladol, bod y Grŵp yn rhoi pwysigrwydd i hyfywra cyrsiau yn nhermau nifer y myfyrwyr, ac y cedwir llygad ar faterion o'r fath drwy fonitro ceisiadau a thargedu cofrestriad, tan-benodi hanesyddol, ac hefyd gadwraeth myfyrwyr. Mae'r tîm yn nodi bod y Tîm Polisi, y Grŵp Cwricwlwm Strategol a'r PCMS yn goruchwyllo materion strategol o'r fath. Hysbyswyd y tîm fod monitro i weld a yw rhaglenni'n parhau'n gyfredol ac yn hyfyw yn gallu arwain at gau rhaglenni / terfynu darpariaeth, a nododd y tîm bod gan y Grŵp weithdrefn y cytunwyd arni i reoli'r broses o gau er mwyn diogelu buddiannau academiaidd y myfyrwyr. Tynnwyd y rhaglen FdA mewn Ynni a Phŵer yn ei hôl ar gyfer 2015-16 o ganlyniad i broses fonitro o'r math yma, ac mae'r Grŵp wedi gweithio'n agos gyda'i brifysgolion partner i ddiogelu buddiannau'r myfyrwyr ac i'w cefnogi i ganfod opsiynau gwahanol. Bu'r tîm yn ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd hefyd mewn perthynas â thynnu'r Rhaglen Sylfaen Ryngwladol yn ei hôl ac roedd y grŵp yn teimlo'n dawel ei feddwl bod trefniadau priodol yn cael eu gwneud yn dilyn trafodaethau gyda'r brifysgol ddilysu, i symud y gyfran gyfredol allan o dan reolaeth gywir. Roedd y tîm yn fodlon bod gan y Grŵp weithdrefnau yn eu lle i reoli achosion o'r fath yn effeithiol lle mae rhaglenni yn cael eu tynnu yn ôl neu eu cau.

2.141 Roedd y tîm adolygu hefyd yn ystyried trefniadau ar gyfer adolygu darpariaeth addysg uwch y Coleg yn gyfnodol. Ar gyfer darpariaeth a gymeradwyir gan brifysgolion, gweithredir y broses o adolygu ac ail-ddilysu rhaglenni'n gyfnodol yn ôl rheoliadau ac arweiniad y corff dyfarnu ar adolygu rhaglenni'n gyfnodol. Mae'r adolygiadau cyfnodol hyn yn canolbwyntio ar iechyd academiaidd parhaus y dyfarniad neu grŵp o bynciau. Gwelodd y tîm adolygu esiamplau o hyn mewn dogfennau ar gyfer y broses gyfnodol o adolygu ac ail-gymeradwyo'r rhaglen BA mewn Celfyddyd Gain a wnaethpwyd yn ddiweddar gan Brifysgol Glyndŵr, a'r broses o ail-ddilysu'r rhaglen TBA gan Brifysgol De Cymru. Mae'r prifysgolion hefyd yn dilyn prosesau cyfnodol o ail-gymeradwyo ar lefel sefydliadol, sy'n cynnwys rhywfaint o waith craffu ar lefel y rhaglen. Ystyrir adroddiadau adolygu drwy strwythurau pwyllgorau'r prifysgolion. Mae Rheolwr Datblygu Addysg Uwch y Grŵp yn cynnal y calendr o adolygiadau cyfnodol sydd ar y gweill, ac mae'r Grŵp Cwricwlwm Strategol a'r Grŵp Addysg Uwch yn monitro rhaglenni'n fewnol sydd i gael eu hadolygu'n gyfnodol, yn debyg i'r broses ar gyfer ail-gymeradwyo sefydliadol.

2.142 Craffodd y tîm adolygu ar drefniadau ar gyfer adolygu darpariaeth Pearson. Roedd y dogfennau a ddarparwyd i'r tîm yn dangos bod y sefydliad dyfarnu'n gwneud ymweliad adolygu blynyddol, o dan weithdrefnau a ragnodir gan ofynion yr Adolygiad Rheoli Ansawdd BTEC. Mae'r broses o Adolygu Canolfannau hon, lle mae Prif Wiriwr Mewnol y Grŵp, y Rheolwr

Ansawdd, ac arweinwyr rhaglenni Pearson yn cymryd rhan yn y broses. Wrth baratoi ar gyfer yr adolygiad hwn, mae'r Grŵp yn gwneud hunanasesiad. Fodd bynnag, er bod y broses hon yn ymddangos fel petai'n gweithio'n dda, ac fe'i hysbysir gan broses y Grŵp ei hun o fonitro rhaglenni'n flynyddol, ni allai'r tîm ganfod unrhyw ddisgrifiad o broses adolygu cyfnodol ar gyfer ei ddarpariaeth Pearson yn nogfennau perthnasol y Grŵp. Hefyd, cadarnhaodd y staff uwch yn y Grŵp nad oes unrhyw weithdrefn ar gyfer adolygu rhaglenni Pearson yn gyfnodol, naill ai gan y sefydliad dyfarnu neu gan y Grŵp ei hun. Oherwydd hyn, mae'r tîm yn **argymhell** bod y Grŵp yn rhoi gweithdrefn yn ei lle ar gyfer adolygu ei ddarpariaeth Pearson yn gyfnodol a sicrhau bod hyfforddiant priodol ar gael i aelodau o banelau adolygu a thimau rhaglen.

2.143 Wrth gloi ei ymholiadau ar y trefniadau i fonitro ac adolygu, asesodd y tîm adolygu rôl pwyllgorau ymgynghori lefel uwch a nododd bod pob un o'r pwyllgorau'n adolygu eu cylchoedd gwaith bob blwyddyn. Clywodd y tîm hefyd bod y Grŵp ASAAU yn cyflawni swyddogaeth bwysig o ran adolygu polisïau academiaidd. Canfu'r tîm fod tystiolaeth i ddangos bod y polisïau'n cael eu hadolygu'n flynyddol gan grŵp adolygu a sefydlwyd dan gyfarwyddyd y Grŵp ASAAU, yn barod ar gyfer y flwyddyn academiaidd nesaf. I gymryd hyn yn ei flaen, canfu'r Rheolwr Sicrhau Ansawdd grwpiau o staff sydd ag arbenigedd priodol, sydd â'r dasg o adolygu a diwygio polisïau, gweithdrefnau, a strategaethau, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol i'r ddarpariaeth addysg uwch. Yn dilyn cyflwyno diweddariad i'r Grŵp ASAAU, cyflwynwyd y canlyniadau i'r Tîm Polisi, am faterion megis amgylchiadau esgusodol a threfnau derbyn y myfyrwyr.

2.144 Daeth y tîm i'r casgliad, ar gyfer dyfarniadau a gymeradwyir gan brifysgolion, bod staff yn y Coleg yn deall ac yn gweithredu trefnau o fonitro ac adolygu rhaglenni sy'n systematig ac yn effeithiol. Ar gyfer darpariaeth Pearson, mae'r trefnau o fonitro'r rhaglenni yr un mor effeithiol. Ond, ar gyfer darpariaeth Pearson, er bod prosesau effeithiol gan y sefydliad dyfarnu i wneud adolygiad blynyddol, nid oes gan Pearson na'r Coleg drefn ar waith i adolygu rhaglenni'n gyfnodol. Felly, daeth y tîm i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn ganolig.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni
Lefel y risg: Canolig

Disgwyliad (B9): Mae gan ddarparwyr addysg uwch weithdrefnau i ymdrin ag apeliadau academiaidd a chwynion myfyrwyr am ansawdd y cyfleoedd dysgu; mae'r gweithdrefnau hyn yn deg, yn hygyrch ac yn amserol, ac yn galluogi gwelliant.

Cod Ansawdd, Pennod B9: Apeliadau Academiaidd a Chwynion Myfyrwyr

Y canfyddiadau

2.145 Mae gan y Grŵp ei drefn gwyno ac apelio fewnol ei hun, sy'n cael ei hesbonio i'r myfyrwyr yn ystod y cyfnod cynefino ac sydd ar gael ar y rhith-amgylchedd dysgu ac ar y wefan allanol. Ar gyfer rhaglenni ar etholfraint, mae gofyn i'r myfyrwyr ddilyn gweithdrefnau eu corff dyfarnu perthnasol, y maent yn cael eu cyfeirio'n uniongyrchol atynt drwy'r rhith-amgylchedd dysgu.

2.146 Rheolir unrhyw gwynion yn ganolog gan y Grŵp, gan Swyddog Llywodraethu cymwysedig, a sicrhair bod cefnogaeth ar gael i'r myfyrwyr hynny sydd eisiau cwyno. Mae'r polisïau ar gael yn ddwyieithog ac mae'r Grŵp yn gwneud trefniadau rhagweithiol drwy'r broses gynefino a thrwy'r rhith-amgylchedd dysgu i sicrhau bod y myfyrwyr yn hollol ymwybodol o'r prosesau y mae angen eu dilyn. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau y mae'r Grŵp yn cadw atynt yn deg ac yn eglur. Byddai'r trefniadau hyn yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

2.147 Gwerthusodd y tîm adolygu effeithiolrwydd y trefniadau hyn drwy adolygu gwybodaeth allanol ar y wefan allanol, a thrwy gwrdd â staff uwch, staff cymorth a myfyrwyr. Adolygodd y tîm amrediad o dystiolaeth, yn cynnwys polisïau ac adolygiadau ar gyfer cwynion ac apeliadau, a gwelodd rith-amgylchedd dysgu'r Grŵp.

2.148 Gall y myfyrwyr gwyno am unrhyw rai o wasanaethau'r Grŵp, yn cynnwys addysgu, cynghori a'r cyfleusterau, yn ogystal ag unrhyw driniaeth amhriodol y mae'r myfyrwyr yn teimlo eu bod wedi'u derbyn. Mae'r drefn gwyno'n cynnwys arweiniad ac amserlenni i'r myfyrwyr wedi'u cyflwyno mewn siart llif. Gofynnir i'r myfyrwyr siarad gyda'u Tiwtor Personol neu'r Arweinydd Rhaglen yn y lle cyntaf, ac, os oes problem na ellir ei datrys, i symud i fyny i'r Gwasanaethau Dysgwyr, Undeb y Myfyrwyr neu'r Rheolwr Rhaglen. Pan fydd yn derbyn cŵyn, mae'r Swyddog Llywodraethu'n cofnodi'r manylion, ac yn eu pasio ymlaen i'r Pennaeth Cynorthwyol perthnasol ac i'r Tîm Polisi. Anfonir cadarnhad i'r achwynydd o fewn pum diwrnod gwaith y bydd y cwynion yn derbyn sylw ffurfiol. Bydd aelod o'r staff yn cael eu penodi'n Swyddog Ymchwilio, a fydd, ar ôl cwblhau ymchwiliad, yn cyflwyno adroddiad i'r Pennaeth Cynorthwyol perthnasol. Yna hysbysir yr achwynydd, o fewn 15 diwrnod gwaith fel arfer, am ganlyniad y gŵyn.

2.149 O fewn pum niwrnod i dderbyn canlyniad y gŵyn gychwynnol, gall yr achwynydd ofyn am apêl gyda rhesymu clir ynglŷn â pham eu bod yn anfodlon gyda'r ymateb a roddwyd. Mae'r Pennaeth Cynorthwyol priodol yn cyfeirio'r gŵyn at eu Pennaeth neu eu Cyfarwyddwr Gweithredol i ystyried yr apêl ac ymateb. Gellir creu panel apêl, sy'n cynnwys yr achwynydd, y Swyddog Ymchwilio, rheolwr y Gwasanaethau Dysgwyr ac aelod arall o'r staff. Fel arfer gelwir panelau o fewn 10 diwrnod gwaith i gyflwyno'r apêl. Yna cyfathrebir y canlyniad terfynol o fewn pum diwrnod gwaith pellach. Mae'r broses yn drwyadl ac annibynnol, er mwyn sicrhau tegwch a chywirdeb.

2.150 Ymwybyddiaeth weithdrefnol oedd y cwestiwn a gafodd y sgôr isaf i fyfyrwyr yn yr AMC; ond, rhoddwyd cam gweithredu ar waith a phan gawsent eu profi, roedd y myfyrwyr yn gwybod ymhle i ganfod rheoliadau a chefnogaeth i gwynion ac apeliadau. Mae'r Swyddog Llywodraethu'n cynnig cyngor a chymorth annibynnol i'r myfyrwyr sydd eisiau cwyno, a gall y myfyrwyr ddod â chefnogaeth neu gynrychiolydd i banelau apêl.

2.151 Disgrifir gwybodaeth ac arweiniad am apeliadau yn y Polisi Cadarnhau Asesiadau ac Apelio mewn Addysg Uwch, sy'n cynnwys llwybrau, amseriadau a chyfrifoldebau'r staff. Ar gyfer apeliadau, mae'r weithdrefn yn egluro dau lwybr gwahanol ac yn esbonio cyfrifoldebau'r staff a chyfrifoldebau'r myfyrwyr. Ymhob achos, mae'r Swyddog Llywodraethu'n pennu'r drefn apelio ac yn ei rhoi i'r achwynwyr. Mae cefnogaeth ar gael gan yr Arweinydd Academaidd Addysg Uwch neu'r Rheolwr Sicrhau Ansawdd. Gellir gwneud addasiadau rhesymol i achwynydd sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae llythyrau prosesau/gweithdrefnau'n cael eu cwblhau a'u cyhoeddi ar gyfer pob apêl cyflawn, pa gorff dyfarnu bynnag sydd gan y myfyrwyr, a chofnodir yr holl weithdrefnau a'u ffeilio'n gyfrinachol o fewn yr Adran Ansawdd. Hyfforddir rheolwyr ar ymwybyddiaeth ac egwyddorion diogelu data er mwyn rhoi arweiniad iddynt ar ryddhau gwybodaeth sy'n ymwneud â chwynion ac apeliadau.

2.152 Llunnir dadansoddiad blynyddol o gwynion mewn adroddiad, sy'n cael ei drafod yn y Pwyllgor Cwricwlwm, Myfyrwyr a Safonau i edrych ar unrhyw themâu sy'n codi ac i sicrhau cydymffurfiaid. Adolygir y ddau bolisi ar gyfer cwynion ac apeliadau yn rhan o'r cylch blynyddol, ac anfonir adroddiadau i'r Tîm Polisi i sicrhau bod y polisi a'i weithrediad yn briodol.

2.153 Mae'r Grŵp wedi derbyn adborth cadarnhaol am ei bolisiâu a'i weithdrefnau cwyno gan Estyn, sy'n cynnwys monitro cwynion yn anffurfiol a welir fel arferion da. Ar hyn o bryd mae'r Swyddog Llywodraethu a'r Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Profiad y Dysgwyr yn cyfrannu at fid ymchwilio ar ymdrin â chwynion yn effeithiol, yn cyfrannu at y sector ar ymdrin â chwynion yn effeithiol, ac yn cydnabod eu dealltwriaeth gadarn o ymdriniaeth gadarn â chwynion yn gefnogol, yn fanwl gywir ac yn eglur.

2.154 O ganlyniad i eglurder a symrlwydd y trefnau cwyno i'r myfyrwyr, a maint y gefnogaeth sydd ar gael iddynt, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel. Mae'r Grŵp yn dangos ymrwymiad i gefnogi'r myfyrwyr drwy'r broses, a thrwy adolygu data am gwynion a'r polisi ei hun, mae'n dangos ymrwymiad i sicrhau effeithiolrwydd y weithdrefn ar waith.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni
Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B10): Mae cyrff dyfarnu graddau'n cymryd y cyfrifoldeb pennaf am safonau academiaidd ac am ansawdd y cyfleoedd dysgu, lle bynnag y cânt eu darparu neu pwy bynnag sy'n eu darparu. Mae trefniadau ar gyfer darparu cyfleoedd dysgu gyda sefydliadau heblaw'r corff dyfarnu graddau wedi'u gweithredu'n gadarn a'u rheoli'n effeithiol.

Cod Ansawdd, Pennod B10: Rheoli Darpariaeth Addysg Uwch gydag Eraill

Y canfyddiadau

2.155 Mae gan y Grŵp gydberthnasau cydweithredol hirsefydlog gyda phedair prifysgol partner, a'r mwyaf o'r rhain yw Prifysgol Bangor a Phrifysgol Glyndŵr, a gyda sefydliad dyfarnu Pearson. Mae hyn yn darparu'r sail ar gyfer cynnal safonau academiaidd, ac mae'n sicrhau ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr. Mae cytundebau partneriaeth strategol ar waith gyda phob un o'r prifysgolion.

2.156 Mae'r Grŵp yn rheoli rhwydweithiau o bartneriaethau gyda chyflogwyr drwy bartneriaid ym meysydd addysg uwch, addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith, a dysgu oedolion yn y gymuned. Mae'r Grŵp wedi canolbwyntio ar gysylltiadau â chyflogwyr rhanbarthol megis Heddlu Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) er mwyn darparu darpariaeth alwedigaethol addysg uwch sy'n cwrdd ag anghenion y sectorau.

2.157 Mae'r Grŵp yn parhau i gydweithio â'r Ganolfan Gwella Addysgu a Dysgu (CELT) ym Mhrifysgol Bangor i gryfhau cysylltiadau ym maes gweithgareddau ysgolheigaidd rhwng y Grŵp a Phrifysgol Bangor. Mae diddordebau gwaith ymchwil staff addysg uwch y Grŵp wedi'u casglu a'u rhannu gyda CELT, sydd yn ei dro'n rhannu'r rhain gyda staff academiaidd perthnasol Prifysgol Bangor.

2.158 Mae'r rhaglen Darlith Gyhoeddus Iechyd a Lles yn ei chweched gyfres, yn rhan o gydweithrediad rhwng y Grŵp, Prifysgol Bangor a'r bwrdd iechyd rhanbarthol (BIPBC), a gefnogir (ac a ariennir) gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r gynulleidfa'n cynnwys y cyhoedd a myfyrwyr, ac mae'r gyfres wedi derbyn croeso.

2.159 Mae Gyrfa Cymru'n darparu cyngor gyrfaoedd addysg uwch i'r dysgwyr, ar sail contract cyfwerth ag amser llawn o 0.6. Ar hyn o bryd, mae'r contract hwn yn cael ei adolygu i ymdrin â'r Grŵp cyfan.

2.160 Mae gweledigaeth strategol y Grŵp yn canolbwyntio ar y galw am weithwyr yn yr ardal, gan gynnwys datblygiadau newydd ar y cyd gyda gwaith ynni ar Ynys Môn a chyflogwyr mawr eraill, yn ogystal â sectorau partner cyfredol, yn cynnwys ym meysydd lletygarwch, llyfrgelloedd, plismona a'r gymuned fyddar. Mae tîm penodol i'r maes dysgu seiliedig ar waith, ac mae lleoliadau profiad gwaith newydd yn cael eu llywio a'u fetio drwy'r Polisi Rheoli Diogelwch, Iechyd a'r Amgylchedd a'r Cynllun Rheoli Diogelwch, Iechyd a'r Amgylchedd. Cedwir cofnodion, ac mae adnoddau a chefnogaeth ar gael i'r staff.

2.161 Ar gyfer y rhaglen FdSc Plismona, mae ystod o gysylltiadau gydag UCLan a Gwasanaeth Heddlu Gogledd Cymru. Cefnogir y ddarpariaeth Iechyd drwy gytundeb tair rhan yn yr ardal, yn ogystal â chyfres o ddarlithoedd cyhoeddus. Mae'r ddarpariaeth addysg uwch mewn Astudiaethau Byddardod wedi'i datblygu mewn partneriaeth agos â chyflogwyr rhanbarthol a'r gymuned fyddar yng Ngogledd Cymru.

2.162 Mae cymorth strategol a gweithredol ar gyfer gweithio gyda sefydliadau heblaw'r corff dyfarnu graddau, ar sail strategaeth gyflogadwyedd i'r myfyrwyr. Byddai hyn yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

- 2.163 Archwiliodd y tîm ystod o ddogfennau polisi a dogfennaeth arall. Cyfwelwyd myfyrwyr, staff a chyflogwyr ynghylch y gwaith partneriaeth.
- 2.164 Soniodd y cyflogwyr am gyswllt a pherthynas parhaus a chydlynol gyda'r Grŵp, sydd wedi cynhyrchu cyfleoedd dysgu parhaus i'r myfyrwyr. Mae Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain, er enghraifft, yn adrodd am gysylltiad hirsefydlog gyda'r Grŵp, gyda'r cydlynnydd yn cymryd rhan yn y broses o asesu a hysbysu cynnwys y cwrs. Mae cyflogwyr yn teimlo bod y Grŵp yn fwy hygyrch yn dilyn yr uno, a bod ganddo fwy o bresenoldeb ac ystod fwy o arbenigedd, er enghraifft mewn Lletygarwch. Dywedir bod y cyfathrebu'n syml a pharhaus, er enghraifft gan Galeri Caernarfon a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.
- 2.165 Mae cyflogwyr yn hyderus am ddarpariaeth y rhaglenni addysg uwch yn y Grŵp. Mewn Astudiaethau Byddardod, mae'r ffaith bod cydlynnydd y cwrs yn fyddar ei hun yn rhoi hygredded i'r rhaglen ac yn cael ei ystyried yn bositif iawn gan y gymuned fyddar. Mewn perthynas â chyflogadwyedd graddedigion y Grŵp, mae'r cyflogwyr yn gadarnhaol iawn unwaith eto, ac maent yn gwerthfawrogi'r myfyrwyr ym maes Arlwygo am eu sgiliau a'u hagwedd ymarferol. Mae'r dull astudio rhan amser yn arbennig o ddefnyddiol i'r rheiny sy'n gweithio yn y diwydiant llyfrgell. Mae'r Galeri'n darparu lle arddangos i'r myfyrwyr, a'r cyfle i gymryd rhan mewn gweithdai. Adroddir bod y myfyrwyr yn broffesiynol ac yn frwdfrydig yn y sefyllfa yma.
- 2.166 Mae'r grwpiau ffocws sy'n cynnwys cyflogwyr wedi derbyn croeso, ac maent yn cefnogi dialog dwy ffordd parhaus ac effeithiol. Yn y diwydiant lletygarwch, er enghraifft, mae aelodau unigol wedi cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r cyrsiau, ac mae rhai ohonynt wedi cefnogi gwaith ymchwil ar gyfer traethodau.
- 2.167 Mae rhai cyflogwyr wedi cymryd rhan yn y broses o ddatblygu, darparu ac asesu cynnwys y cyrsiau, er enghraifft Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain. Mae cyflogwyr llyfrgell wedi cyfrannu hefyd at addasiadau i raglenni ac maent wedi cynnig arbenigedd o'r diwydiant i atgyfnerthu'r ddarpariaeth. Mae cyflogwyr ym maes arlwygo wedi hysbysu cynllun y cwricwlwm i sicrhau bod y cwrs yn cwrdd â safonau diwydiannol yr ysgol a'r sector gofal.
- 2.168 Rhoddir arweiniad i gyflogwyr drwy drafodaeth barhaus ac, mewn rhai achosion, mae'n cael ei lywio gan safonau diwydiannol. Mae'r broses gynefino i'r myfyrwyr yn cael ei chryfhau drwy drafodaethau gyda'r Grŵp. Mae cyflogwyr yn teimlo eu bod yn gallu rhoi adborth i'r myfyrwyr a'r Grŵp am gynnydd ac am unrhyw faterion sy'n codi, drwy gyfathrebu systematig a rheolaidd.
- 2.169 Mae'r gwaith gyda chyflogwyr wedi'i alinio â chynllun strategol y Grŵp a'r Strategaeth Addysgu a Dysgu, sy'n cynnwys cyfleoedd i gael swydd a'r galw am weithwyr yn y gymuned - i gyfieithwyr y byddar, er enghraifft - a gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflogadwyedd.
- 2.170 Mae'r myfyrwyr yn dweud bod cyflogadwyedd wedi'i integreiddio yn eu cwricwlwm, er enghraifft yn y rhaglen BA mewn Busnes. Mewn Plismona, mae swyddogion uwch yr heddlu'n ymddrin â'r myfyrwyr ac yn eu hannog i ddod yn Gwnstabiliaid Arbennig; mae nifer o'r myfyrwyr cyfredol wedi gwneud hynny. Mae gofyn i fyfyrwyr wneud 10 wythnos o waith heddlu ar y cwrs yma, ac mae hyn wedi'i hwyluso gan y Grŵp. Mae cynnydd y dysgwyr ar y rhaglen hon yn cael ei dracio ar wefan Heddlu Gogledd Cymru i annog trosglwyddiad a recriwtiad.
- 2.171 Dyrennir mentor y gweithle i'r myfyrwyr mewn Gofal Iechyd. Fel arfer mae'r myfyrwyr yn derbyn dysgu seiliedig ar waith sy'n berthnasol i fydd diwydiant. Mae'r rhaglen FdSc mewn Arferion Gofal Iechyd yn deillio o gyswllt diwydiannol a ddatgelodd angen am ddatblygu'r cwrs mewn cydweithrediad tair rhan rhwng y Grŵp, y bwrdd iechyd a'r corff dyfarnu.
- 2.172 Mae cyswllt diwydiannol parhaus yn y maes Adeiladu a maes y Celfyddydau Coginio gyda chysylltiad parhaus â mentrau bach a chanolig yn y diwydiant, deialogau wedi'u cefnogi

gan gyfarfodydd brechwast rheolaidd mewn grwpiau ffocws. Mae'r myfyrwyr ym maes Chwaraeon yn sôn am gyfatebiaeth dda ac elwa cyfartal rhwng eu gwaith yn y diwydiant a'u hastudiaethau.

2.173 Mae'r partneriaethau parhaus a chydlynol gyda chyflogwyr, sy'n cefnogi darpariaeth a datblygiad y cwricwlwm, yn **arferion da**.

2.174 Mae'r tîm o'r farn bod y Grŵp yn gwneud defnydd effeithiol o gyfleoedd i weithio gyda sefydliadau heblaw'r corff dyfarnu graddau i ddarparu cyfleoedd dysgu. Felly, mae'r Disgwyliad yn cael ei gyflawni, ac mae lefel y risg yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B11): Dyfernir graddau ymchwil mewn amgylchedd ymchwil sy'n darparu safonau academaidd cadarn i wneud gwaith ymchwil a dysgu am agweddau, dulliau, trefnau a phrotocolau ymchwilio. Mae'r amgylchedd hwn yn cynnig y cyfleoedd a'r gefnogaeth o safon uchel i fyfyrwyr y maent eu hangen i sicrhau canlyniadau academaidd, personol a phroffesiynol llwyddiannus yn eu graddau ymchwil.

Cod Ansawdd, Pennod B11: Graddau Ymchwil

Y canfyddiadau

2.175 Nid yw'r Coleg yn cynnig unrhyw raddau ymchwil.

Ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr: Crynodeb o'r canfyddiadau

2.176 Wrth benderfynu ar ei feirniadaeth am ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr, cyfatebodd y tîm ei ganfyddiadau â'r meini prawf a nodir yn Atodiad 2 y llawlyfr a gyhoeddwyd. Mae pob un o'r Disgwyliadau wedi'u cyflawni, ac mae lefelau'r risgiau'n isel, heblaw am Ddisgwyliad B8, sydd wedi'i gyflawni ond sydd â lefel risg ganolig.

2.177 Mae pedwar argymhelliad yn y maes yma, dau yn B5, ac un yr un yn B6 ac yn B8. Hefyd, mae'r argymhelliad yn B8 wedi'i groesgyfeirio â Disgwyliad A3.4. Mae'r argymhellion yn B5 yn cyfeirio at yr angen am wneud y defnydd gorau o system gynrychiolaeth y myfyrwyr a chael yr effaith fwyaf ohoni, a'r angen am gryfhau'r ffordd y rhoddir gwybod i fyfyrwyr am ganlyniadau arolygon. Mae'r argymhelliad yn B6 yn cyfeirio at yr angen am osgoi gorlwytho yn amseriad ac amserlennu'r asesiadau drwy wella cynllunio a chyfathrebu fel ei gilydd. Mae'r argymhelliad o dan B8 yn cyfeirio at yr angen am broses o adolygu darpariaeth Pearson yn gyfnodol, ac am gymorth priodol i'r rheiny sy'n gwneud yr adolygiad, ac i'r timau hynny sy'n cael eu hadolygu.

2.178 Yn ogystal â gwneud yr argymhellion uchod, mae'r tîm hefyd yn pennu tri maes o arfer da. Mae'r cyntaf o dan Ddisgwyliad B4 ac mae'n ymwneud â'r gefnogaeth ragweithiol barhaus a systematig i'r myfyrwyr i'w helpu i baratoi ar gyfer eu haddysg uwch. Mae'r ail o dan B7 ac mae'n ymwneud â'r defnydd hynod effeithiol a wneir gan y Coleg o adroddiadau arholwyr allanol i hysbysu datblygiad ansawdd. Mae'r trydydd yn ymwneud â'r partneriaethau parhaus a chydlynol y mae'r Coleg wedi'u datblygu gyda chyflogwyr, sy'n cefnogi datblygiad a darpariaeth y cwricwlwm.

2.179 Mae ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yng Ngrŵp Llandrillo Menai yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.

3 Y Feirniadaeth am: Ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu

Disgwyliad (C): Mae darparwyr addysg uwch y DU yn cynhyrchu gwybodaeth i'w cynulleidfaoedd targed am yr addysg uwch y maent yn ei chynig sy'n addas, yn hygyrch ac yn ddibynadwy.

Cod Ansawdd, Rhan C: Gwybodaeth am Ddarpariaeth Addysg Uwch

Y canfyddiadau

3.1 Mae'r Grŵp yn rhoi gwybodaeth ar ei wefan i ddarpar fyfyrwyr am gyrsiau a sut i ymgeisio. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am y cymwysterau mynediad sy'n ofynnol i astudio a dolenni at ragor o arweiniad a chefnogaeth ar gyfer y broses ymgeisio, ac yn ystod y cyfnod astudio. Paratwir gwybodaeth gyhoeddusurwydd gan yr arweinydd rhaglen addysg uwch perthnasol ac yna mae'r wybodaeth yn mynd at dîm Marchnata a Chyfathrebu'r Grŵp gan ddefnyddio gwybodaeth yn deillio o ddogfennau dilysu'r rhaglen, fel y cyfeirir atynt yn adran A2.2.

3.2 Mae gan y Grŵp brosesau ffurfiol ar gyfer cymeradwyo a gwirio'r holl wybodaeth a gyhoeddir, y mae gan y Rheolwr Marchnata gyfrifoldeb cyffredinol amdani er mwyn sicrhau ei chysondeb. Mae'r Grŵp ASAAU yn goruchwyllo a chymryd y cyfrifoldeb am yr wybodaeth a gyhoeddir i'r cyhoedd, gan gynnwys sicrhau bod arweinwyr rhaglen yn cymeradwyo'r wybodaeth mewn print derfynol. Mae'r arweinwyr rhaglen a'r Rheolwyr Meysydd Rhaglen yn gwirio cywirdeb y dogfennau ac mae amserlen gyda rhestr wirio yn ei lle ar gyfer gwirio'r deunyddiau mewn print ac ar y we gan y Rheolwr Marchnata. Anfonir fersiynau drafft gan y tîm Marchnata a Chyfathrebu at y timau rhaglen i'w gwirio a'u haddasu, gan ddefnyddio gwybodaeth yn deillio o UCAS, sydd wedi cael ei diweddarau yn dilyn newidiadau i'r dogfennau dilysu. Ar gyfer darparwyr partner, mae Rheolwr Marchnata'r Grŵp yn gwirio fod pob dogfen yn glynu at brotocol cywir y partner dyfarnu. Yna mae pob partner dyfarnu'n cymryd rhan yn y broses o wirio cywirdeb gwybodaeth gyhoeddus drwy ystyried unrhyw fersiynau drafft a gyflwynir cyn eu cyhoeddi a'u hargraffu. Byddai'r gweithdrefnau hyn yn galluogi i Ddisgwyliad C gael ei gyflawni.

3.3 Profodd y tîm adolygu effeithiolrwydd y ffordd mae'r Grŵp yn rheoli gwybodaeth drwy archwilio gyda staff sut mae protocolau'n cael eu rhoi ar waith, gan archwilio polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â gwybodaeth a chraffu ar ystod o esiamplau o wybodaeth mewn print ac ar-lein. Siaradodd y tîm hefyd â myfyrwyr am hygyrchedd a chywirdeb yr wybodaeth sydd ar gael cyn ymgeisio ac yn ystod eu hastudiaethau.

3.4 Mae'r holl wybodaeth mewn print a'r wefan allanol yn cael eu gwirio gan y Rheolwr Marchnata. Mae'r amserlen ffurfiol ar gyfer gwirio gwybodaeth mewn print ac ar-lein yn cael ei monitro wrth i wybodaeth am gyrsiau gael ei chynhyrchu. Fodd bynnag, gallai'r tîm weld tystiolaeth gyfyngedig i ddangos bod cywirdeb yr wybodaeth ar y wefan yn cael ei oruchwyllo'n systematig ac yn gynhwysfawr. Y tîm Marchnata a Chyfathrebu sy'n cymeradwyo'r wybodaeth a gyhoeddir yn derfynol. Mae prospectysau'n dilyn fformat safonol, maent ar gael ar y wefan allanol a chânt eu hargraffu'n ddwyieithog i sicrhau fod anghenion mynediad ieithyddol yn cael eu cyflawni. Mewn cyfarfodydd gyda'r myfyrwyr a'r staff, hysbyswyd y tîm fod myfyrwyr sy'n dod i mewn yn cael eu cyfeirio at y wefan i sicrhau eu bod yn derbyn yr wybodaeth fwyaf diweddar.

3.5 Dywedodd y myfyrwyr bod yr wybodaeth oedd ar gael iddynt cyn ymgeisio yn sylweddol ac yn eu galluogi i ddeall amcanion a chwmpas eu darpar gyrsiau. Rhoddodd y myfyrwyr hynny a gyfarfu'r tîm sylwadau ffafriol am faint y gefnogaeth a'r arweiniad yr oeddent wedi'i dderbyn wrth ymgeisio.

3.6 Yn dilyn mynediad, defnyddir adborth gan fyfyrwyr i hysbysu'r datblygiadau a'r newidiadau i faint ac ansawdd yr wybodaeth drwy wybodaeth a geir o Banelau Dysgwyr a Theithiau Cerdded i Ddysgu. Mae cwestiynau yn yr AMC yn cael eu monitro a'u defnyddio fel ffynhonnell i gael adborth dangosol, ond ni ddefnyddir unrhyw wiriad systematig a rheolaidd gyda'r myfyrwyr i hysbysu agwedd y Coleg tuag at wybodaeth.

3.7 Mae llawlyfrau rhaglen, taflenni cwrs a llawlyfrau'r cyflogwyr yn cael eu diweddarau'n flynyddol gyda gwybodaeth am gyrsiau a ddarperir gan yr Arweinydd Rhaglen. Mae'r myfyrwyr yn derbyn llawlyfrau rhaglen a gwybodaeth am fodiwlau yn ystod y cyfnod cynefino, sydd hefyd ar gael ar-lein drwy'r rhith-amgylchedd dysgu. Mae'r adnoddau hyn ar gael yn ddwyieithog.

3.8 Mae'r Grŵp yn amlinellu prosesau o gynhyrchu tystysgrifau a thrawsgrifiadau ar gyfer pob un o'i raglenni a ddilysir. Mae prosesau clir i Arweinwyr Academaidd Addysg Uwch, Swyddogion Arholiadau a'r Gofrestrfa ar waith ar gyfer pob corff dyfarnu perthnasol i sicrhau cywirdeb y graddau a gyflwynir i fyfyrwyr cyn y rhoir eu tystysgrifau iddynt.

3.9 Mae gan y Grŵp brosesau cadarn ar gyfer gwirio'r broses o gynhyrchu'r wybodaeth a gyhoeddir cyn ei llwytho i fyny. Nid yw'r prosesau hyn wedi'u hadlewyrchu'n gyfan gwbl mewn gweithdrefnau ar gyfer goruchwyllo cywirdeb yr wybodaeth ar y wefan yn systematig ac yn gynhwysfawr. Yn gyffredinol, mae hygyrchedd yr wybodaeth ddwyieithog i fyfyrwyr cyfredol a darpar fyfyrwyr, a'r adolygiad o'r wybodaeth hon i sicrhau ei bod yn addas, yn hygyrch ac yn ddibynadwy, yn golygu bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu: Crynodeb o'r canfyddiadau

3.10 Wrth benderfynu ar ei feirniadaeth am ansawdd yr wybodaeth a gynhyrchwyd am ddarpariaeth y Coleg, cyfatebodd y tîm ei ganfyddiadau gyda'r meini prawf a nodir yn Atodiad 2 y llawlyfr a gyhoeddwyd. Craffodd y tîm amrywiaeth o ddogfennau (rhai a gyhoeddir mewn print a fersiynau electronig) sydd ar gael i ddarpar fyfyrwyr, myfyrwyr cyfredol a chyn-fyfyrwyr ac i randdeiliaid eraill.

3.11 Yn gyffredinol, mae'r tîm o'r farn bod y Grŵp wedi ystyried gofynion ffurfiol Disgwyliad C ac wedi sicrhau ei fod yn gallu dangos ei gydymffurfiad â'r disgwyliad eang. Mae gan y Grŵp fecanweithiau cymeradwyo ar waith i sicrhau bod yr wybodaeth a gyhoeddir yn gywir.

3.12 Nid yw'r tîm wedi canfod unrhyw arferion da nac yn gwneud unrhyw argymhellion yn y maes hwn.

3.13 Mae ansawdd yr wybodaeth a gynhyrchwyd am ddarpariaeth y Grŵp yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.

4 Y Feirniadaeth am: Y gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr

Disgwyliad (Gwelliant): Cymerir camau pwrpasol ar lefel y darparwr i wella ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr.

Y canfyddiadau

4.1 Mae Cynllun Strategol ar gyfer Addysg Uwch 2015-18 y Grŵp yn amlinellu nifer o nodau strategol, megis sicrhau llwyddiant rhagorol i'r myfyrwyr, ac ystod o flaenoriaethau strategol, sy'n cynnwys sicrhau gwelliannau cadarn a thrwyadl yn ansawdd y ddarpariaeth, y llwyddiannau a'r canlyniadau ym maes addysg uwch. Mae hyn i gyd wedi'i hysbysu gan genhadaeth y Grŵp i 'ysbrydoli llwyddiant drwy ddarparu addysg a hyfforddiant ardderchog'.

4.2 Er nad oes strategaeth benodol ar gyfer gwelliant, mae gan y Grŵp Gynllun Datblygu a Gwella Ansawdd, a gwblheir ar ddiwedd y flwyddyn galendr yn rhan o'i gylch ansawdd ac a drafodir yn y Grŵp ASAAU. Mae'r Cynllun Strategol a'r Cynllun Datblygu a Gwella Ansawdd yn nodi nifer o themâu i ddatblygu a gwella ansawdd addysg uwch ar gyfer 2015-16. Mae'r rhain yn cael eu halinio â'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu ar gyfer y cyfnod cynllunio 2015-18. Mae'r themâu hyn yn cael eu dwyn yn eu blaen drwy nifer o fentrau gwelliant sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Datblygu a Gwella Ansawdd. Ynghyd â'r themâu hyn a'r mentrau sy'n eu tanategu, mae gan y Grŵp bolisiau, prosesau a gweithgareddau eraill i hwyluso gwelliant yn y cyfleoedd dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys y Strategaeth Addysgu, Dysgu ac Asesu (Rhagfyr 2015); Addysgu a Dysgu: Rhannu Arferion Da 2014-15; Teithiau Cerdded i Ddysgu; cynadleddau datblygu o fewn y safle i staff addysg uwch a digwyddiadau AGD (diwrnodau adolygu a gwerthuso); cynllun arsylwi addysgu; a phroses o fonitro rhaglenni'n flynyddol. Byddai'r trefniadau hyn yn galluogi i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

4.3 I brofi effeithiolrwydd trefniadau i gefnogi gwelliant, yn cynnwys mentrau wedi'u gyrru gan strategaethau, archwiliodd y tîm adolygu ddogfennau a chynhaliodd gyfarfodydd gyda myfyrwyr a staff yn y Grŵp.

4.4 Ystyriodd y tîm ddogfen Fframwaith Ansawdd Grŵp a daeth i'r casgliad, er ei fod yn hysbysu dull y Grŵp o wella ansawdd, y gellid ei gryfhau drwy ddefnyddio ffocws mwy eang ac eglur ar welliant. Mae'r Strategaeth Addysgu, Dysgu ac Asesu'n disgrifio cynllun gweithredu addysgu a dysgu, ac mae'n nodi targedau, mesurau perfformiad, a chamau gweithredu penodol ar faterion megis effaith arsylwadau yn y dosbarth, deilliannau dysgwyr, lledaenu arferion da, cyfranogaeth mewn arbrofion dan gymorth, a gwella adborth o asesiadau. Daeth y tîm i'r casgliad bod y strategaeth hon, a'r camau gweithredu a bennwyd, yn alinio'n dda â blaenoriaethau strategol a nodwyd gan y Grŵp, a'i ymrwymadau i welliant.

4.5 Mae'r Grŵp ASAAU yn goruchwyllo gwelliant yn gydgynghorol. Er enghraifft, mae ei gylch gwaith yn awgrymu ei fod yn gyfrifol am fonitro'r Cynllun Datblygu a Gwella Ansawdd mewn addysg uwch ac am fonitro effaith y mentrau gwella ansawdd a'r camau gweithredu a gymerir i wella ansawdd y cyfleoedd dysgu. Daw dau fath o gam gweithredu i'r amlwg yng nghyd-destun proses y Cynllun Datblygu a Gwella Ansawdd. Mae'r cyntaf, camau gweithredu o'r Cynllun Datblygu Ansawdd, yn gofyn newid agwedd o'r prosesau ansawdd neu ddatblygu proses sicrhau ansawdd newydd. Yn eu tro, mae themâu'r Cynllun Gwella Ansawdd yn gofyn gwneud newid pwrpasol sy'n arwain at welliant.

4.6 Archwiliodd y tîm sut y pennir themâu gwelliant. Mae'r aelodau'n trafod adroddiadau a data a dderbynir gan y Grŵp ASAAU i bwrrpas cytuno ar y cyd ar y themâu a'r mentrau i'w dwyn yn eu blaenau. Mae'r Grŵp ASAAU yn pennu mentrau gwelliant a chyfleoedd i wella drwy werthuso canlyniadau ystod o drefnau sicrhau ansawdd. Mae'r rhain yn cynnwys prosesau o fonitro rhaglenni'n flynyddol, adborth gan y myfyrwyr drwy ddiweddariadau llais y dysgwyr, adborth

gan yr arholwyr allanol, a thrwy fonitro dangosyddion perfformiad allweddol, a chanlyniadau arsylwadau'r addysgu.

4.7 Un esiampl a ystyriwyd yn fanwl gan y tîm oedd y ffordd y mae Tîm Ansawdd y Grŵp yn defnyddio adroddiadau ARhF ar ran y Grŵp ASAAU. Mae nifer o themâu gwelliant cyfredol yn cyfateb yn uniongyrchol â'r broses ARhF. Mae'r Grŵp ASAAU wedi pennu pum menter thematig ar gyfer 2015-16 drwy ddefnyddio'r broses gynllunio yn y Cynllun Datblygu a Gwella Ansawdd. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu'r defnydd o'r rhith-amgylchedd dysgu i gefnogi'r addysgu a'r dysgu, gwella'r defnydd o'r system olrhain ar-lein (eDRAC) a'r porth dysgu unigol electronig eILP (porth eILP) i osod targedau i'r dysgwyr ac olrhain eu cynnydd yn electronig, a gwella presenoldeb a chadw mwy o ddysgwyr drwy fonitro dysgwyr 'mewn perygl' trwy'r porth eILP. Mae mentrau gwelliant hefyd yn cynnwys datblygu gweithgareddau ysgolheigaidd drwy gysylltu â'r Academi Addysg Uwch (AAU), a defnyddio 'arbrofion dan gymorth' ym maes addysgu a dysgu i ddatblygu'r addysgeg a'r cyfleoedd dysgu. Ychwanegir themâu a mentrau eraill dros y flwyddyn.

4.8 O'r camau pwrpasol yma a gymerir ar lefel y Grŵp, mae'r tîm adolygu'n dod i'r casgliadau canlynol. Yn gyntaf, wrth fyfyrion ar ba mor effeithiol yw'r Grŵp o ran defnyddio prosesau mewnol o werthuso ansawdd ar gyfer gwelliant, gwelodd y tîm dystiolaeth ddogfennol sy'n cadarnhau bod prosesau ac arferion hunanwerthuso effeithiol ar waith i gefnogi gwelliant. Yn ail, mae proses y Cynllun Datblygu a Gwella Ansawdd a gwaith y Grŵp ASAAU yn dangos y defnydd effeithiol a wneir o brosesau sicrhau ansawdd i wella'r ansawdd a phwyntio at ddull trefnus o wella ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr. Mae effeithiolrwydd y Grŵp ASAAU o ran pennu cyfleoedd a mentrau i wella'r dysgu a'r addysgu yn **arfer da**.

4.9 Archwiliodd y tîm rai o'r mentrau gwelliant a grybwyllwyd eisoes ymhellach. Cymerodd y tîm hefyd y cyfle i ystyried yn fanwl nifer o weithgareddau sefydliadol eraill sy'n cefnogi gwelliant yn ansawdd dysgu'r myfyrwyr, a nifer o arferion academaidd ac addysgol y staff, sy'n cyfrannu at yr ethos o welliant y mae'r Grŵp yn ei feithrin yn llwyddiannus.

4.10 Cyflwynwyd y cynllun Teithiau Cerdded i Ddysgu yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Yma gall Rheolwyr Meysydd Rhaglen, cyflogwyr ac aelodau o'r corff llywodraethu gynnal trafodaethau gyda myfyrwyr yn eu hamgylchedd dysgu am eu profiadau ar nifer o bynciau sy'n ymwneud ag ansawdd. Gyda chefnogaeth rhaglen o hyfforddiant, mae'r cynllun wedi'i strwythuro o amgylch nifer o themâu sy'n ganolog i'r profiad dysgu. Ym mlwyddyn gyntaf y cynllun mae ffocws y Teithiau Cerdded i Ddysgu ar brosesau cynefino ar lefel rhaglen, y defnydd a wneir o'r system eDRAC a'r porth dysgu unigol electronig eILP (porth eILP) i helpu myfyrwyr i symud yn eu blaenau a gosod targedau, a materion yn ymwneud ag asesu, megis ansawdd a phrydlondeb yr adborth ar waith a aseswyd. Mae'r canlyniadau'n cael eu casglu mewn dogfen a rennir sydd i'w chael ar y rhith-amgylchedd dysgu ac mae adroddiadau'n mynd i'r Tîm Rheoli a'r corff llywodraethu. Mae'r staff yn deall y trefniadau hyn ac mae'n bosib y gallent wella profiad y myfyrwyr mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys drwy gysylltiadau â chyflogwyr.

4.11 Hefyd, o gwrdd â myfyrwyr, nododd y tîm adolygu eu profiad positif o'r fenter eDRAC, a pha mor werthfawr ydyw iddynt o ran gwella eu sgiliau a chynyddu eu hyder fel dysgwyr. Yn ogystal â'u mynediad at sesiynau tiwtora un-i-un, mae'r system olrhain ar-lein hon, y gellir ei chyrraedd drwy'r porth eILP, yn helpu i osod targedau a chynllunio camau gweithredu i ddysgwyr a gan ddysgwyr drwy drafod gyda'u tiwtoriaid personol. Mae pwysigrwydd cynyddol y system eDRAC, gan gynnwys ei phwysigrwydd gyda dysgwyr Lefel 6, yn arwydd o'i photensial i ddod â gwelliant drwy helpu myfyrwyr i fyfyrion ar eu dysgu ac ar yr adborth y maent yn ei dderbyn gan diwtoriaid. Mae'r defnydd manwl a wneir o'r system olrhain ar-lein (eDRAC) i helpu myfyrwyr i fyfyrion ar eu dysgu ac i wella eu sgiliau a chynyddu eu hyder fel myfyrwyr yn **arfer da**.

4.12 Roedd y tîm adolygu hefyd yn ystyried y defnydd a wneir o Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU (UKPSF) fel ffordd o wella datblygiad proffesiynol y staff a darparu cyfleoedd

i wella addysgu. Mae'r Coleg wedi gweithredu proses fapio fanwl i fesur pob un o'r safonau sy'n pennu ystod gynhwysfawr o gyfleoedd i staff allu alinio eu gweithgareddau fel athrawon gyda'r fframwaith. Yn ogystal â nodi'r ystod o weithgareddau y mae staff yn cymryd rhan ynddynt, megis cynllunio a datblygu'r cwricwlwm, asesu, cynllunio dysgu'r myfyrwyr, ac ysgoloriaeth uwch, mae'r erfyn mapio yma'n nodi sut mae'r staff yn cael eu cefnogi a sut mae'r gweithgareddau'n cael eu monitro. Mae'r gefnogaeth yn cynnwys ystod o gyfleoedd o ran datblygiad proffesiynol parhaus sydd ar gael i athrawon a phobl eraill sy'n cefnogi profiad dysgu'r myfyrwyr. Wedi'i alinio at y defnydd yma o'r Fframwaith UKPSF mae'r gefnogaeth a'r anogaeth sy'n cael ei rhoi i staff addysg uwch i gyflawni statws Cymrawd yr Academi Addysg Uwch (AAU), gan gynnwys drwy weithio mewn partneriaeth â Chanolfan Gwella Addysgu a Dysgu ym Mhrifysgol Bangor. Hyd yn hyn, mae 23 o staff naill ai wedi cyflawni neu'n gweithio tuag at statws Uwch Gymrawd, Cymrawd, neu Gymrawd Cyswllt, sef tuedd sy'n adlewyrchu'n dda ar ymdrechion y Grŵp i wella addysgeg ac arferion academaidd ei staff addysg uwch. Mae'r garfan fwyaf diweddar o'r staff i weithio tuag at statws Cymrawd yn rhaeadru eu profiad i gydweithwyr eraill erbyn hyn ar sail fentora.

4.13 Mae'r tîm hefyd yn nodi'r defnydd a wneir o'r cynllun arsylwi addysgu a dysgu. Rheolir y cynllun hwn, sydd wedi'i fapio yn erbyn y Fframwaith UKPSF, ar lefel weithredol gan Reolwyr Meysydd Rhaglen, a hyfforddir gan hyfforddwyr mewnol ac allanol sydd ag arbenigedd mewn defnyddio a gweithredu cynlluniau o'r fath. Cesglir data o arsylwadau yn ganolog a'u cydgasglu i ddarparu gwybodaeth benodol i bob maes astudio. Sicrheir bod y dadansoddiad yma ar gael i reolwyr yn y Tîm Rheoli ar ffurf adroddiadau arsylwi blynyddol y gellir eu defnyddio i alluogi Mentoriaid Dysgu ac Addysgu i ddarparu cymorth proffesiynol, ac i hysbysu blaenoriaethau o ran hyfforddiant. Gwneir dadansoddiad o duedd ar lefel y Grŵp a'r meysydd astudio, a rhoddir adroddiadau i'r Grŵp ASAAU ar ffurf adroddiadau arsylwi addysg uwch. Mae hyn yn darparu sail ar gyfer pennu arferion da, meysydd ar gyfer gwelliant generig ac hefyd themâu gwelliant posibl. Lle bernir fod arsylwadau'n mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau, gwahoddir y staff perthnasol i drosglwyddo eu harferion i mewn i fformat astudiaeth achos. O ganlyniad, mae oddeutu 70 o astudiaethau achos ym maes addysgu a dysgu wedi ymddangos o'r cynllun hyd yn hyn, a gellir cael gafael ar y rhain drwy deil addysgu a dysgu'r rhith-amgylchedd dysgu.

4.14 Wrth ddatblygu ei broffil gwelliant ymhellach, mae'r Grŵp wedi ymgysylltu'n llwyddiannus gyda nifer o linyddau gwaith menter Cyfeiriadau'r Dyfodol Cymru-gyfan. Mae wedi cymryd rhan yn y Grŵp Llywio Cyfeiriadau'r Dyfodol, ac hefyd y llinynnau gwaith ar gyfer Teithiau Dysgwyr ac Addysgu sy'n Ysbrydoli. Roedd y Grŵp yn llwyddiannus hefyd yn ei fod am brosiect Ôl-troed Digidol sydd, o'i hysbysu gan ganllawiau'r AAU ar gyflogadwyedd, wedi cynhyrchu canlyniadau a chael eu defnyddio i wella cyflogadwyedd y myfyrwyr. Arweiniodd y llinyn gwaith Addysgu sy'n Ysbrydoli at rannu, ar lefel y sector, lyfryn y Grŵp ar arferion da mewn addysgu a dysgu, sy'n cynnwys astudiaethau achos o dan fenter fewnol 'arbrofion dan gymorth' y Grŵp. Digwyddodd y lledaeniad yma yng nghyd-destun pecyn cymorth Gwella'r Cwricwlwm yr Academi Addysg Uwch (AAU), sydd ar gael erbyn hyn i'r holl ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru.

4.15 Wrth ystyried materion sy'n ymwneud â gwelliant a datblygiad, roedd y tîm adolygu hefyd yn ystyried pa fecanweithiau a threfniadau sydd ar waith yn y Grŵp ar gyfer canfod a rhannu arferion da, gan gynnwys darparu datblygiad staff i gefnogi gwelliant i gyfleoedd dysgu'r myfyrwyr drwy wella'r arferion academaidd. I'w helpu nhw, gallai'r tîm ddefnyddio nifer o ffynonellau, megis y ddogfen hunanwerthuso, a phapurau sefydliadol eraill oedd yn tystio i'r ethos y mae'r Grŵp yn ceisio ei annog er mwyn cefnogi gwelliant mewn dysgu ac addysgu, yn cynnwys ystyriaethau'r Grŵp ASAAU.

4.16 Gall rhannu arferion da godi mewn amrywiol ffyrdd yn y Grŵp, yn cynnwys o'r cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus a gyflwynir i ymarferwyr o'r addysgu, ysgoloriaeth uwch, neu ddatblygiad arferion addysgol ac academaidd. Rhannwyd rhywfaint o'r gwaith ymchwil addysgol drwy gyhoeddi dyddlyfr mewnol, *Insight*, er na chafwyd mwy nag un rhifyn hyd yn hyn.

4.17 Gellir pennu arferion da sy'n haeddu eu lledaenu drwy brosesau a bennwyd yn gynharach, yn cynnwys Arsylwadau Addysgu a Dysgu a Theithiau Cerdded i Ddysgu. Gellir eu lledaenu yng nghyfarfodydd timau rhaglen neu Reolwyr Meysydd Rhaglen, trwy gynadleddau dysgu ac addysgu neu ddiwrnodau datblygu achlysurol, megis y digwyddiadau AGD (diwrnodau adolygu a gwerthuso) ar bynciau megis asesiadau, a thrwy waith a gweithgareddau'r Rheolwr Dysgu ac Addysgu a'r mentoriaid dysgu ac addysgu. Gwelodd y tîm dystiolaeth i ddangos sut mae canlyniadau'r cynllun arsylwi'n cael eu defnyddio mewn perthynas â darpariaeth addysg uwch ar draws y Grŵp i rannu arferion da, a sut y defnyddir enghreifftiau o ragoriaeth mewn addysgu i hysbysu meysydd sydd angen datblygiad pellach. Defnyddir adroddiadau statws CMG, ar sail drefnus a systematig, i hysbysu datblygiad staff mewn meysydd o arfer a bennir gan arholwyr allanol. Mae hyn yn cyfrannu at yr arferion da a nodir yn B7.

4.18 Mae'r agendâu a'r gweithdrefnau ar gyfer Cynadleddau Addysg Uwch undydd blynyddol yn dangos ymhellach sut mae enghreifftiau o arfer da'n cael eu lledaenu. Mae'r digwyddiad blynyddol hwn yn rhoi cyfleoedd i staff ymgysylltu mewn ymarfer myfyriol, ac yn gyfle i arddangos themâu gwelliant cyfredol, megis yr 'arbrofion dan gymorth'. Mae mentrau megis 'arbrofion dan gymorth' yn galluogi i'r profiad o ymchwil ac arbrofi gael ei rannu o amgylch amrywiol strategaethau addysgol sydd wedi cael eu defnyddio'n llwyddiannus gyda dysgwyr, ar bynciau megis adborth i fyfyrwyr, dysgu ar y cyd, sgiliau academiaidd, a gosod amcanion i ddysgwyr. Mae gweithdai cynhadledd a sesiynau llawn yn galluogi i staff o bob maes yn y cwricwlwm drafod arferion sydd wedyn yn cael eu rhannu'n agored ar borth y Grŵp fel adnodd 'Rhannu Arferion Da mewn Addysgu a Dysgu'. Yn ogystal â'r ffocws ar themâu gwelliant y Grŵp, fel y maent wedi'u pennu drwy'r Grŵp ASAAU, mae cynadleddau hefyd yn rhoi'r cyfle i rannu arferion ar faterion rheoliadol megis arferion academiaidd annheg, safonau academiaidd a sicrhau'r ymgysylltiad gorau â myfyrwyr.

4.19 Mae'r dystiolaeth yn cadarnhau bod y Grŵp yn cymryd camau pwrpasol, mewn ffordd drefnus a systematig, i wella ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr a bod y trefniadau hyn yn gweithio'n effeithiol. Daeth y tîm i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Y gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr: Crynodeb o'r canfyddiadau

4.20 Wrth benderfynu ar ei feirniadaeth ynglŷn â gwella'r cyfleoedd dysgu, cyfatebodd y tîm ei ganfyddiadau â'r meini prawf a nodir yn Atodiad 2 y llawlyfr a gyhoeddwyd. Mae'r tîm o'r farn bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg yn isel.

4.21 Archwiliodd y tîm ystod o esiamplau o welliant a oedd yn dangos defnydd rhagweithiol o systemau a strwythurau, ac a oedd yn datblygu ansawdd y cyfleoedd dysgu'n effeithiol ac yn barhaol. Mae'r tîm yn pennu dau faes o arfer da yn y maes hwn. Mae'r cyntaf yn ymwneud â'r defnydd manwl a wneir o system olrhain ar-lein eDRAC y Grŵp, sy'n helpu'r myfyrwyr i fyfyr ar eu dysgu ac sy'n gwella eu sgiliau a chynyddu eu hyder. Mae'r ail yn ymwneud ag effeithiolrwydd y Grŵp Ansawdd a Safonau Academaidd ym maes Addysg Uwch o ran canfod cyfleoedd a mentrau i wella'r dysgu a'r addysgu.

4.22 O ganlyniad i'r dull a ddefnyddir gan y Grŵp ar lefel strategol i wella ansawdd y cyfleoedd dysgu, mae'r gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn derbyn **cymeradwyaeth**.

5 Sylwadau am Ryngwladoli

5.1 Mae gan y Grŵp Swyddfa Ryngwladol sy'n gwneud gwaith dramor gyda phartneriaid addysg uwch. Ar hyn o bryd mae'r Grŵp yn cynnal Rhaglen Sylfaen Ryngwladol ac mae wedi marchnata ei gynnig dramor drwy asiantaeth. Fodd bynnag, yn dilyn adolygiad a wnaethpwyd gan y Grŵp, mae'n bwriadu tynnu'r rhaglen yn ei hôl oherwydd cymhlethdodau visa a chystadleuaeth yn lleol.

5.2 Mae gan y Grŵp gysylltiadau da gyda'r Cyngor Prydeinig ar ystod o fentrau ac mae ganddo amrywiol bartneriaethau o fewn a'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r partneriaethau hyn yn cynnwys amrywiol gyfnewidiadau arferion addysgu, darparu darlithoedd a phrosiectau dramor, derbyn darlithoedd yn y Grŵp, a datblygu cyfryngau asesu ar gyfer mentrau bach a chanolig ledled Ewrop.

5.3 Mae gan y Grŵp strategaeth o 2014 hyd 2016 ar gyfer ei gynnig rhyngwladol i 2016, ond gyda chynlluniau i dynnu'r Rhaglen Sylfaen Ryngwladol yn ei hôl, ni fydd hon yn cael ei hadnewyddu.

Rhestr termau

Mae'r rhestr termau hon yn ganllaw cyfeirio cyflym i dermau yn yr adroddiad hwn sydd efallai'n anghyfarwydd i rai darllenwyr. Hefyd, rhoddir diffiniadau o dermau gweithredol allweddol ar dudalennau 22 i 24 y [llawlyfr Adolygiad Addysg Uwch: Cymru](#).

Os byddwch eisiau diffiniadau gweithredol ffurfiol o dermau eraill, gwelwch yr adran ar sicrhau safonau ac ansawdd: www.qaa.ac.uk/assuring-standards-and-quality.

Gallwch weld esboniadau hawdd eu defnyddio o amrediad eang o dermau yn y **Rhestr termau** hirach ar wefan ASA: www.qaa.ac.uk/Pages/GlossaryCY.aspx.

Arfer da

Proses neu ffordd o weithio sydd, ym marn tîm adolygu ASA, yn gwneud cyfraniad arbennig o bositif i reolaeth darparwr addysg uwch ar safonau academiaidd ac ansawdd ei ddarpariaeth addysgol. Caiff ei ddefnyddio fel term technegol ym mhrosesau adolygu ASA.

Canlyniadau dysgu

Yr hyn y disgwylir i ddysgwyr ei wybod, ei ddeall a/neu allu ei ddangos ar ôl cwblhau proses o ddysgu.

Corff dyfarnu graddau

Darparwr addysg uwch y DU (prifysgol fel arfer) sydd â'r pŵer i ddyfarnu graddau, ac mae'r pŵerau yma wedi'u cyflwyno drwy Siarter Frenhinol, neu dan Adran 76 y Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, neu o dan Adran 48 y Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch (Yr Alban) 1992, neu drwy Fwla Pabaidd, neu, ers 1999, drwy ddyfarniad y Cyfrin Gyngor ar gyngor ASA (mewn ymateb i geisiadau am bwerau dyfarnu graddau a addysgir, pŵerau dyfarnu graddau ymchwil neu deitl prifysgol).

Credyd(au)

Ffordd o fesur a chydabod dysgu, a ddefnyddir gan y mwyafrif o sefydliadau sy'n darparu **rhaglenni astudio** addysg uwch, wedi'i fynegi fel nifer o gredydau ar lefel benodol.

Cyfleoedd dysgu

Y ddarpariaeth a wneir ar gyfer dysgu myfyrwyr, gan gynnwys astudiaeth a gynlluniwyd, addysgu, asesiad, cymorth academiaidd a phersonol, ac adnoddau (megis llyfrgelloedd a systemau gwybodaeth, labordai neu stiwdios).

Datganiad Meincnod Pwnc

Datganiad a gyhoeddwyd sy'n nodi pa wybodaeth, dealltwriaeth, galluoedd a sgiliau a ddisgwylir gan y rheiny sy'n graddio ymhob un o'r prif feysydd astudio (yn ymwneud gan fwyaf â graddau baglor), ac sy'n esbonio beth sy'n rhoi ei gydlyniad a'i hunaniaeth i'r ddisgyblaeth arbennig honno.

Diffiniad gweithredol

Diffiniad ffurfiol o derm, sy'n sefydlu yn union beth mae ASA yn ei olygu wrth ei ddefnyddio mewn adolygiadau ac adroddiadau.

Disgwyliadau

Datganiadau yn y **Cod Ansawdd** sy'n nodi beth mae holl ddarparwyr addysg uwch y DU yn ei ddisgwyl ganddynt eu hunain ac felly gan ei gilydd, a'r hyn y gall y cyhoedd ei ddisgwyl ganddynt.

Dyfarniad dwbl neu ddyfarniad deuol

Rhoi dyfarniadau (a thystysgrifau) ar wahân ar gyfer yr un **rhaglen** gan ddau **gorff dyfarnu graddau** sydd wedi darparu'r rhaglen astudio sy'n arwain atynt ar y cyd. Gweler hefyd **dyfarniad lluosog**.

Dyfarniad

Cymhwyster, neu gredyd academiaidd, wedi'i gyflwyno i gydnabod yn ffurfiol bod myfyriwr wedi cyflawni'r **canlyniadau dysgu** a fwriedir a phasio'r asesiadau sy'n ofynnol i gwrdd â'r safonau academiaidd a osodir ar gyfer **rhaglen** neu uned astudio.

Dyfarniadau lluosog

Trefniant lle mae tri **chorff dyfarnu graddau** neu fwy yn darparu, gyda'i gilydd, un **rhaglen** (neu raglenni) a ddarperir ar y cyd sy'n arwain at **ddyfarniad** ar wahân (a thystysgrif ar wahân) gan bob un o'r cyrff dyfarnu. Mae'r trefniant yr un fath ag ydyw ar gyfer **dyfarniadau dwbl/deuol**, ond gyda thri chorff dyfarnu neu fwy'n cymryd rhan.

Dysgu cyfunol

Dysgu a ddarperir drwy nifer o wahanol ddulliau, sydd fel arfer yn cynnwys dysgu wyneb yn wyneb ac e-ddysgu (gweler **dysgu gyda chymorth technoleg**).

Dysgu gyda chymorth technoleg (neu e-ddysgu)

Dysgu a ddarperir neu a gefnogir drwy ddefnyddio technoleg.

Dysgu hyblyg a dosranedig

Rhaglen neu fodiwl nad yw'n gofyn i'r myfyriwr fynychu dosbarthiadau neu ddigwyddiadau ar amseroedd ac mewn lleoliadau penodol. Gweler hefyd **dysgu o bell**.

Dysgu o bell

Cwrs astudio nad yw'n cynnwys cysylltiad wyneb yn wyneb rhwng myfyrwyr a thiworiaid ond, yn lle hynny, mae'n defnyddio technoleg megis y rhyngwyd, mewnrwydi, cyfryngau darlledu, CD-ROM a fideo, neu ddulliau traddodiadol o ohebu - dysgu 'o bell'. Gweler hefyd **dysgu cyfunol**.

e-ddysgu

Gweler **dysgu gyda chymorth technoleg**.

Ehangu cyfranogaeth

Cynyddu cyfranogaeth pobl o amrediad ehangach o gefndiroedd mewn addysg uwch.

Fframwaith cymwysterau addysg uwch

Strwythur ffurfiol cyhoeddedig sy'n pennu hierarchaeth lefelau cymwysterau cenedlaethol ac yn disgrifio'r cyflawniad cyffredinol a ddisgwylir gan ddalwyr y prif fathau o gymhwyster ar bob lefel, a thrwy hynny helpu darparwyr addysg uwch i gynnal safonau academiaidd. Mae ASA yn cyhoeddi'r fframweithiau dilynol: *Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ) a'r *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Sefydliadau Addysg Uwch yn yr Alban* (FQHEIS).

Fframwaith

Strwythur ffurfiol cyhoeddedig. Gweler hefyd **fframwaith cymwysterau addysg uwch**.

Gwelliant

Y broses y mae darparwyr addysg uwch yn ei defnyddio i wella ansawdd y ddarpariaeth yn systematig a'r ffyrdd y mae addysg myfyrwyr yn cael ei chefnogi. Caiff ei ddefnyddio fel term technegol yn ein prosesau adolygu.

Gwybodaeth gyhoeddus

Gwybodaeth sydd ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd (y cyfeirir ati weithiau fel bod 'yn eiddo i'r cyhoedd').

Manylebau rhaglen

Datganiadau wedi'u cyhoeddi am y **canlyniadau dysgu** y bwriedir eu sicrhau o'r rhaglenni astudio, yn cynnwys gwybodaeth am ddulliau dysgu ac addysgu, dulliau cymorth ac asesu, a sut mae unedau unigol yn berthnasol i lefelau cyflawniad.

Pwyntiau cyfeirio

Datganiadau a chyhoeddiadau eraill sy'n sefydlu meini prawf y gellir mesur perfformiad yn eu herbyn.

Rhaglen (astudio)

Cwrs astudio cymeradwy sy'n darparu profiad dysgu cydlynol ac sydd fel arfer yn arwain at gymhwyster.

Rhith-amgylchedd dysgu (RhAD)

Mewnrwyd neu wefan ryngweithiol sydd wedi'i diogelu gan gyfrinair (cyfeirir at hwn hefyd fel plattform neu ryngwyneb defnyddiwr) sy'n rhoi mynediad yn electronig i **gyfleoedd dysgu**. Gallai'r rhain gynnwys adnoddau megis llawlyfrau cwrs, gwybodaeth a rhestrau darllen; blogiau, byrddau neges a fforymau; darlithoedd wedi'u recordio; a/neu gyfleusterau ar gyfer seminarau ar-lein (gweminarau).

Safon academaidd trothwy

Y lefel isaf o gyflawniad sy'n dderbyniol y mae'n rhaid i fyfyrwr ei dangos er mwyn bod yn gymwys i dderbyn **dyfarniad** academaidd. Mae safonau academaidd trothwy wedi'u disgrifio yn y **fframweithiau** cenedlaethol a'r **Datganiadau Meincnod Pwnc**.

Safonau academaidd

Y safonau a osodir gan **gyrff dyfarnu graddau** ar gyfer eu cyrsiau (rhaglenni a modiwlau) a'r safonau a ddisgwyllir ar gyfer eu dyfarniadau. Gweler hefyd **safon academaidd trothwy**.

Y Cod Ansawdd

Term byr am God Ansawdd Addysg Uwch y DU, sef y gyfres i'r DU gyfan o **bwyntiau cyfeirio** i ddarparwyr addysg uwch (y cytunwyd arnynt drwy ymgynghoriad gyda'r gymuned addysg uwch, a'i gyhoeddi gan ASA), sy'n nodi'r **Disgwyliadau** y mae gofyn i bob darparwr eu cyflawni.

QAA1623 - R4705 - Gorffennaf 16

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2016
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786

Ffôn: 01452 557 050

Gwefan: www.qaa.ac.uk